100
1920~2020

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Adolygiad Ariannol

## 2020

# cynnwys


04 NEGES GAN YR IS-GANGHELLOR

05 NEGES GAN GADEIRYDD Y CYNGOR

06 EFFAITH COVID-19

09 ADRODDIAD STRATEGOL

13 PROFIAD Y MYFYRWYR

14 YMCHWIL O SAFON FYD-EANG

17 YSGOGI TWF ECONOMAIDD AC EFFAITH GYMDEITHASOL

18 GALLUOGWYR STRATEGOL

20 TROSOLWG A RHAGOLWG ARIANNOL

22 ADOLYGIAD ARIANNOL

29 PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

32 LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

36 DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

40 ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL

42 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU’R CYNGOR

44 DATGANIAD O’R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU
















# Neges gan yr Is-ganghellor



Roedd y flwyddyn academaidd hon bob amser i fod yn un arbennig yn hanes Prifysgol Abertawe. Addawodd dyfodiad blwyddyn ein Canmlwyddiant gyfle i ddathlu canrif o gyflawni gyda'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid ledled y byd. Er i'r pandemig byd-eang drawsnewid y cynlluniau hyn, ynghyd â'n ffyrdd o addysgu, gweithio a byw, gallwn fyfyrio ar y 12 mis diwethaf ag ymdeimlad o falchder yn ein pobl a'n cenhadaeth.

Ein cymuned o fyfyrwyr fu ein blaenoriaeth drwy gydol y cyfnod hwn. Er gwaethaf newid i ddysgu ac asesu ar-lein yng nghanol y flwyddyn yn sgil Covid-19, rydym wedi parhau i ddarparu i'n myfyrwyr yr addysgu o safon uchel, wedi'i arwain gan ymchwil, sy'n adlewyrchu ein Gwobr Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA). Rydym wedi blaenoriaethu profiad addysg uwch ein myfyrwyr, ac rydym yn falch o'r amgylchedd cefnogol, dymunol a chyfeillgar sy'n cael ei gynnig ym Mhrifysgol Abertawe. Dyfarnwyd Gwobr Times Higher Education i ni yn 2019 am ein platfform arloesol i ymgysylltu â myfyrwyr, Unitu, ac rydym yn falch iawn o'n chweched safle yn y DU am foddhad myfyrwyr yn ôl Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2020, a hynny ar sail adborth ein myfyrwyr.

Rydym yn falch o hyd o gynnig y cyfleoedd a'r profiadau cyfoethogi sy'n galluogi ein myfyrwyr i ddod yn raddedigion medrus iawn y dyfodol, sydd â'r rhinweddau i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn ein byd newidiol. Roedd y pwyslais hwn ar ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd wrth wraidd cenhadaeth ein sefydlwyr a, hyd at heddiw, mae ein partneriaethau cryf â diwydiant yn caniatáu i ni gynnig cyfleoedd dysgu a lleoliadau gwaith ardderchog sydd wedi'u teilwra i fyd gwaith. Eleni, mae ein Prifysgol wedi cael ei hystyried yn un o'r pum prifysgol orau yn y DU am ragolygon gyrfa ac, yn y dyfodol, bydd ein myfyrwyr yn elwa o'r cyfleoedd a grëwyd drwy'r partneriaethau rhyngwladol newydd rydym yn parhau'n ymrwymedig i'w datblygu.

Mae ein dysgu ac addysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar ein hymchwil o safon fyd-eang sy'n sail ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas, o anghydraddoldeb a hawliau dynol i newid yn yr hinsawdd. Yn 2019, lansiwyd ein rhaglen Ysgoloriaeth Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton, a ariennir yn llawn gan Sky, i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr i fynd i'r afael â heriau byd-eang difrifol megis hawliau a diogelwch plant ar-lein a seiber-ddiogelwch. Yn yr un flwyddyn, lansiodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe, ochr yn ochr â Sky Ocean Rescue a'r World Wide Fund for Nature, y prosiect mwyaf erioed i adfer morwellt yn nyfroedd y DU. Bydd rhyw 20,000 o fetrau sgwâr yn cael eu hadfer fel rhan o fenter dal carbon y disgwylir iddi ddal hyd at hanner dunnell fetrig o garbon deuocsid yr hectar bob blwyddyn - cam hollbwysig wrth fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd.

Yn 2020, roeddem yn wynebu her fyd-eang newydd wrth i Covid-19 ymledu. Rydym yn hynod falch o ymateb ein cymuned, a dynnodd ar ganrif o wytnwch ac arloesi i addasu a chyfrannu at yr ymateb cenedlaethol a rhyngwladol i'r pandemig. Mae ein staff, ein myfyrwyr a'n partneriaid wedi cydweithio i helpu i leddfu'r pwysau logistaidd ar ein hisadeiledd gofal iechyd a bu ein hymchwilwyr yn cydweithredu ag eraill i fodelu effeithiau cymdeithasol, economaidd a seicolegol y pandemig. Mae datblygiadau arloesol allweddol eleni, megis datblygu dulliau newydd o lanhau ambiwlansys yn gynt, yn dangos gallu ein cymuned ymchwil i addasu a rôl hollbwysig y sector addysg uwch wrth i ni ddod allan o'r argyfwng hwn.

Mae digwyddiadau 2020 wedi dangos i ni bod cymuned ein Prifysgol gymaint yn fwy nag adeiladau a safleoedd. Mae nerth ein hymrwymiad i'n cenhadaeth ddinesig a'n gwerthoedd wedi dod i'r amlwg wrth i ni symud i ffyrdd newydd o addysgu, gweithio a byw o bell. Rydym yn falch o'n meddylfryd rhyngwladol a'n rôl leol a chenedlaethol fel cadarnle'r iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth Gymraeg. Mae'n bleser mawr gennym hefyd ailddatgan ein hymrwymiadau i gynaliadwyedd, i gydraddoldeb ac i'n cymuned, ar yr un pryd â darparu addysgu o safon aur, yn seiliedig ar ymchwil o fri rhyngwladol. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sylfaen ein dogfen Gweledigaeth Strategol a Phwrpas newydd a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu ein huchelgais i ffynnu fel sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn, lle mae ein pobl, ein gwerthoedd a'n diwylliant wrth wraidd popeth a wnawn.

Er y bu'n rhaid gohirio dathliadau ffurfiol ein Canmlwyddiant, mae llawer i'w ddathlu o hyd eleni, o ganlyniad i ymdrechion ac ymrwymiad anhygoel ein myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid penigamp. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf ac, yn wir, at ein canrif nesaf, gan wybod bod ein cymuned ym Mhrifysgol Abertawe eisoes wedi arddangos y gwytnwch a'r gallu i addasu y bydd eu hangen arnom i wynebu heriau'r dyfodol gyda'n gilydd.



**Yr Athro Paul Boyle, Is-Ganghellor**

# Neges gan Gadeirydd y Cyngor



Bu'n fraint ac yn anrhydedd o'r mwyaf cael fy mhenodi'n Gadeirydd newydd Cyngor y Brifysgol ym mis Rhagfyr 2019; y Brifysgol lle astudiodd a graddiodd fy rhieni tua 70 o flynyddoedd yn ôl. Mae gennyf, felly, ymdeimlad dwys o gyfrifoldeb a dyletswydd a fydd, hyderaf, yn helpu i'n harwain ni i gyd yn y cyfnod sydd o'n blaenau, i weithredu bob amser er buddion gorau'r Brifysgol a'i holl randdeiliaid -boed yn staff, yn fyfyrwyr, y gymuned leol neu ein rhwydwaith ehangach o gyn-fyfyrwyr a ffrindiau. Yn wir, mae'n bleser ychwanegol cyflwyno Adolygiad Gweithredol ac Ariannol y Brifysgol ym mlwyddyn dathlu ein Canmlwyddiant, a diolch am y llwyddiannau cyfoethog a rhyfeddol niferus a gyflawnwyd gan y Brifysgol a'i chyn-fyfyrwyr yn ystod y can mlynedd diwethaf.

Wrth gwrs, bu'n rhaid gohirio i raddau helaeth y dathliadau a'r digwyddiadau a gynlluniwyd i nodi ein canmlwyddiant, oherwydd effaith hynod drist a niweidiol argyfwng Covid-19. Serch hynny, yr awydd i gefnogi ein cymuned sydd wedi ein hysgogi i ymateb mor gyflym i fygythiad Covid-19. Yn ogystal â diwallu'r angen brys am gyfarpar diogelwch personol a chyfarpar diheintio drwy fentrau gan y Brifysgol gyfan megis SWARM (Consortiwm Gweithgynhyrchu Ychwanegol a Chyflym De Cymru), gweithredom yn gyflym i ddiwallu anghenion dybryd ein cymuned drwy Gronfa Ymateb Cyflym Covid-19 ein Prifysgol i ariannu gwaith ymchwil a chymorth hanfodol ac i helpu ein myfyrwyr sydd yn yr angen mwyaf.

Nid oes amheuaeth nad yw Covid-19 wedi trawsnewid tirwedd addysg uwch a gwyddom y bydd profiad y brifysgol yn wahanol iawn eleni, i'n myfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd. Rydym yn ymrwymedig i gynnig ein hyblygrwydd a'n cefnogaeth iddynt, ac am gynnal ein safon uchel o addysgu, boed wyneb yn wyneb neu o bell. Rydym yn falch o'n hymgyrch recriwtio lwyddiannus eleni, ar gyfer myfyrwyr cartref a rhyngwladol, a'n gobaith yw y bydd cyflwyno llwybrau newydd, megis dechrau ym mis Ionawr ar gyfer rhai o'n rhaglenni, yn sicrhau bod ein drysau ar agor mor eang â phosib i bob myfyriwr sy'n awyddus i astudio gyda ni dros y blynyddoedd nesaf.

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn falch o'n cymuned amrywiol o fyfyrwyr ac o'r cymorth a ddarparwn i sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu elwa i'r eithaf o'i amser gyda ni. Abertawe yw'r unig Brifysgol yng Nghymru, ac un o saith yn unig yn y DU, sydd â chanolfan drawsgrifio, sy'n golygu bod Abertawe'n ddewis poblogaidd dros ben i fyfyrwyr ag anawsterau darllen print. Rydym bob amser wedi bod yn agos at y brig o ran boddhad myfyrwyr a rhagolygon graddedigion. Mae ein gwasanaethau cymorth ardderchog i fyfyrwyr yn hanfodol nawr mwy nag erioed, wrth i ni ymdrechu i roi'r profiad gorau posib i'n myfyrwyr yn yr amserau heriol hyn.

Mae amrywiaeth ein cymuned o fyfyrwyr wedi'i hadeiladu ar ein hymrwymiad i gynwysoldeb, ymrwymiad sydd wedi bod yn nodwedd o'r Brifysgol drwy gydol y ganrif ers ei sefydlu; rydym bob amser wedi croesawu myfyrwyr ac wedi recriwtio staff o amrywiaeth helaeth o gefndiroedd ac wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn teimlo'n gartrefol yn Abertawe. Ym 1921, penodwyd Mary Williams i'r swydd newydd, Athro Iaith a Llenyddiaeth Ffrangeg, enghraifft gynnar o fenyw'n cyflawni teitl Athro. Ac rydym bob amser wedi bod yn brifysgol i'r gymuned sy'n gweithio nid yn unig er lles diwydiant lleol a phobl Abertawe, ond un sydd â hanes cryf o ymgyrraedd yn ehangach: yn y 1950au croesawyd cyfres hir o ysgolheigion llesiant y Cenhedloedd Unedig gennym a fu'n gweithio yn y dref, yn ogystal â bod yn rhan o'r Brifysgol a thua diwedd y 1970au, daethom yn ganolfan ar gyfer cyfres o ysgolheigion-ffoadur. Mae ein Canolfan Astudiaethau Datblygu yn gyfrifol am addysgu rhai o'n cyn-fyfyrwyr rhyngwladol mwyaf nodedig. Rydym yn ymrwymedig i gydraddoldeb ac yn falch o fod yn un o'r 100 o gyflogwyr gorau yn ôl mynegai Stonewall, gan gadw ein 47ain safle yn nhabl cynghrair o gyflogwyr y DU yn 2020. Mae'r Brifysgol hefyd yn un o 18 yn unig o brifysgolion yn y DU sydd wedi ennill gwobr arian sefydliadol Athena SWAN, y brifysgol gyntaf y tu allan i Grŵp Russell i gyflawni hyn. Rydym bob amser wedi rhoi pwyslais mawr ar gynyddu cyfoeth ein doniau a pharchu cyfraniadau pob un o'n myfyrwyr, ein haelodau staff, ein cyn-fyfyrwyr a'n partneriaid, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni ddechrau ein hail ganrif.

Yn ogystal â'r heriau a ddaeth yn sgil Covid-19, yn 2020 cydnabu'r Brifysgol yr angen i ymateb ar frys i faterion llywodraethu craidd, ac i sicrhau ein bod yn mabwysiadu diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, yn gyson â nifer o fentrau ac adolygiadau a gomisiynwyd gan y Brifysgol ei hun ac yn fwy cyffredinol ar draws prifysgolion yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys camau i sicrhau bod her a thrafodaeth yn cael eu hannog ym mhob rhan o'n sefydliad, gan gynnwys ar lefel y Cyngor, corff llywodraethu'r Brifysgol, a bod ymddiriedaeth, atebolrwydd, ymgysylltu a thryloywder wrth wraidd ein diwylliant a'n gwerthoedd. Mae gwaith wedi dechrau, dan arweiniad ac â chymeradwyaeth y Cyngor, i sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein Statudau a'n hymarfer, yn unol ag argymhellion CCAUC ac Adolygiad Camm (2019).

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hollbwysig i ni, fel y byddant ar gyfer holl brifysgolion y DU. Bydd angen i ni gynnal ein henw fel Prifysgol sy'n ymfalchïo mewn ymchwil neilltuol ac addysgu o'r safon uchaf, a bydd rhaid i ni ledaenu'r neges bod perthyn i Abertawe yn golygu perthyn i gymuned sy'n cydnabod bod nerth a gwerth amhrisiadwy mewn amrywiaeth. Cyhyd â'n bod yn parhau i gydweithio, mae gennyf bob hyder y byddwn yn derbyn yr heriau o'n blaenau ac yn parhau i ffynnu.



**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**

# Effaith Covid-19

Mae pandemig Covid wedi newid yn sylfaenol y ffordd mae prifysgolion yn gallu gweithio, darparu addysgu ac ymgymryd ag ymchwil. Nid yw Prifysgol Abertawe'n eithriad. Gweithredom yn gyflym i sicrhau diogelwch ein myfyrwyr  a'n staff, gan nodi ffyrdd y gallai ein cymuned academaidd gynorthwyo drwy ddefnyddio'r cyfleusterau a'r partneriaethau helaeth sydd ar gael iddynt. Darperir manylion am rai o'r gweithgareddau hyn yn y Datganiad o Fudd Cyhoeddus.

Ar lefel llywodraethu a chynllunio, rhoddwyd Cynllun Rheoli Digwyddiadau'r Brifysgol ar waith a llwyddodd y Tîm Rheoli Digwyddiadau i gau pob gweithgaredd ond y rhai hanfodol ar y campws yn ddiogel. Ac eithrio timau diogelwch y campws, gofynnwyd i'r holl staff weithio gartref ac addasodd y gweithlu'n gyflym i weithio ar-lein, gan gynnwys trawsnewid gweddill y gweithgarwch addysgu i ddarpariaeth ar-lein.

Yn sgil y gwaith llwyddiannus i gau a datgomisiynu adeiladau a gwasanaethau, sefydlodd y Brifysgol y prosiect Cynllunio i Adfer ar ôl Covid, dan arweiniad y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu. Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i oruchwylio'r gweithgareddau cynllunio ar gyfer adfer. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys modelu senarios, ailfeddiannu'r ystâd fesul cam yn y tymor byr, cynlluniau tymor hirach (megis newidiadau yn ein model gweithredu o ganlyniad i effaith Covid-19) a llunio cynllun wrth gefn rhag ofn y byddai ail frig yn y pandemig.

Sefydlwyd saith ffrwd waith, pob un â chyfrifoldeb am ddatblygu cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer eu meysydd penodol. Lluniwyd cyfres gychwynnol o egwyddorion cynllunio a rhagdybiaethau cynllunio i sicrhau bod gan y ffrydiau gwaith sylfaen gyson ar gyfer eu cynllunio. Profwyd a newidiwyd y rhagdybiaethau hyn yn ystod y pum mis ar ôl i gyfyngiadau symud cenedlaethol gael eu cyhoeddi, wrth i arweiniad y Llywodraeth newid ac wrth i'n dealltwriaeth o'r broblem gynyddu.

Amlinellir isod y camau gweithredu allweddol a gymerwyd i alluogi staff a myfyrwyr i ddychwelyd yn ddiogel ac i ennyn hyder darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd y bydd Prifysgol Abertawe'n lle diogel a deniadol i astudio ynddo yn 2020/21 ac wedi hynny.

## GALLUOGI STAFF I DDYCHWELYD

Datblygwyd ymagwedd fesul cam at alluogi staff i ddychwelyd -

- Cam 1 (Mai - Mehefin) dychwelodd staff hanfodol i fusnes, gweithgareddau ymchwil sy'n ymwneud â Covid-19 a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn eu blwyddyn olaf sy'n ymgymryd â gweithgareddau labordy
- Cam 2 (Mehefin-Medi) dychwelodd rhagor o staff ymchwil a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, staff hanfodol ar gyfer y broses glirio a, thua diwedd y cyfnod, gellir caniatáu mynediad i'r campws i staff addysgu sy'n paratoi cynnwys
- Cam 3 (Medi ymlaen) rhoddwyd caniatâd i staff addysgu ddychwelyd ar yr amod ei bod hi'n angenrheidiol iddynt fod ar y safle, a staff 'rheng flaen' â chyfrifoldeb am weithgareddau sy'n gwasanaethu myfyrwyr.

## GALLUOGI MYFYRWYR I DDYCHWELYD

Mae Siarter Myfyrwyr atodol wedi cael ei dosbarthu i'r holl fyfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd. Mae'r Siarter yn amlinellu'r egwyddorion a'r ymddygiadau y bydd y Brifysgol a'r holl fyfyrwyr yn glynu wrthynt er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn parhau'n lle diogel i astudio a gweithio ynddo. Gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr gytuno i'r Siarter hon wrth gofrestru.

## DYSGU AC ADDYSGU

Y bwriad am addysgu yn y semester cyntaf yw iddo gael ei ddarparu mewn ffordd 'gyfunol' drwy gyfuniad o addysgu byw ar-lein, deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw er mwyn cynyddu hygyrchedd a gweithgareddau academaidd ar y campws.

Yn ystod y semester cyntaf, ac eithrio nifer bach o weithgareddau clinigol a thasgau mewn labordai, bydd yr holl ddeunydd addysgu ar gael ar-lein i sicrhau na fydd myfyrwyr sy'n methu dod i'r campws, neu sy'n dewis peidio â dod, dan anfantais, neu rhag ofn y daw cyfyngiadau cenedlaethol ar symud i rym eto.

Estynnwyd oriau addysgu am ddwy awr ychwanegol, rhwng 6pm ac 8pm ar nos Lun, nos Fawrth a nos Iau, i leihau pwysau ar yr amserlen. Rhagwelir y caiff yr amser hwn ei ddefnyddio ar gyfer astudio dan arweiniad myfyrwyr ar y campws a gweithgarwch ar-lein yn bennaf, er y gall fod rhywfaint o addysgu wyneb yn wyneb ar adegau yn ystod y cyfnod hwn. Mae prynhawniau Mercher wedi'u clustnodi o hyd ar gyfer chwaraeon a chymdeithasau.

## MYFYRWYR RHYNGWLADOL A CHWARANTIN

Darparwyd gwasanaeth cwrdd a chyfarch i fyfyrwyr rhyngwladol am gyfnod estynedig eleni. Bu tîm cwrdd a chyfarch yn cwrdd â myfyrwyr yn y maes awyr a threfnwyd coets breifat gan y Brifysgol i ddod â myfyrwyr yn uniongyrchol i'r campws. Bu'n ofynnol i fyfyrwyr a gyrhaeddodd o dramor (ac eithrio gwledydd sydd wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn) dreulio 14 diwrnod mewn cwarantin a darparwyd llety at y diben hwn yn Neuaddau Rod Jones.

Cyflwynwyd dyddiad dechrau ym mis Ionawr ar gyfer 2021 a bydd y cyfle hwn ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol yn unig, er mwyn ceisio cynyddu nifer y cofrestriadau rhyngwladol.

## LLETY

Cynhaliwyd asesiadau risg ar gyfer myfyrwyr sy'n byw mewn preswylfeydd a staff sy'n gweithio yn y preswylfeydd. Rhoddwyd mesurau pellter cymdeithasol ar waith a darparwyd arwyddion a hylif diheintio dwylo ym mhob neuadd breswyl a bydd glanhau ychwanegol mewn ardaloedd cymunedol.

Ystyrir bod pob fflat yn 'aelwyd' yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, ac anfonwyd pecynnau sefydlu a deunyddiau e-ddysgu at fyfyrwyr cyn iddynt gyrraedd i esbonio'r canllawiau cyfredol am bellter cymdeithasol ar y campws, yr hyn y gallant ei ddisgwyl ar ôl cyrraedd a sut i gysylltu â phobl eraill yn eu haelwyd.

## GWEITHREDIADAU AR Y CAMPWS

### DIOGELWCH CYFFREDINOL A SYMUD O GWMPAS Y CAMPWS

Nid yw pob adeilad wedi cael ei ail-agor yn y flwyddyn academaidd newydd. Cynhaliwyd asesiadau risg a rhoddwyd mesurau lliniaru ar waith ar gyfer y rhai sydd ar agor. Mae gweithgareddau cydymffurfio statudol wedi parhau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud a chânt eu sicrhau cyn i'r brifysgol ail-agor. Mae hyn yn cynnwys yr holl wiriadau cynnal a chadw a chydymffurfiaeth systemau trydanol, mecanyddol a dŵr.

Cyflwynwyd systemau unffordd drwy'r campws lle bynnag y bo'n ymarferol a gosodwyd arwyddion, sgriniau a chyflenwadau hylif diheintio mewn mannau allweddol ym mhob adeilad. Mae pob adeilad wedi cael ei lanhau'n drylwyr cyn ei ail-agor a darparwyd tystysgrif o gydymffurfiaeth gan Ystadau a Rheoli Cyfleusterau. Yn ogystal, mae'r trefniadau glanhau wedi cael eu hestyn a nodwyd a blaenoriaethwyd 'pwyntiau cyffwrdd' risg uchel.

### CLUDIANT I'R CAMPYSAU A RHWNG CAMPYSAU


Beicio yw'r dull teithio mwyaf diogel, iach a llesol i'r amgylchedd o hyd ac mae'r holl safleoedd beic a chyfleusterau storio beiciau yn cael eu glanhau'n rheolaidd, yn unol ag argymhellion y llywodraeth.

Mae bysus yn parhau i deithio rhwng campws Singleton a Champws y Bae a chytunwyd gyda Thrafnidiaeth De Cymru y bydd hylif diheintio dwylo ar gael i'r holl deithwyr ar bob bws.

### BUDDSODDIAD

I fodloni'r rheoliadau diogelwch cyfredol mewn perthynas â COVID-19, galluogi ffyrdd newydd o weithio ac i gefnogi'r ymdrech genedlaethol i drechu'r feirws, aeth y Brifysgol i £763,000 o wariant nad oedd mewn perthynas â chyflog yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2020.

### GWARIANT MEWN PERTHYNAS Â COVID YN 2019/20




Mae £1m wedi cael ei glustnodi ar gyfer gwariant mewn perthynas â Covid yn 2020/21 Mae'r meysydd a gymeradwywyd eisoes yn cynnwys:

| MAES BUDDSODDIAD | DIBEN |
|---|---|
| **Cyfarpar Clyweledol** | Gwella'r cyfarpar clyweledol ar y ddau gampws er mwyn recordio darlithoedd, troi mannau nad oeddent yn cael eu defnyddio at ddiben addysgu yn fannau addysgu ac adnewyddu cyfarpar am resymau diogelwch |
| **Gorchuddion Wyneb** | Prynu a dosbarthu gorchuddion wyneb ar gyfer myfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd |
| **Cwrdd a Chyfarch ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol** | Estyniad i'r gwasanaeth Cwrdd a Chyfarch presennol - bysus ychwanegol |
| **Profiad a Digwyddiadau Myfyrwyr** | Profiad a digwyddiadau ychwanegol ar y campws i fyfyrwyr, gan gynnwys - isadeiledd ar gyfer digwyddiadau ar gampysau penodol, pŵer ar y safle, arlwyo, rheoli digwyddiadau |
| **Tlodi Digidol** | Gliniaduron a loceri storio ychwanegol ar gyfer myfyrwyr y mae angen iddynt fenthyca cyfarpar oherwydd y cynnydd mewn darpariaeth ar-lein. |
| **Myfyrwyr mewn Cwarantin** | Pecynnau croeso ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd ac yn treulio cyfnod cwarantin yn neuaddau preswyl Prifysgol Abertawe |
| **Diogelwch mewn cwarantin** | Costau diogelwch ychwanegol i reoli cwarantin |



# Adroddiad Strategol

Dathlodd Prifysgol Abertawe ei chanmlwyddiant ar 19 Gorffennaf 2020. Bwriadwyd i'n Prifysgol fod yn sefydliad technegol a fyddai'n gweithio mewn partneriaeth â diwydianwyr y rhanbarth i ddiwallu anghenion diwydiant lleol. Er mai'r Gwyddorau, Mathemateg, Peirianneg a Meteleg oedd ein disgyblaethau sefydlol, ychwanegwyd at y rhain yn gyflym drwy gyflwyno Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Hanes, y Clasuron ac Addysg. Er i'n prifysgol gael ei sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, mae ein Prifysgol bob amser wedi bod yn awyddus i gwmpasu'r ystod gyfan o ymdrechion academaidd. Mae'r uchelgais hwn wedi'i gyfleu yn ein harwyddair, gweddw crefft heb ei dawn, ac mae'n wir o hyd heddiw.

Llywodraethir ein Prifysgol gan y Cyngor a chaiff ei rheoli gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithredu ar gampysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol: Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin.

Mae ein disgyblaethau academaidd wedi'u rhannu rhwng saith Ysgol a Choleg, pob un dan arweiniad Pennaeth Ysgol neu Goleg. Arweinir ein 11 Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth Proffesiynol gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu ac maent yn gweithio yn unol â thri gwerth craidd: rydym yn broffesiynol, rydym yn cydweithio, ac rydym yn ofalgar.

Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020 yn amlinellu ein gweledigaeth y byddwn yn cydweithio i drawsnewid bywydau a rhagolygon, drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol sy'n cydbwyso rhagoriaeth addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang ag ysgogi effaith ar sail cydweithrediadau rhanbarthol a byd-eang effeithiol.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn datblygu dogfen Gweledigaeth Strategol a Phwrpas newydd dan arweiniad yr Is-ganghellor. Bydd y ddogfen hon yn pennu gweledigaeth drosfwaol uchelgeisiau strategol y Brifysgol - gan amlygu ein cryfderau ac yn esbonio pwy ydym ni a'r hyn rydym yn sefyll drosto - beth mae'n ei olygu i berthyn i Brifysgol Abertawe ar drothwy ein hail ganrif. Bydd y ddogfen yn nodi pum piler strategol a chyfres o alluogwyr strategol â gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiadau ein Prifysgol arbennig wrth ei gwraidd.

Caiff strategaeth fanylach, ag amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol, ei datblygu ar gyfer pob un o'r pileri a'r galluogwyr drwy ymgynghori ac ymgysylltu'n eang yn y Brifysgol. Bydd y cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cynnwys gweithgareddau gweithredol a phrosiectau strategol y Brifysgol sy'n angenrheidiol i'w cyflawni, ynghyd â mesurau llwyddiant. Caiff strategaethau eu gweithredu a'u monitro drwy grwpiau, gweithgareddau cynllun busnes a rhaglenni a phrosiectau trawsnewid presennol y Brifysgol ac, yn y pen draw, cânt eu cynnwys yn yr amcanion a bennir ar gyfer staff unigol yn eu Hadolygiadau Datblygiad Proffesiynol blynyddol. Caiff dirprwyaeth effeithiol gweithgarwch cyflawni ei galluogi drwy raeadru dangosyddion perfformiad allweddol a gwybodaeth reoli berthnasol arall drwy'r Brifysgol.

| PILERI STRATEGOL | GALLUOGWYR STRATEGOL |
|---|---|
| Profiad y Myfyrwyr | Rhyngwladol |
| Dysgu ac Addysgu | Pobl a Diwylliant |
| Ymchwil | Cynaliadwyedd Ariannol, Enw Da a Recriwtio Myfyrwyr Cartref |
| Mentergarwch | Yr Ystâd Ddigidol a Diriaethol |
| Cenhadaeth Ddinesig | Chwaraeon a Lles |

| CYFLAWNIAD WEDI'I GYMERADWYO A'I FONITRO DRWY |
|---|
| Rhaglenni a Phrosiectau Trawsnewidiol y Brifysgol |
| Y Broses Cynllunio Busnes Blynyddol |
| Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol Staff Blynyddol |

| WEDI'U LLYWIO/MESUR GAN |
|---|
| Perfformiad Allweddol, 'edyn aur' Gwybodaeth Reoli |

Yn y tymor byr i ganolig, bydd gan y Brifysgol ffocws clir ar sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa ariannol bresennol y Brifysgol, ynghyd ag amrywiaeth o heriau a wynebir gan y sector addysg uwch cyfan. Bydd hefyd yn ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgeisiau strategol tymor hwy.

Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf:

- Adeiladu ar ein cryfderau presennol i atgyfnerthu ein lle ymysg grŵp bach o sefydliadau'r DU sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil a menter o safon fyd-eang
- Cyflawni gwelliannau gweithredol ar draws Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol, sefydlu Cyfadrannau newydd a datblygu ffyrdd newydd o weithio
- Tyfu ac amrywio ein portffolio o gyrsiau i wella cyfraddau recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol
- Cynyddu ein henw da rhyngwladol a'n hôl troed byd-eang
- Buddsoddi mewn 'cyfleoedd strategol' a 'materion sylfaenol', gan gynnwys partneriaethau cydweithredol, ansawdd arweinyddiaeth a'n hystâd ddigidol a diriaethol.

Bydd y newidiadau byddwn yn eu gwneud yn sicrhau bod Abertawe'n sefydliad mwy cynaliadwy a gwydn, ond rhaid i ni wneud hyn gyda'n gilydd fel un Brifysgol, a dyna pam rydym yn rhoi pobl wrth wraidd ein cynllun strategol newydd ac yn creu set o werthoedd ac ymddygiadau sefydliadol a fydd yn dod â ni'n fwy agos byth at ein gilydd fel cymuned.

**Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor**

## PROFIAD Y MYFYRWYR

FfRhA Aur

Y WOBR UCHAF (AUR) AM RAGORIAETH ADDYSGU MEWN PRIFYSGOLION YN Y DU

NSS
Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr
National Student Survey

6ED YN Y DU
**BODDHAD MYFYRWYR**
2020

TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE

19EG YN Y DU
**BODDHAD MYFYRWYR**
2021

TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE

**82.6%**
O RADDEDIGION MEWN CYFLOGAETH BROFFESIYNOL NEU ASTUDIAETH BELLACH
2021

**GRADDEDIGION YN ENNILL**
1AF/2:1s – 81.5%

## YMCHWIL A MENTER

FFRAMWAITH RHAGORIAETH YMCHWIL

**26AIN**

DATGANIADAU ARIANNOL 2019/20

**£56.2m**
INCWM YMCHWIL

**909**
O FYFYRWYR YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

## CENHADAETH DDINESIG

**10.9%**
MESURAU CENEDLAETHOL CCAUC 2018/19

## RECRIWTIO

**17,462**
O GEISIADAU

**18,203**
O FYFYRWYR ISRADDEDIG

**3,908**
O FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG

## ENW DA

GUARDIAN UNIVERSITY GUIDE

**24AIN** YN Y DU
2021

TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE

**36AIN** YN Y DU
2021

Complete University Guide

**32AIN** YN Y DU
2021

## ARIANNOL

**10%**
GWARGED FEL % O INCWM

**4.9%**
MEWNLIF ARIAN PAROD GWEITHREDOL FEL % O INCWM

**58%**
COSTAU STAFF FEL % O INCWM

**£9.1m**
EBITDA

## RHYNGWLADOL

MYFYRWYR RHYNGWLADOL

**15.7%**
O'R HOLL FYFYRWYR

## POBL A GWERTHOEDD

Stonewall TOP 100 EMPLOYER 2020

**47AIN**

ATHENA SWAN

**ARIAN**

SIARTER CYDRADDOLDEB HILIOL

HESA 18/19

GWRYWOD **45.9%**
BENYWOD **53.9%**
STAFF



# Profiad y myfyrwyr

Rydym yn ymrwymedig i gynnal a gwella ein henw am ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu, ac am ddarparu profiad eithriadol i fyfyrwyr sy’n paratoi ein myfyrwyr am lwyddiant personol a phroffesiynol.

Ym mis Mehefin 2018, dyfarnwyd Safon Aur am Ragoriaeth Addysgu i’r Brifysgol, y safon uchaf bosib yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) Llywodraeth y DU, gan atgyfnerthu ein henw fel un o brifysgolion gorau’r DU. Barnodd panel o arbenigwyr annibynnol fod myfyrwyr o bob cefndir sy’n astudio yn Abertawe yn cyflawni canlyniadau rhagorol yn gyson (cyflogaeth ar lefel raddedig neu astudiaethau pellach) a bod tystiolaeth amlwg o gymorth wedi’i bersonoli o ansawdd uchel ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gofal bugeiliol. Mae sicrhau bod ein graddedigion wedi’u paratoi ar gyfer byd gwaith wrth wraidd ein holl weithgarwch ac roedd hyn yn elfen bwysig o ddyfarnu safon Aur y FfRhA i ni.

Drwy Academi Cyflogadwyedd Abertawe, rydym yn darparu ymagwedd gyson ar draws y Brifysgol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbrydoli a’u meithrin a’u bod yn datblygu’n raddedigion cyflogadwy. Mae ein hymagwedd yn llwyddiannus iawn a sicrhaodd fod y Brifysgol yn y 5ed safle yng Nghanllaw The Guardian i Brifysgolion Gorau’r DU am Ragolygon Gyrfa yn 2020.

## CYFLAWNIADAU DIWEDDAR

- Mae llwyddiant Abertawe wedi parhau eleni, pan ddyfarnwyd y 24ain safle i ni yng nghanllaw diweddaraf i brifysgolion The Guardian. Yn rhyngwladol hefyd, mae’r Brifysgol wedi cadw ei safle yn y 300 o brifysgolion gorau’r byd yn ôl Times Higher Education yn 2021, gan ymddangos yn y band 251-300 am y drydedd flwyddyn yn olynol.

- Rydym hefyd yn gydradd yn y 32ain safle - ein safle uchaf hyd yn hyn - yn y Complete University Guide am 2021. Mae’r Canllaw hefyd yn cynhyrchu tablau cynghrair ar wahân sy’n cynnwys 70 o bynciau ac eleni, mae Abertawe’n ymddangos yn 41 ohonynt, gyda 10 o’n pynciau yn y rhestrau o’r 10 rhaglen orau yn y DU. Mae ein Prifysgol yn parhau ar y brig yng Nghymru o ran rhagolygon graddedigion ac yn y 13eg safle yn y DU yn yr un maes.

- Mae Abertawe’n chweched yn y DU yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2020, lle dywedodd 89% o’n myfyrwyr eu bod yn fodlon ar eu cwrs yn gyffredinol (o’i gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83%). Mae ein Prifysgol yn un o’r 10 orau am foddhad cyffredinol am 24 o’r 54 o bynciau lle mae’n ymddangos.

- Mae’r Brifysgol wedi cael ei chynnwys ar y rhestr fer am Brofiad Gorau Myfyrwyr yng Ngwobrau Prifysgolion The Guardian 2020, o ganlyniad i waith y Ganolfan Galw Heibio am Gyngor Ariannol sy’n helpu i leddfu pryderon ariannol myfyrwyr. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar les myfyrwyr a gadawodd llai o fyfyrwyr y Brifysgol oherwydd anawsterau ariannol.

- Rydym wedi buddsoddi yn ein hystâd gan agor bloc addysgu Y Twyni ar Gampws y Bae ac adnewyddu cyfleusterau ar Gampws Singleton. Mae Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton wedi ehangu i’r hen Dechniwm Digidol lle mae’r cyfleusterau newydd yn cynnwys Clinig y Gyfraith, lle astudio i fyfyrwyr, Swyddfa Gwybodaeth i Fyfyrwyr ac amrywiaeth o fannau addysgu, gan gynnwys ystafell lys newydd. Rydym hefyd wedi gwella safon ein hamgylchedd dysgu i fyfyrwyr drwy gyflwyno’r platfform dysgu ar-lein, Canvas, a’r platfform recordio fideo a darlithoedd, Panopto.

- Mae ein partneriaeth strategol â Thecsas wedi derbyn hwb ariannol gwerth £112,588 gan raglen ERASMUS+ i gefnogi symudedd myfyrwyr rhwng Abertawe a Phrifysgol Houston. Mae ein partneriaethau â Thecsas yn ein galluogi i gynnig cyfleoedd sy’n newid bywydau myfyrwyr, gan eu galluogi i dreulio amser dramor heb dalu ffioedd dysgu ychwanegol.

- Roedd yn bleser gennym hefyd groesawu’r garfan gyntaf o fyfyrwyr i raglen Ysgoloriaeth Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton a ariennir gan Sky. Mae’r myfyrwyr, sy’n astudio ac yn ymchwilio i ystod o faterion cymdeithasol dybryd, wedi elwa o gyfres o ddarlithoedd proffil uchel sydd wedi cynnwys ASau, ffigurau blaenllaw o’r sector cyfreithiol a barnwrol, Comisiynydd Plant Lloegr a chyn Ysgrifennydd Gwladol yr UD, Madeleine Albright.

# Ymchwil o Safon Fyd-eang

Mae Prifysgol Abertawe'n parhau i gynyddu safon, graddfa ac effaith ei hymchwil o safon fyd-eang, gan adeiladu ar lwyddiant ein perfformiad fel un o'r 30 o brifysgolion gorau yn y DU yn ôl REF2014. Cyflawnodd y Brifysgol y cynnydd mwyaf yn y DU ymhlith sefydliadau sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil - o'r 52ain safle yn 2008 i'r 26ain safle. Bernir bod y Brifysgol yn un o'r 20 sefydliad gorau yn y DU am ymchwil mewn saith pwnc: Meddygaeth (2il), Saesneg (7fed), Biowyddoniaeth (8fed), Peirianneg (12fed), Gwaith Cymdeithasol (14eg), Gwyddor Chwaraeon (15fed) a Chyfrifiadureg (18fed). Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol wedi dyblu nifer yr ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang a bernir bod 90% o ymchwil y Brifysgol bellach yn rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang.

Dangosodd hyn fod y Brifysgol yn sefydliad sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, un sy'n cyflawni effeithiau economaidd a chymdeithasol o bwys, nid yng Nghymru neu'r DU yn unig, ond yn rhyngwladol. Mae ein ffocws ar barhau â'r momentwm hwn, yn enwedig ym maes ymchwil ryngddisgyblaethol, gan gynyddu'r cyllid rydym yn ei dderbyn a meithrin amgylchedd ymchwil o safon fyd-eang sy'n cefnogi ymchwilwyr ar bob cam yn eu gyrfaoedd.

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn ymwneud â thros 30 o brosiectau cydweithredol a ariennir gan yr UE ac a ysgogir gan anghenion academaidd a diwydiannol; mae'r prosiectau hyn, sy'n werth dros £130m, yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio arnom nawr a rhai byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol, er enghraifft: creu diwydiant dur ar gyfer yr 21ain ganrif (Canolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC); ymchwilio i'r ffordd orau o integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy i grid pŵer y DU (y Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni) a galluogi lefelau uwch o arloesi busnes yng ngweithgynhyrchu'r dyfodol (ASTUTE).

## CYFLAWNIADAU DIWEDDAR

- Llwyddodd y Brifysgol i sicrhau cyllid ar gyfer tair Canolfan Hyfforddiant Doethurol y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, ym meysydd Caenau Diwydiannol Gweithredol (Peirianneg), Deallusrwydd Artiffisial, Dysgu Peirianyddol, ac Uwch-gyfrifiadura (Ffiseg) a Gwella Cydweithrediadau a Rhyngweithiadau â Systemau a Ysgogir gan Ddata (canolfan ryngddisgyblaethol a arweinir gan Gyfrifiadureg). Rydym hefyd wedi ymuno â Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol y De-orllewin (DTP SWBio) fel partner cysylltiol. Mae'r cydweithrediad hwn yn dod ag amrywiaeth o bartneriaid ynghyd (gan gynnwys Prifysgolion Caerfaddon, Bryste, Caerdydd a Chaerwysg a Rothamsted Research) i gryfhau hyfforddiant doethurol mewn meysydd ymchwil sy'n cynnwys dyframaeth, gwyddoniaeth planhigion a phridd, heneiddio a maeth iach, systemau anifeiliaid a niwrowyddoniaeth.

- Mae ymchwil i effaith newid yn yr hinsawdd yn yr Antarctig wedi cael hwb drwy ddyfarniad gwerth $20 miliwn (£10 miliwn) gan lywodraeth Awstralia ar gyfer gwaith dan arweiniad Prifysgol Tasmania mewn partneriaeth â rhewlifegwyr o Brifysgol Abertawe. Mae'r cyllid yn galluogi gwyddonwyr o'r ddau sefydliad a phartneriaid rhyngwladol eraill i barhau ag ymchwil ar y cyd i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar Diriogaeth Awstralaidd yr Antarctig sy'n cwmpasu tua 45% o arfordir Llên Iâ Dwyrain yr Antarctig.

- Bydd Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Data Cymru (WISERD), sy'n cynnwys Prifysgol Abertawe, yn derbyn £6.3 miliwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol i'w gefnogi i barhau â'i ymchwil cymdeithas sifil - y trydydd dyfarniad ariannol mawr yn ei hanes 10 mlynedd.

- Mae ein Canolfan Heneiddio Arloesol wedi derbyn cyllid gwerth £2.5m gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i greu hyb ymchwil newydd â'r nod o dyfu'r farchnad fyd-eang ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau mewn perthynas ag oedran. Cyflawnir y prosiect mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru.

- Mae WEFO hefyd wedi cefnogi prosiect gwerth £5.6m Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru i greu cyfleuster ymchwil a datblygu unigryw yn Ysgol y Gyfraith. Mae'r cyllid yn cefnogi creu Canolfan Arloesi Cyfreithiol lle gall ymchwilwyr, cwmnïau cyfreithiol a chwmnïau technoleg gydweithredu i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi darparu cyfleusterau ymchwil diogel ar gyfer ein Canolfan Ymchwil Seiber-fygythiadau a Chlinig y Gyfraith.

- Mae prosiect SPECIFIC y Coleg Peirianneg wedi derbyn cyllid ychwanegol (£6m) gan Lywodraeth Cymru i barhau â'i waith yn cynorthwyo cwmnïau yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i elwa o'n harbenigedd ym meysydd ynni solar, gwyddor deunyddiau, systemau a thechnolegau ynni adeiladau carbon isel. Mae'r prosiect wedi derbyn £6m gan raglen "Application Targeted and Integrated Photovoltaics" yr EPSRC hefyd ar gyfer prosiect a fydd yn cyflawni'r wyddor a'r beirianneg sylfaenol i danategu datblygiad technolegau solar addawol. Yr uchelgais yw datblygu dulliau gweithgynhyrchu carbon isel rhad y gellir eu defnyddio i gynhyrchu'r technolegau hyn ar raddfa, a datblygu prototeipiau i ddangos sut gallant ddarparu pŵer solar mewn cymwysiadau newydd.





# Ysgogi twf economaidd ac effaith gymdeithasol

Mae Prifysgol Abertawe'n parhau i chwarae rôl ganolog mewn cydweithrediadau strategol â phrifysgolion, cyrff cyllido, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a chwmnïau mawr a'u cadwyni cyflenwi i gyflawni buddion economaidd a chymdeithasol yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ddenu mewnfuddsoddiad ac i ysgogi arloesi a mentergarwch.

## CYFLAWNIADAU DIWEDDAR

- Mae'r Rhwydwaith Arloesedd Gwyddor Bywyd Uwch Celtaidd (CALIN), partneriaeth unigryw rhwng Iwerddon a Chymru sy'n cynnwys arbenigedd gwyddor bywyd ym Mhrifysgol Abertawe, wedi sicrhau cyllid ychwanegol gwerth €5 miliwn. Ers ei sefydlu yn 2016, mae CALIN wedi cynorthwyo dros 100 o gwmnïau, sefydlu 36 o brosiectau cydweithredol tymor byr a chanolig, ysgogi buddsoddid gwerth €5 miliwn mewn ymchwil a datblygu gan fusnesau a chreu 20 swydd newydd.

- Mae prosiect mawr gwerth £43.74m gyda chlwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd de Cymru wedi cael ei gymeradwyo a chaiff ei gefnogi gan gyllid gwerth £25.44m gan un o brif gronfeydd UK Research and Innovation – Strength in Places. Nod y prosiect "CSConnected", sy'n cynnwys Prifysgol Abertawe, yw integreiddio rhagoriaeth ymchwil â chadwyni cyflenwi unig yw gweithgynhyrchu lled-ddargludyddion uwch rhanbarthol. Yr uchelgais yw datblygu mantais gystadleuol mewn technolegau galluogi allweddol a fydd yn caniatáu i'r DU gynyddu masnach fyd-eang mewn sectorau hollbwysig megis cyfathrebu, 5G, cerbydau awtonomaidd a thrydan a dyfeisiau meddygol.

- Dyfarnwyd patent yn yr UD i wyddonwyr yn ein Hysgol Feddygaeth am therapi arloesol newydd yn y frwydr yn erbyn canser endometriaidd. Mae Gr ŵp Bioleg Atgenhedlu ac Oncoleg Gynaecolegol yr Ysgol wedi gweithio gyda Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chwm Taf, Canolfan Ymchwil Canser Cymru, y Sefydliad Ymchwil Bon-gelloedd Canser Ewropeaidd, GE Healthcare, ADC Biotechnology ac Axis Bio i ddatblygu dull o drin canser gynaecolegol y gobeithir y bydd yn lleihau sgil effeithiau i gleifion.

- Mae cydweithwyr yn ein Canolfan Technoleg Gofal Iechyd wedi ymuno â CPR Global Technology yn Abertawe i weithio ar ei wats clyfar, Guardian II, sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'r ddyfais, sy'n cael ei gwisgo ar yr arddwrn, yn cynnwys amrywiaeth o dechnolegau, gan gynnwys GPS ac olrheiniwr lleoliad WIFI, botwm SOS, galw dwyffordd a monitor cyfradd curiad y galon. Ei nod yw helpu defnyddwyr i aros yn eu cynefin cyfa wydd mor hir â phosib.

- Mae prosiect dan arweiniad Adran y Biowyddorau wedi derbyn cyllid gan Gynllun Algae-UK (Prawf Cysyniad) i archwilio sut gellir defnyddio algâu i greu'r genhedlaeth nesaf o eli haul. Bydd y tîm yn Abertawe bellach yn gweithio ar y prosiect gyda'r Natural Products Factory, sy'n berchen ar y brand gofal croen organig a feganaidd arobryn, Nourish London, ynghyd â gwyddonwyr iechyd o'n Hysgol Feddygaeth a Membranology, cwmni deillio a sefydlwyd gan y Brifysgol.

- Mae ein Canolfan Ymchwil i Seiberfygythiadau, sydd ag enw rhyngwladol am ei hymchwil i ddefnydd terfysgwyr o'r rhyngrwyd, wedi cael ei gwahodd yn ffurfiol i ymuno â Rhwydwaith mchwil Byd-eang Cyfarwyddiaeth Weithredol Pwyllgor Gwrth-derfysgaeth y Cenhedloedd Unedig, partneriaeth unigryw rhwng y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau academaidd mwyaf blaenllaw y byd ym meysydd terfysgaeth, gwrth-derfysgaeth ac atal eithafiaet dreisgar.

# Galluogwyr Strategol

### POBL

Un o alluogwyr allweddol ein strategaeth yw ein hymrwymiad i ddarparu amgylchedd diogel, cynhwysol a chefnogol sy'n croesawu amrywiaeth ac yn galluogi ein cydweithwyr a'n myfyrwyr i ffynnu.

Rydym yn falch o'n hachrediad gan y Living Wage Foundation fel cyflogwr sy'n talu cyflog byw gwirioneddol Aethom ati o'n gwirfodd i gyflwyno r cyflog byw gwirioneddol i'n holl staff cyflogedig ym mis Ebrill 2019, er budd mwy na 1,000 o'n cydweithwyr ar y cyflogau isaf. Rydym hefyd yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gennym a'r rhai a gyflogir ar is gontractau, ac rydym yn bwriadu dechrau talu'r cyflog byw gwirioneddol i'n holl gontractau trydydd parti pan ddaw'r amser i'w hadnewyddu.

Rydym wedi bod yn aelod o Siarter Athena SWAN Advance HE ers 2008, a ni oedd y brifysgol gyntaf y tu allan i Grŵp Russell i ennill Gwobr Arian Sefydliadol (yn 2017). Mae Gwobrau Arian unigol gan y Coleg Peirianneg, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a'r Ysgol Feddygaeth, ac mae Gwobr Efydd gan yr Ysgol Reolaeth. Eleni, llwyddodd yr Adran Ffiseg i droi ei statws Ymarferydd Juno'r Sefydliad Ffiseg yn Wobr Efydd Athena SWAN, a dyfarnwyd gwobrau Efydd i'r Ffowndri Gyfrifiadol a r Adran Ddaearyddiaeth hefyd. Cyflwynodd Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac Ysgol y Gyfraith eu ceisiadau ym mis Tachwedd.

Rydym yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ac wedi cael ein cynnwys yn rhestr flynyddol Stonewall o'r '100 o gyflogwyr gorau yn y DU' am gynwysoldeb yn y gweithle ers 2016. Yn 2019, roedd ein prifysgol yn un o 14 sefydliad i dderbyn y sgôr uchaf bosib am greu gweithle cynhwysol ar gyfer pobl draws. Fel aelod o Siarter Cydraddoldeb Hiliol yr ECU, rydym yn paratoi ein cyflwyniad am Wobr y Siarter Cydraddoldeb Hiliol, ac rydym yn monitro ein cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu.

### AMGYLCHEDD DIRIAETHOL

Mae'r Brifysgol yn parhau i ehangu a gwella'r ddau gampws er mwyn darparu cyfleusterau o safon fyd-eang ar gyfer ymchwil, addysgu a myfyrwyr a staff. Ar Gampws y Bae, bydd y sefydliad ymchwil peirianneg o'r radd flaenaf (y buddsoddwyd £35m ynddo) yn ymgymryd ag ymchwil sylfaenol a chymhwysol effaith uchel ar gyfer y diwydiant peirianneg a deunyddiau uwch. Mae'r Sefydliad ar gyfer Technolegau Deunyddiau, Prosesu a Rhifiadol Arloesol (IMPACT) yn darparu 80 o swyddfeydd ar gyfer un person, hyb sy'n cynnig lle ar gyfer dros 150 o ymchwilwyr a lle i 50 o gydweithredwyr diwydiannol ac academaidd gydleoli er mwyn cefnogi partneriaethau rhwng academyddion a diwydiant sy'n cynyddu gallu ymchwil a chystadlu.

Ar Gampws Singleton, mae'r pwyslais wedi bod ar adnewyddu'r adeiladau presennol. Mae'r gwaith wedi parhau i weddnewid y tu mewn i Adeilad Talbot er mwyn darparu swyddfeydd staff, mannau dysgu ac addysgu a lle i Undeb y Myfyrwyr a'r Sefydliad Dur a Metelau. Ehangodd Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton i ail adeilad sy'n gartref i Glinig y Gyfraith proffesiynol, ystafelloedd llys sy'n efelychu'r rhai go iawn, a lleoedd dysgu ac addysgu bywiog.



# Trosolwg a rhagolwg ariannol

## STRATEGAETH ARIANNOL

Prif amcan strategaeth ariannol y Brifysgol o hyd yw cynhyrchu digon o adnoddau arian parod i gyflawni ei hamcanion strategol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

Cyflawnir hyn drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Monitro cymarebau rhwng hylifedd a dyled yn ofalus ac yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn rheoli ein cyfalaf gweithio'n effeithlon
- Parhau i adolygu ein prosesau a datblygu systemau er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd
- Ariannu buddsoddiad cyfalaf, optimeiddio defnydd o'n cronfeydd arian parod wrth gefn, ein partneriaethau a chyllid grant
- Monitro ein hymrwymiad i bensiynau ar gyfer ein gweithwyr, gan gadw llygad ar ofynion am arian nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â maint y darpariaethau y bydd eu hangen ar gyfer diffygion yn y gronfa pensiynau
- Darparu gwybodaeth drwy adroddiadau ariannol cywir a thryloyw

Mae pandemig COVID wedi amlygu pwysigrwydd y pwyslais hwn ar arian parod. Mae'r fantolen arian parod iach ar 31 Gorffennaf 2020 yn darparu lefel o wytnwch ariannol i'r Brifysgol a fydd yn hanfodol wrth i ni reoli ac ymateb i'r heriau a grëwyd gan y pandemig.

Yn y byd hynod ansicr hwn, mae cynllunio senarios wedi bod yn ganolog i sicrhau ein bod yn ymwybodol o newidiadau yn y proffil risg ac y gallwn ddatblygu mesurau tymor hir a byr i liniaru risg a'n diogelu ein hunain rhag aflonyddwch mawr mewn marchnadoedd.

## CYNALIADWYEDD ARIANNOL

Yn ystod y pum mlynedd ers cyflwyno ffioedd £3,000 yn 2012-13, aeth Prifysgol Abertawe drwy gyfnod o ehangu sylweddol, o ran niferoedd myfyrwyr ac incwm ymchwil. O ganlyniad i hyn, buddsoddodd y Brifysgol mewn staff ac ehangodd ei hystâd drwy ddatblygu Campws y Bae a gwaith gwella ac adeiladau newydd ar Gampws Singleton. Ariannwyd gwaith cyfalaf drwy gyfuniad o gronfeydd arian parod wrth gefn y Brifysgol, incwm o grantiau ymchwil, Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a benthyca gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â gweddill y sector addysg uwch yn y DU, mae Abertawe wedi wynebu nifer o heriau dros y tair blynedd diwethaf gan gynnwys y rhai arwyddocaol canlynol:

- Gostyngiad demograffig yn y grŵp oedran 18 oed a'r cynnydd mewn cystadlu rhwng prifysgolion o ganlyniad
- Costau pensiwn cynyddol
- Ansicrwydd gwleidyddol ynghylch cyllid, yn enwedig yn y sector yng Nghymru ac
- Effaith BREXIT

Mae dewis o lwybrau ac opsiynau cyflogaeth amgen gan bobl ifanc 18 oed, prentisiaethau er enghraifft, ac mae myfyrwyr yn gynyddol ymwybodol o gost addysg uwch iddynt. Mae angen i brifysgolion ddangos eu bod yn cynnig gwerth am arian i fyfyrwyr, ond hefyd i'w harianwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae Abertawe wedi perfformio'n eithriadol o dda wrth recriwtio myfyrwyr yn wyneb y gystadleuaeth gynyddol hon. Fodd bynnag, mae niferoedd wedi gostwng ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau, heb ostyngiad yn niferoedd staffio a fyddai'n cydbwyso hyn.

I ymateb i hyn, lansiodd Abertawe Raglen Gwella Gweithredol ym mis Chwefror 2019. Nododd y rhaglen yr angen am ddau gam. Pwrpas Cam 1 oedd asesu'r amgylchedd a marchnadoedd, adolygu ein gweithrediadau a nodi cyfleoedd posib i leihau costau neu greu incwm.

Cynhyrchodd y gwaith ar Gam 1 y Rhaglen ddigon o arian parod i gau'r bwlch yn 2019-20. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai cyfuniad o wella'n barhaus a newid trawsnewidiol yn angenrheidiol i wella gweithrediadau academaidd a gwasanaethau proffesiynol, ymdrin â'r sefyllfa ariannol tymor hwy a sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu'n effeithiol i ddiogelu ei gwytnwch mewn sector addysg uwch byd-eang sy'n newid yn gyflym. I'r diben hwnnw, datblygodd y Rhaglen Gwella Gweithredol bedair egwyddor a fyddai'n sylfaen ar gyfer cynllunio busnes a buddsoddi dros y tair blynedd nesaf:

- Cynnal neu wella ansawdd
- Manteisio ar y cynnydd demograffig drwy dwf wedi'i dargedu yn y farchnad gartref
- Newid sylweddol mewn twf rhyngwladol
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sefydliadol, gan gynnwys ystyried strwythur a phrosesau busnes allweddol academaidd a gwasanaethau proffesiynol

Roedd y Rhagolygon Ariannol a baratowyd i ddechrau ar gyfer y cyfnod 2019-20 tan 2023-24 yn adlewyrchu sefyllfa realistig cyn COVID-19 ac yn nodi angen i gynhyrchu £40m ychwanegol erbyn 2023-24. Mae angen y lefel hon o arbedion o ran gwariant neu dwf incwm i sicrhau bod y Brifysgol yn gallu bodloni cyfamodau ei benthyciadau a bod digon o arian ar gael i fanteisio ar gyfleoedd am dwf academaidd a pharhau i wella ansawdd isadeiledd diriaethol a digidol y Brifysgol.

Drwy brosesau cynllunio busnes y Colegau Academaidd a'r Gwasanaethau Proffesiynol, mae'r Brifysgol wedi nodi arbedion y bydd modd eu cyflawni o fewn strwythurau rheoli presennol o 2020-21 ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys arbedion gweithredol ar draws cyllidebau cyflog a chyllidebau eraill presennol a rhai gweithgareddau trawsnewidiol llai. Drwy'r broses cynllunio busnes gadarn hon, nodwyd cyfleoedd ychwanegol i greu incwm drwy ehangu cyrsiau presennol mewn modd wedi'i dargedu a chreu cyrsiau newydd, yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o farchnadoedd.

Yn ogystal, i'w helpu i gyflawni ei blaenoriaethau strategol dros y tair blynedd nesaf, mae'r Brifysgol wedi dechrau Rhaglen Drawsnewid. Bydd y Rhaglen yn cynnwys cyfuno'r saith Ysgol a Choleg presennol i greu tair Cyfadran newydd a gwneir newidiadau ar draws y Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau a buddion strategol.

Bydd y Rhaglen yn gwella sefyllfa ariannol y Brifysgol, gan gynnwys arbedion ychwanegol ym maes gwariant a gwireddu cyfleoedd i greu incwm, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwil ac addysgu rhyngddisgyblaethol. Fodd bynnag, mae canlyniadau a buddion y Rhaglen yn llawer ehangach na hynny. Mae'r Brifysgol wedi gwneud penderfyniad bwriadol i greu set o werthoedd sefydliadol ac i adolygu prosesau a systemau. Ni fydd cynaliadwyedd tymor hir Abertawe'n cael ei sicrhau drwy leihau costau neu ailstrwythuro adrannau yn unig; bydd angen i gydweithwyr ar draws y Brifysgol weithio gyda'i gilydd ag un ymdeimlad o bwrpas, drwy newid y ffyrdd rydym yn gweithio a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad.

Fel rhan o Gam 1, cafodd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol ei gynnig i staff. Mae hyn wedi parhau drwy gydol 2019-20 gan arwain at gostau ailstrwythuro o £5m sydd wedi'u hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. Mae'r Cynllun ar gael o hyd i staff yn 2020-21 a disgwylir iddo gyfrannu'n sylweddol at yr arbedion staff y bydd eu hangen fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Cynaliadwyedd.

Mae pandemig COVID wedi peri nifer o heriau ychwanegol nas gwelwyd o'r blaen i'r Brifysgol y mae'n rhaid iddi fynd i'r afael â nhw ar ben y rhai a nodwyd eisoes.
Yn ffodus, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa gymharol gref o ran arian parod ac roedd ganddi £97.1m ar 31 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, mae mewnlif arian parod wedi bod yn isel am yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac roedd y Brifysgol eisoes yn bwriadu gweithredu i gynyddu'r mewnlif o arian parod net er mwyn sicrhau bod ganddi arian digonol i'w fuddsoddi, gan gynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn hefyd.

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CJRS) gan gofnodi £791,000 o gostau a adenillwyd yn y cyfnod tan 31 Gorffennaf 2020. Mae'r Brifysgol wedi ystyried y cynlluniau benthyca amrywiol sydd ar gael i ymateb i'r Coronafeirws, ond mae'r gwaith modelu senarios presennol yn nodi nad oes angen manteisio ar y rhain at ddibenion llif arian a byddai'n well gennym beidio ag ychwanegu at y lefelau benthyca presennol.

Mae sefyllfa ariannol y Brifysgol wedi'i chyfyngu i raddau hefyd oherwydd ei benthyca gan Fanc Buddsoddi Ewrop a'r cyfamodau cysylltiedig. Er iddi dorri un o'r amodau cyfamod yn 2018/19, llwyddodd y Brifysgol i osgoi hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol drwy gyflawni arbedion gwariant. Drwy'r arbedion gwariant a'r twf mewn incwm a gynlluniwyd fel rhan o broses Cynllunio Busnes 2020/21, a'r camau mae'r Brifysgol yn eu cymryd i ad-drefnu darpariaethau academaidd a gwasanaethau proffesiynol, byddai'r Brifysgol wedi sicrhau cydymffurfiaeth dros gyfnod y rhagolwg hyd at 2023-24.

Mae'n anochel bod pandemig COVID wedi achosi straen i'r nod hwn ac mae cydymffurfiaeth â chyfamodau'n parhau'n un o risgiau ariannol allweddol y Brifysgol.

Fel rhan o gynllunio ar gyfer COVID, gwnaed gwaith sylweddol i fodelu senarios, er mwyn profi gwytnwch model ariannol y Brifysgol a'r effaith ar amodau cyfamodau.

Datblygodd y Brifysgol amrywiaeth o senarios gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Recriwtio myfyrwyr cartref
- Recriwtio tramor, fesul marchnad
- Lefelau meddiannaeth llety myfyrwyr
- Incwm masnachol
- Costau ychwanegol COVID

Paratowyd senario achos gwaethaf credadwy i brofi a yw'n briodol i'r Brifysgol baratoi ei datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Roedd y rhain yn seiliedig ar gofrestriadau ar 31 Hydref 2021 ac roedd y rhagdybiaethau allweddol yn adlewyrchu effaith bosib cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol ar ymddygiadau myfyrwyr a'r tebygolrwydd cynyddol y byddai myfyrwyr yn dychwelyd adref ac yn astudio'n gyfan gwbl ar-lein ymhell i mewn i 2021.

Er bod hyn wedi arwain at ddirywiad sylweddol yn y dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer 2020/21, ni ragwelir risg i hylifedd. Rhagwelir y bydd gan y Brifysgol ddaliadau gwerth £78.5m ar 31 Gorffennaf 2021 a £78.9m ar 31 Gorffennaf 2022 ac amcangyfrifir mai £76.0m fydd y lefelau isaf o arian parod yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd perygl na fyddai'r Brifysgol yn bodloni amodau eu cyfamodau yn ystod 2020/21. Yn sgil trafodaethau â Banc Buddsoddi Ewrop, cytunwyd i addasu amodau'r cyfamodau ar gyfer 2020/21 fel bod disgwyliad rhesymol na fyddant yn cael eu torri.

Gan edrych y tu hwnt i effaith COVID, rydym yn aros am ganlyniad prisiad 2020 Cynllun USS. Mis Mehefin 2021 yw'r dyddiad terfyn statudol am hyn. Mae cynnal prisiad yn y sefyllfa bresennol yn hynod anodd; mae'n debygol iawn y bydd y diffyg blaenorol o ran gallu i wasanaethu'r cynllun yn cynyddu'n sylweddol a gall fod angen cynyddu cyfraniad y staff a'r cyflogwr ar adeg pan na all y naill parti na'r llall fforddio cynnydd.

Gadawodd y DU yr UE ar 1 Ionawr 2020 a'r farchnad sengl ar 1 Ionawr 2021. Rydym wedi ymgymryd â chynllunio cynhwysfawr ar gyfer Brexit, yn enwedig ei effaith ar staffio a rheoli cadwyni cyflenwi. Bydd myfyrwyr israddedig o'r UE a ddechreuodd yn y Brifysgol yn 2020 yn parhau i elwa o'r ffi £9,000 a benthyciadau'r Student Loan Company drwy gydol eu rhaglenni astudio. Ond bydd statws rhyngwladol gan fyfyrwyr a dderbynnir yn 2021 a gall hyn effeithio ar ein gallu i recriwtio o wledydd yr UE.


Ar ôl adolygu'r strategaethau sylfaenol, y rhagolygon a'r senarios ariannol, yng nghyd-destun pandemig COVID a'r effaith niweidiol sylweddol mae hyn yn ei chael ar allu'r Brifysgol i weithredu fel arfer, gall y Cyngor gadarnhau bod ganddo ddisgwyliadau rhesymol bod y Brifysgol yn meddu ar adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon.

# Adolygiad Ariannol

## TROSOLWG

Yn y flwyddyn tan fis Gorffennaf 2020, roedd gan y Brifysgol ddiffyg o £9.4m, ar ôl addasu am y newid mewn costau pensiwn heblaw am arian parod; roedd hyn yn ostyngiad o warged wedi'i addasu gwerth £15.7m yn 2019.

### CYFANSWM INCWM £M YN ERBYN GWARGED GWEITHREDU £M




Mae digwyddiadau arwyddocaol unigol yn parhau i gael effaith ar Ddatganiadau Ariannol y Brifysgol, megis y prisiad a gynhaliwyd yn 2017 o'r cynllun pensiwn aml-gyflogwr cenedlaethol, Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) a arweiniodd at dâl untro o £56.9m yn 2019. Disodlwyd y prisiad hwn gan brisiad 2018 a arweiniodd at gredyd untro o £41.1m yn 2020. Mae cydnabod grantiau cyfalaf yn effeithio ar y ffigurau cymharol gyda grant ymchwil cyfalaf gwerth £32.4m yn cael ei gynnwys mewn Incwm yn 2019. Mae costau ailstrwythuro yn 2020 wedi arwain at gynnydd £5.6m yn y costau yn y flwyddyn bresennol (2019:£0).

***Er gwaethaf yr heriau ariannol yn 2020, mae incwm y Brifysgol wedi parhau'n weddol sefydlog ar £317.5m.*** Ar ôl ei addasu am grantiau cyfalaf, mae incwm wedi gostwng 0.8% yn 2020 ers y flwyddyn flaenol. Arhosodd incwm o ffioedd dysgu'n sefydlog (cynnydd o 0.4%) a chynyddodd grantiau cyrff cyllido 9.1%. Gostyngodd incwm ymchwil 9.7% yn y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer grantiau cyfalaf, o ganlyniad i gau cyfleuste au ymchwil yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19.

***Y gwariant yn 2020 oedd £326.2m ar ôl addasu ar gyfer y newid ym mhrisiad cynllun pensiwn USS, gostyngiad o 3.6% ers 2019.*** Cynyddodd costau staff 3.8% yn 2020 ac aethpwyd i gostau ailstrwythuro ychwanegol o £5.6m yn y flwyddyn. Gostyngodd gwariant gweithredu arall 21.6% o ganlyniad i rewi gwariant nad yw'n hanfodol yn sgil cau'r campws yn ystod pandemig Covid-19. Parhaodd dibrisiant i gynyddu, er gwaethaf y cyfyngiad ar wariant cyfalaf, o ganlyniad, yn bennaf, i gwblhau nifer o brosiectau cyfalaf yn y flwyddyn (cynnydd o 8.4%) a chynyddodd llog 22.2% o ganlyniad i'r cyfleuster benthyca newydd y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2019.

***Roedd gan y Brifysgol ddiffyg o £9.4m yn y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer addasiadau pensiwn.*** Er gwaethaf y diffyg yn y flwyddyn, cynhyrchodd y Brifysgol fewnlif ariannol net o weithgareddau gweithredu gwerth £15.7m a chynyddodd arian parod 11.7% i £97.1m.

***Cynyddodd asedau net a gostyngodd asedau sefydlog diriaethol yn y flwyddyn.*** Gostyngodd gwariant cyfalaf yn 2020 o'i gymharu â 2019 o ganlyniad i rewi'r rhan fwyaf o brosiectau yn sgil pandemig Covid-19. O ganlyniad i hyn, rhagorodd dibrisiant ar ychwanegiadau gan arwain at ostyngiad mewn asedau sefydlog diriaethol. Gostyngodd benthyciadau wrth i ni wneud ad-daliadau, a gostyngodd y consesiynau gwasanaeth preswyl wrth ddad-ddirwyn y rhwymedigaeth. Cynyddodd asedau net £20.9m yn sgil yr addasiad gwerth £41.1m i ddarpariaeth cynllun pensiwn USS.

## PRIF BWYNTIAU ARIANNOL A DANGOSYDDION ARIANNOL ALLWEDDOL


| | 2019-20 £m | 2018-19 £m |
|---|---|---|
| **INCWM A GWARIANT** | | |
| Cyfanswm Incwm | 317.5 | 352.3 |
| Cyfanswm Gwariant | 285.1 | 395.0 |
| EBITDA | 9.1 | (7.3) |
| Gwarged / (diffyg) am y flwyddyn, wedi'i addasu am y newid yn y cynllun pensiwn | (9.4) | 13.3 |
| Gwarged / (diffyg) am y flwyddyn | 31.7 | (43.7) |
| Cyfanswm incwm / (colled) cynhwysfawr | 20.9 | (56.7) |
| **LLIF ARIAN PAROD** | | |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 15.7 | 18.6 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | 10.2 | 24.9 |
| Balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 97.1 | 86.9 |
| **MANTOLEN** | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 451.9 | 458.6 |
| Masnach a dyledion eraill i'w derbyn | 39.6 | 63.0 |
| Arian Parod | 97.1 | 86.9 |
| Credydwyr i'w talu o fewn un flwyddyn | 70.6 | 191.4 |
| Credydwyr i'w talu mewn mwy na blwyddyn | 226.7 | 121.5 |
| Darpariaeth pensiynau | 120.7 | 148.6 |
| Cyfanswm asedau net | 179.3 | 158.4 |
| **Wedi'u cynnwys gyda'r credydwyr:** | | |
| Benthyciadau | 109.2 | 111.3 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 124.9 | 127.7 |

| | 2019-20 £m | 2018-19 £m |
|---|---|---|
| **DANGOSYDDION ARIANNOL ALLWEDDOL Y BRIFYSGOL** | | |
| Costau staff fel canran o incwm | 58.1% | 50.5% |
| Llif arian parod gweithredu fel canran o incwm | 4.9% | (5.3%) |
| Dyled ariannol net i EBITDA wedi'i haddasu | 4.4 | 3.6 |
| Llif arian parod gweithredu i gostau gwasanaethu dyled | 1.9 | 1.9 |
| Dyled ariannol wedi'i haddasu i incwm | 0.8 | 0.8 |

# CANLYNIADAU AM Y FLWYDDYN

## INCWM


### INCWM FESUL CATEGORI




Mae incwm o addysgu, grantiau cyrff cyllido ac incwm arall wedi aros yn sefydlog flwyddyn ar flwyddyn.


Yn 2019, roedd incwm ymchwil yn cynnwys grant cyfalaf gwerth £32.4m gan yr UE a ryddhawyd yn y flwyddyn gan chwyddo incwm ymchwil. Ac eithrio'r grant cyfalaf a ryddhawyd yn 2019, mae incwm ymchwil wedi gostwng 9.7% flwyddyn ar flwyddyn. Gostyngodd incwm gan gynghorau ymchwil 10% i £16.1m yn 2020, a gostyngodd incwm gan lywodraeth y DU ac awdurdodau iechyd 17% i £12.5m.

### INCWM O FFIOEDD DYSGU




Mae incwm o ffioedd dysgu yn aros yn sefydlog flwyddyn ar flwyddyn, gan gynyddu o £170.4m i £171.2m yn 2019-20. Prif ffynhonnell incwm arall yw contractau addysgol gyda'r GIG, sydd wedi cynyddu 6.3% i £14.4m.

### GWARIANT





Gostyngodd gwariant yn y flwyddyn (ac eithrio addasiadau yn sgil prisiad y cynllun USS) £11.8m i £326.2m.

Cynyddodd costau staff 3.8% yn 2020 gan adlewyrchu dyfarniadau costau byw a chynyddrannau cyflog. Yn ogystal, aethpwyd i gostau ailstrwythuro gwerth £5.6m eleni i leihau costau cyflog yn y dyfodol

Gostyngodd gwariant gweithredu arall £27.6m yn 2020 i £103.3m wrth i gynlluniau arbed gael eu gweithredu ac wrth rewi'r holl wariant nad oedd yn hanfodol i liniaru effaith Covid-19.




### GWARIANT FESUL GWEITHGAREDD




O ganlyniad i roi'r Rhaglen Gwella Gweithredol ar waith a'r penderfyniad i rewi'r holl wariant nad oedd yn hanfodol i fusnes er mwyn lliniaru effaith Covid-19, gostyngodd gwariant ar draws yr holl weithgareddau. Gwnaed arbedion sylweddol yn yr adrannau academaidd (£5.8m) a'r gwasanaethau proffesiynol (£3.2m), ac roedd costau ymchwil yn is (£4.6m) oherwydd allbwn ymchwil is yn 2020 o ganlyniad i gau cyfleuste au ymchwil yn ystod Covid-19.

Arweiniodd prisiad 2017 o gynllun USS at dâl unigol o £56.9m yn 2019. Disodlwyd y prisiad hwn gan brisiad 2018, a arweiniodd at gredyd untro gwerth £41.1m yn 2020.


### GWARIANT CYFALAF A DERBYNIADAU GRANTIAU CYFALAF £m




Yn dilyn sawl blwyddyn o wariant cyfalaf sylweddol o ganlyniad i greu Campws y Bae a chyfleuste au ymchwil newydd, gostyngodd gwariant cyfalaf yn 2020 yn sgil datblygu'r Strategaeth Ystadau ac effaith Covid-19.

Y prif brosiectau yn ystod 2020 oedd y Ganolfan ar gyfer Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM), sef cyfleuster ymchwil wedi'i ariannu gan grant (£1.4m) a bloc addysgu newydd a gwblhawyd yn 2020 (£4.5m)

### COSTAU STAFF £m





Costau staff o hyd oedd y gyfran fwyaf o wariant y Brifysgol, gan gynyddu i £184.5m o £77.8m yn 2019. Cynyddodd costau staff fel canran o incwm hefyd i 58.1% yn 2020 o 50.5% yn 2019. Roedd incwm yn 2019 yn cynnwys grant ymchwil cyfalaf gwerth £32.4m a ryddhawyd. Os nad yw hyn yn cael ei gynnwys, costau staff fel canran o incwm yw 55.6%.

## ARIAN PAROD A DYLED

Yn ystod 2019, tynnodd y Brifysgol gyllid ychwanegol gwerth £60m i lawr o gyfleuster benthyca Banc Buddsoddi Ewrop ac roedd £18.2m o hyn heb ei wario ym mis Gorffennaf 2020. Yn ystod y cyfnod ansicr presennol, mae'r Brifysgol yn cadw arian parod i gynorthwyo gyda gwytnwch ariannol.


### LLIF ARIAN PAROD GWEITHREDU £m




Mae llif arian gweithredu fel canran o incwm yn ddangosydd ariannol allweddol. Yn dilyn all-lif o weithgareddau gweithredu yn 2019 (£18.6m), cynhyrchodd y Brifysgol fewnlif o arian parod gwerth £15.7m o weithgareddau gweithredu yn 2020.

Mae arian parod net o weithgareddau gweithredu yn ansicr iawn ac mae newidiadau sylweddol mewn dyledwyr a chredydwyr yn effeithio arno (newid net 2020: £2.3m, 2019: (£18.7m).

### ARIAN PAROD A DYLED £m




Parhaodd arian parod i gynyddu yn 2020 i £97.1m ar 31 Gorffennaf 2020 (£86.9m ar 1 Awst 2019). Buddsoddir arian parod yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Brifysgol.

Gostyngodd benthyciadau i £109.2m yn dilyn ad-dalu benthyciadau (£2.0m), a gostyngodd dyled o ran trefniadau consesiwn gwasanaeth i £124.9m yn dilyn dad-ddirwyn y brydles (£4m).

Gostyngodd dyledion net i £137.0m (2019: £149.6m).





# Prif risgiau a ffactorau ansicrwydd

## MAE'R BRIFYSGOL YN RHEOLI RISGIAU YN UNOL Â'R EGWYDDORION CRAIDD CANLYNOL:

| EGWYDDOR | MANYLION |
|---|---|
| Eglurder | Mae risgiau wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion |
| Cwmpas | Gall risgiau beri effeithiau cadarnhaol a negyddol, felly bydd rheoli risg yn cynnwys nodi a rheoli cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau |
| Ymateb Priodol | Rhaid i'r ymdrech a'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo i reoli risgiau fod yn gymesur â'r fantais busnes y bydd yn ei chreu |
| Perchnogaeth | Perchnogir ar risgiau ar y lefel briodol yn y sefydliad a chânt eu huwchgyfeirio pan fydd angen gweithredu a/neu adnoddau ychwanegol |
| Cyfrifoldeb | Mae cyfrifoldeb am "sicrhau bod rheoli risgiau'n rhan hanfodol o bob proses benderfynu" yn rhan o broffiliau rôl yr holl staff. |

## MAE'R BRIFYSGOL YN DYNODI RISGIAU I UN O DRI DOSBARTH:

| DOSBARTH | DIFFINIAD |
|---|---|
| Strategol | Risgiau ar lefel y Brifysgol sy'n effeithio ar allu tymor hir i gyflawni'r cynllun strategol. Yn gysylltiedig yn aml â phynciau "i ble rydym yn mynd?" |
| Gweithredol | Risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a'r prosesau a wneir i gyflawni amcanion strategol. Fel arfer, mae'r rhain yn gysylltiedig â gweithgareddau "busnes fel arfer" |
| Prosiect | Risgiau sy'n benodol i gyflawni canlyniadau ac amcanion prosiect. |

## AC I'R CATEGORÏAU CANLYNOL:

| CATEGORI | IS-GATEGORÏAU |
|---|---|
| Digidol | Rhwydweithiau, caledwedd, meddalwedd, rheoli data, mynediad a diogelwch, parhad busnes |
| Ystâd | Rheoli'r ystâd, cynllunio'r ystâd, iechyd a diogelwch, effaith amgylcheddol, parhad busnes |
| Cyllid | Cyllidebu a rhagfynegi, rheoli ariannol, adrodd, gwariant, buddsoddiad/rheoli trysorlys, trafodion, twyll, cyllid/incwm allanol |
| Llywodraethu | Llywodraethu, materion cyfreithiol a chontractau, cynllunio busnes, newid sefydliadol, gweledigaeth a strategaeth, arweinyddiaeth, ffactorau allanol, caffael |
| Enw da | Perthnasoedd â rhanddeiliaid, sylw yn y cyfryngau, cyfathrebu mewnol ac allanol |
| Ymchwil | Cyllid/incwm allanol, ansawdd (y REF, etc.), partneriaid, effaith |
| Staff | Recriwtio a chadw, capasiti, gallu, polisïau a darpariaeth AD, rheoli a datblygu, diwylliant a morâl, parhad busnes, lles a llesiant |
| Profiad y Myfyrwyr | Profiadau (NSS, TEF, etc.), dysgu ac addysgu, lles a llesiant, cyflogadwyedd graddedigion |
| Recriwtio Myfyrwyr | Recriwtio, ehangu cyfranogiad, cadw. |

Caiff risgiau a nodir eu crynhoi a'u cynnwys ar gofrestri risg sefydliadol, lleol a phrosiect i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno mewn modd cyson, er mwyn gwella cyfathrebu a darparu eglurder am y risgiau mwyaf a chamau gweithredu i'w lliniaru. Maent yn darparu mynediad rhwydd at yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i alluogi'r Brifysgol i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am risg a gweithrediadau'r Brifysgol.

Adolygir y gofrestr risgiau sefydliadol gan yr Uwch-dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ar ran y Cyngor. Mae Colegau a meysydd Gwasanaeth Proffesiynol unigol yn cadw cofrestri risg lleol ond gallant uwchgyfeirio risgiau sy'n dod yn rhy sylweddol neu gymhleth i'w rheoli'n effeithiol ar lefel eu perchnogaeth.

# RISGIAU GWEITHREDOL COVID-19

Effeithiodd yr aflonyddwch a ddeilliodd o bandemig Covid-19 ar bob rhan o weithrediadau'r Brifysgol, felly roedd cynllunio ar gyfer adfer yn un o'r ymarferion ehangaf a gynhaliwyd erioed gan y Brifysgol. Mae'r Cynllun Adfer wedi cael ei arwain gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu gyda chymorth rheoli rhaglen pwrpasol i gydlynu'r ffrydiau gwaith a'r ymatebion.

Roedd y gwaith o nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau i adfer effeithiol yn cynnwys mewnbwn gan gydweithwyr o bob Coleg ac Uned Gwasanaeth Proffesiynol a chwblhawyd y gwaith drwy broses fesul cam. Nodwyd dros 500 o effeithiau posib ar draws y Brifysgol a chafodd y rhain eu crynhoi ar gofrestr risg o 130 o risgiau a materion. Ychwanegwyd risgiau, addaswyd sgorau a chaewyd risgiau wrth i'r sefyllfa newid ac wrth i gynlluniau adfer gael eu llunio a'u cyflawni.

### MAE'R DEG RISG A MATER MWYAF SYDD HEB EU DATRYS WEDI'U CRYNHOI ISOD:

| CATEGORI | TEITL | |
|---|---|---|
| Profiad y Myfyrwyr | Meddiannaeth preswylfeydd (Trosglwyddo) | UCHEL IAWN |
| Recriwtio Myfyrwyr | Myfyrwyr rhyngwladol yn dewis peidio â theithio i Abertawe | UCHEL |
| Staff | Adnoddau staff | UCHEL |
| Ymchwil | Cynigion newydd am gyllid ymchwil – prosiectau presennol – adnoddau i gyflwyno cais/rheoli | UCHEL |
| Digidol | Seiber-fygythiadau | UCHEL |
| Ymchwil | Cyllid ymchwil ôl-raddedig – allanol | UCHEL |
| Digidol | Systemau TG presennol – mynediad | UCHEL |
| Profiad y Myfyrwyr | Cynllunio Gwasanaethau Llyfrgell | CANOLIG |
| Profiad y Myfyrwyr | Wifi Preswylfeydd | CANOLIG |
| Digidol | Systemau TG presennol – methiant | CANOLIG |

# RISGIAU ARIANNOL COVID-19

Mae'r risgiau ariannol penodol sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cael eu hasesu fel rhan o'r gwaith cynllunio senarios a wnaed a chânt eu disgrifio'n fanylach yn yr adran Busnes Gweithredol.

| TEITL RISG | DISGRIFIAD RISG | CAMAU GWEITHREDU LLINIARU |
|---|---|---|
| Colled incwm | Colled incwm o weithgareddau masnachol, e.e. arlwyo a chynadleddau ac incwm o ffioedd myfyrwyr | • Ailstrwythuro meysydd masnachol i leihau costau<br>• Adolygu amserau agor a gweithrediadau i uchafu cyfleoedd i greu incwm<br>• Derbyn myfyrwyr ym mis Ionawr ar ystod o raglenni israddedig ac ôl-raddedig |
| Costau ychwanegol | Costau ychwanegol sy'n deillio o gynyddu darpariaeth cymorth a llesiant i fyfyrwyr, diogelwch cynyddol, cyfarpar i gefnogi gweithio o bell ac addysgu wyneb yn wyneb | • Adolygu meddiannaeth a defnydd adeiladau i nodi cyfleoedd i arbed costau ystadau<br>• Adolygu buddsoddiad cynlluniedig mewn prosiectau strategol gan gynnwys ystadau a TG<br>• Addasu ac ailgyfeirio gwariant i'r meysydd hynny mae Covid-19 yn cael effaith uniongyrchol fwyaf arnynt |
| Llif arian | Gostyngiad yn y llif arian cyffredinol o ganlyniad i golli incwm a chostau ychwanegol sy'n arwain at brinder arian parod | • Gwaith manwl i ragfynegi llif arian yn seiliedig ar nifer o senarios<br>• Gwaith manwl i fonitro arian parod a llif arian<br>• Ystyried cyfleusterau benthyca'r llywodraeth |
| Cydymffurfio â chyfamodau | Torri cyfamodau oherwydd pwysau ariannol yn deillio o Covid-19 | • Gwaith manwl i fonitro cydymffurfiaeth â chyfamodau yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol ac a ragfynegir, gan gynnwys senarios<br>• Trafodaethau parhaus â Banc Buddsoddi Ewrop ynghylch statws presennol a disgwyliedig cyfamodau a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd. |



Mae'r gofrestr risgiau sefydliadol wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd yn ystod 2019/20. Ar hyn o bryd mae 32 o risigau'n agored. Manylir isod ar y risgiau a ystyrir yn Uchel Iawn ynghyd â chamau gweithredu i'w lliniaru.

| CATEGORI | TEITL RISG | DISGRIFIAD RISG | AMCAN STRATEGOL | CAMAU LLINIARU |
|---|---|---|---|---|
| Recriwtio myfyrwyr | Recriwtio myfyrwyr | Mae COVID-19, Brexit a chystadleuaeth gynyddol yn peri methiant i gyflawni'r niferoedd myfyrwyr a ragwelwyd, sy'n arwain at ostyngiad mewn cynaliadwyedd ariannol | Byddwn yn gweithredu ar sail gwytnwch, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd | • Cynllun Adfer yn sgil COVID<br>• Gwybodaeth a dadansoddiad cynhwysfawr o farchnadoedd<br>• Y broses cynllunio busnes<br>• Partneriaethau academaidd, gan gynnwys datblygu Addysg Drawswladol<br>• Diweddaru'r strategaeth rhyngwladoli |
| Cyllid | Rhagolwg ariannol cynaliadwy | Mae rhagolygon presennol yn nodi'r angen i gyflawni arbedion cost gwerth £25m ac incwm ychwanegol gwerth £15m erbyn 2023/24 | Byddwn yn gweithredu ar sail gwytnwch, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd | • Proses cynllunio busnes<br>• Adroddiadau rheoli a monitro perfformiad a chynnydd misol<br>• Cyfuno Colegau<br>• Prosiect trawsnewid<br>• Adolygu cynlluniau buddsoddi strategol |
| Cyllid | Cost darpariaethau pensiwn parhaus | Mae diffygion hanesyddol a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn diffiniedig yn y dyfodol yn dod yn or-ddrud ac efallai na fydd modd eu fforddio | Byddwn yn gweithredu ar sail gwytnwch, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd | • Ymgysylltu ag ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn USS am brisiad 2020<br>• Ymgysylltu ag ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe |
| Cyllid | Torri Cyfamodau | Os torrir cyfamodau, gellid trin benthyciadau fel rhai i'w had-dalu ar gais | Byddwn yn gweithredu ar sail gwytnwch, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd | • Monitro cydymffurfiaeth â chyfamodau'n fanwl, yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol ac a ragwelir, gan gynnwys senarios<br>• Trafodaethau parhaus â Banc Buddsoddi Ewrop ynghylch statws presennol a disgwyliedig cyfamodau a'r camau y gellir eu cymryd. |
| Cyllid | Myfyrwyr | Mae gan y Brifysgol ymrwymiadau o ran contractau rhent a allai fod yn uwch na'r rhenti a delir gan fyfyrwyr os bydd nifer uwch na'r disgwyl o fyfyrwyr yn tynnu'n ôl | Byddwn yn gweithredu ar sail gwytnwch, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd | • Darparu cymorth eithriadol i fyfyrwyr mewn llety<br>• Trafod rhannu costau â darparwyr llety<br>• Hyrwyddo llety myfyrwyr i ymgeiswyr i ddechrau ym mis Ionawr |
| Staff | Morâl staff | Heriau presennol mewn perthynas â COVID-19 a'r angen i wneud arbedion ariannol yn effeithio'n niweidiol ar ysbryd yr holl staff, gan arwain at faterion iechyd a lles a chadw, dirywiad mewn cynhyrchiant a pherfformiad | Byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw aelodau staff academaidd a phroffesiynol o safon uchel, sy'n rhannu ein huchelgeisiau a'n gwerthoedd | • Cyfathrebu mewn modd amserol a thryloyw â staff a'r undebau<br>• Arolygon pwls i wahodd staff i roi adborth<br>• Hyfforddiant arweinyddiaeth i sicrhau bod sgiliau priodol gan staff<br>• Gwreiddio ystyriaethau iechyd a lles ym mhob polisi a phroses |
| Digidol | TG – darpariaeth a gwytnwch gwasanaethau | Diffyg buddsoddiad mewn systemau, isadeiledd a chaledwedd TG yn arwain at fethiant lleol neu eang, gan effeithio'n negyddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i staff a myfyrwyr, diffyg cydymffurfio a niwed i enw da'r brifysgol | Diffyg buddsoddiad mewn systemau, isadeiledd a chaledwedd TG yn arwain at fethiant gwasanaeth yn lleol neu'n eang gan effeithio'n negyddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i staff a myfyrwyr, diffyg cydymffurfio a niwed i enw da'r brifysgol | • Cynhaliwyd adolygiad allanol o'r rhwydwaith<br>• Nodwyd diffygion hysbys ac mae cynlluniau uwchraddio ar waith<br>• Cynlluniau adfer ar gyfer pob eitem isadeiledd risg uchel<br>• Adolygiadau rheolaidd o lwyth gwaith a blaenoriaethau ataliol<br>• Gwiriadau gwytnwch rheolaidd<br>• Rhoi'r Strategaeth Ddigidol ar waith<br>• Cynllun rheoli asedau isadeiledd TG |
| Digidol | Seiber-ddiogelwch | Byddai digwyddiad seiber-ddiogelwch o ganlyniad i fesurau annigonol i reoli gwybodaeth yn effeithio ar allu'r Brifysgol i ddiogelu, prosesu a chyrchu gwybodaeth, gan niweidio enw da'r Brifysgol, torri cydymffurfiaeth ac arwain at ddirwyon a chosbau a chostau uwch (adfer) | Diffyg buddsoddiad mewn systemau, isadeiledd a chaledwedd TG yn arwain at fethiant gwasanaeth yn lleol neu'n eang gan effeithio'n negyddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i staff a myfyrwyr, diffyg cydymffurfio a niwed i enw da'r brifysgol | • Cynhaliwyd adolygiad allanol o seiber-ddiogelwch<br>• Polisi a thîm diogelwch gwybodaeth<br>• Hyfforddiant gorfodol i staff ar y GDPR a diogelwch gwybodaeth<br>• Adolygu mesurau rheoli mynediad<br>• Adolygu trefniadau adrodd a llywodraethu'r swyddogaeth diogelwch gwybodaeth |

# Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol



## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Bwriedir i'r datganiad canlynol helpu darllenwyr i ddeall strwythurau llywodraethu'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ymgymryd â'i gweithgarwch yn unol â'r Côd Llywodraethu Addysg Uwch a'r Côd Llywodraethu Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch, a gyhoeddir ill dau gan Bwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol, ac yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o ran tryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ymdrechu i ymgymryd â'i gweithgarwch mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Datgelu er Budd y Cyhoedd i alluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.

## CYFANSODDIAD A PHWERAU

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei gwrthrychau, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn y Siarter Atodol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddi gan y Cyfrin Gyngor, ac yn ei Statudau ategol. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau.

## Y CYNGOR

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau allanol ac academaidd a chynrychiolwyr myfyrwyr, a benodir yn unol â Statudau'r Brifysgol a daw'r rhan fwyaf ohonynt o'r tu allan i'r Brifysgol (disgrifir y rhain fel aelodau lleyg). Nid yw'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol. Adeg eu penodi, disgwylir i aelodau'r Cyngor gwblhau cofnod yn y Gofrestr Buddiannau. Mae'r Gofrestr Buddiannau bresennol ar gael gan yr Ysgrifennydd i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol, gan werthfawrogi natur amrywiol staff, myfyrwyr a chymuned y Brifysgol.

Caiff cyfleoedd i Aelodau Lleyg ymuno â'r Cyngor eu hysbysebu'n allanol ac mae croeso arbennig i aelodau grwpiau a dangynrychiolir fynegi diddordeb. Ystyrir mynegiannau o ddiddordeb gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, gan roi sylw i gyfansoddiad y Cyngor ar y pryd, i sicrhau bod gan aelodau amrywiaeth o sgiliau sy'n diwallu anghenion y Cyngor.

Amlinellir pwerau a dyletswyddau'r Cyngor yn Statudau'r Brifysgol. Fel arfer, mae'r Cyngor yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod sesiwn academaidd 2019-20, cynhaliodd y Cyngor saith cyfarfod, gan gynnwys tri chyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar faterion llywodraethu a rheoleiddio, gan gynnwys penodi Cadeirydd newydd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019.

Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020, gall y Cyngor adrodd bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â phob elfen o'r Côd Llywodraethu yn ddieithriad.

Yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch y CUC, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd. Yn 2019, comisiynodd Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd a gynhaliwyd gan Mr James O'Kane, cyn Gofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu Prifysgol y Frenhines Belfast. Daeth yr Adolygiad Allanol hwn i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu'n gyson â'r Côd ac i sicrhau Cyngor sy'n addas i'r diben. Disgwylir i'r adolygiad nesaf o effeithiolrwydd llywodraethu gael ei gynnal yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23.

Yn ogystal, comisiynodd Cadeiryddion ac Is-gangellorion prifysgolion yng Nghymru adolygiad annibynnol o lywodraethu yng Nghymru, dan arweinad Gillian Camm. Ei nod oedd: 'enable governors to operate at the leading edge of good corporate governance both in terms of compliance and crucially boardroom culture'. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2019, ac amlygodd nifer o werthoedd llywodraethu allweddol, gan gynnwys ymddiriedaeth, atebolrwydd, tryloywder, ymgysylltu, her a chymhwysedd. Mewn ymateb i'r adolygiad, cyhoeddodd y sector prifysgolion yng Nghymru Siarter Lywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru ac Ymrwymiad i Weithredu, a ategodd brif ganfyddiadau'r adolygiad gan gydnabod yr heriau a welwyd i lywodraethu yng Nghymru a ledled y DU a'r angen am ymrwymiad ar y cyd i weithredu. Mae'r Siarter, sydd wedi cael ei mabwysiadu gan Gyngor y Brifysgol, yn amlinellu ymagwedd at drawsnewid llywodraethu ac mae wedi cael ei chymeradwyo gan Gadeiryddion ac Is-gangellorion prifysgolion, gan ddangos eu hymrwymiad i raglen newid llywodraethu prifysgolion.

Ar ben hyn, ym mis Rhagfyr 2019, nododd CCAUC gynllun gweithredu ar gyfer y Brifysgol, gan dynnu ar Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd Cyngor y Brifysgol a chynllun gweithredu'r ymchwiliad, ymweliad Sicrhau Ansawdd Sefydliad CCAUC ac arweiniad ar arfer da.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i roi'r holl argymhellion hyn ar waith ac i wneud cynnydd yn y meysydd a nodwyd yn y Siarter. Gwnaed cynnydd sylweddol drwy gydol 2019/20 mewn meysydd allweddol, gan gynnwys maint a chyfansoddiad y Cyngor, recriwtio aelodau lleyg, annibyniaeth llywodraethwyr lleyg a rheoli gwrthdrawiadau,

amrywiaeth a chynwysoldeb, goruchwyliaeth strategol, rheoli cydnabyddiaeth ariannol, rheoli risgiau ac adroddiadau blynyddol. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol y sesiwn academaidd nesaf.

## Y SENEDD

Sefydlwyd Senedd y Brifysgol gan ei Siarter sy'n nodi y bydd, "yn ddarostyngedig i reolaeth a chymeradwyaeth y Cyngor, yn rheoli ac yn goruchwylio addysg a disgyblaeth y Brifysgol" ac mae'n penodi ei haelodau o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Fel arfer, mae'r Senedd yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn a chyfarfu deirgwaith yn ystod 2019/20. Amlinellir pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn yr Ordinhadau, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol.

## Y LLYS

Mae'r Llys yn gorff mawr, a ffurfiol gan mwyaf. Mae'n cynnig ffordd o greu cysylltiad rhwng y buddiannau ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol a'r sefydliad, ac mae'n darparu fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw fater ynghylch y Brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'r Brifysgol. Canghellor y Brifysgol yw Cadeirydd y Llys. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Llys ar 4 Chwefror 2020.

## SWYDDOG CYFRIFYDDU

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfniadaeth dda y Brifysgol.

Yn unol â thelerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a'r Is-ganghellor, y sawl a benodir yw swyddog cyfrifyddu'r Brifysgol, ac yn rhinwedd y rôl honno gellir ei wysio i ymddangos ger bron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

## PWYLLGORAU

Ym mis Ebrill 2020, yn dilyn adolygiad o Bwyllgorau'r Cyngor a argymhellwyd gan yr Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd, mae gan y Cyngor bedwar pwyllgor llywodraethu sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl ar ei ran: Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.

Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol, ynghyd â chylch gorchwyl ac aelodaeth, sy'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor a Chadeirydd a benodir o blith aelodau lleyg y Cyngor. Mae pob un o'r pwyllgorau hyn yn cyflwyno adroddiad am eu penderfyniadau i'r Cyngor.

## Y PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

Trysorydd y Brifysgol yw Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac mae'r aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, aelodau lleyg o'r Cyngor, aelodau lleyg a gyfetholwyd ac aelodau o staff rheoli'r Brifysgol. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am fonitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2019-20, cynhaliodd y pwyllgor naw cyfarfod, gan gynnwys tri chyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar yr heriau ariannol roedd y Brifysgol a'r sector yn eu hwynebu, a'r sefyllfa o ran Covid-19.

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ENWEBIADAU

Cadeirydd y Cyngor yw Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau ac mae ei aelodaeth yn cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor, yr Is-ganghellor ac aelodau a benodir gan y Senedd.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol a chynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu yn unol ag arfer da ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol hefyd am argymell i'r Cyngor swyddogion lleyg ac aelodau lleyg i'w penodi i'r Cyngor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2019-20, cynhaliodd y pwyllgor bum cyfarfod, gan gynnwys cyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar weithredu argymhellion yr Adolygiad Allanol o Effeithiolrwydd.

## Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol aelodaeth hollol annibynnol, sy'n cynnwys Cadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Ganghellor a thri o blith aelodau lleyg y Cyngor (y mae un ohonynt yn cadeirio'r pwyllgor). Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu Strategaeth Gwobrwyo'r Brifysgol a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau staff ar y lefel uchaf, gan gynnwys yr Is-ganghellor. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n gyson â Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Staff Uwch Addysg Uwch y CUC (a gyhoeddwyd yn 2018) ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd unwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2019-20, cynhaliodd y Pwyllgor ddau gyfarfod, gan gynnwys cyfarfod arbennig a ganolbwyntiodd ar gydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor newydd.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO, SICRWYDD A RISG

Cadeirir y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg gan aelod lleyg o'r Cyngor ac mae ei aelodaeth yn cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg a gyfetholwyd. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar strwythurau rheoli'r Brifysgol, ond mae uwch-aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae gan y pwyllgor rôl allweddol yn fframwaith llywodraethu'r Brifysgol, wrth sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, prifysgolion a rheoleiddio allanol yn ei gweithgareddau ariannol ac anariannol. O ran y materion yn ei gylch gorchwyl, mae gan y pwyllgor awdurdod i gyflwyno argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Yn ystod sesiwn academaidd 2019-20, cynhaliodd y pwyllgor dri chyfarfod, gan gynnwys un lle'r oedd yr archwilwyr allanol yn bresennol i drafod canfyddiadau'r archwiliad ac i adolygu datganiadau ariannol a pholisïau cyfrifyddu'r Brifysgol, yn ogystal â'r cynllun archwilio blynyddol ac i ystyried, ar y cyd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, adroddiadau archwilio mewnol manwl ac adolygu systemau rheoli mewnol ac ymdrin ag argymhellion i wella'r fath systemau.

## RHEOLI

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at agweddau ar y gwaith hwn, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol.

Diffinnir rôl Ysgrifennydd y Cyngor yn ordinhadau'r Brifysgol ac mae Ysgrifennydd y Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd rhai o Bwyllgorau'r Cyngor.

## RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn ar waith i gefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r arian a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar risg a'i nod yw rheoli, yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion strategol, felly mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled materol. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a ddynodwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol, a'r fframwaith rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn gweithredu ar ei sail.

Mae elfennau allweddol system nodi risg y Brifysgol a rheoli risgiau'n effeithiol yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol;
- mae'r holl risgiau, gan gynnwys ym meysydd llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da ac ariannol, yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sy'n cael eu hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau'n creu portffolio cytbwys o risgiau a allai effeithio ar y brifysgol gan ganolbwyntio ar y risgiau allweddol pwysicaf;
- asesu'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n troi'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses, a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg;
- mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwiliad mewnol a chaiff y cynllun strategaeth archwiliad mewnol ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risg a'r adolygiad rheolaeth;
- caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli fewnol eu llywio gan Archwilwyr Mewnol proffesiynol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol wedi rhoi prosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nodi'r mathau o risg drwy broses o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny, ar y lefel gorfforaethol ac yn yr adrannau. Caiff y rhain eu blaenoriaethu yn ôl effaith a thebygolrwydd posib, yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig. Caiff risgiau eu monitro'n barhaus, ynghyd â'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru cysylltiedig gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiad diweddaru am risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn adroddiadau diweddaru am risgiau perthnasol yn ei gyfarfodydd a chyflwynir adroddiadau ac argymhellion priodol i'r Cyngor.

Mae gan y Brifysgol broses i ddelio â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith; hysbysir CCAUC a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y broblem.



# Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig ers mis Hydref 2010.

Diffinnir y fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo yn y Siarter a'r Statudau. Amcanion y Brifysgol yw hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, ac ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt. Amlinellir gweledigaeth, nodau ac amcanion strategol y Brifysgol yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, a chaiff ei diweddaru ym mlwyddyn academaidd 2020/21, drwy gydweithredu â'i myfyrwyr, ei staff a'i phartneriaid.

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi sylw priodol i arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, ac i'w arweiniad atodol ar hyrwyddo addysg.

Wrth i'r Brifysgol ddathlu dechrau blwyddyn ei Chanmlwyddiant, gan edrych ymlaen at ei chanrif nesaf, gall fyfyrio â balchder ar rôl y Brifysgol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n parhau'n ffyddlon i ddyheadau ac uchelgeisiau ei sylfaenwyr a'u gobeithion y byddai Prifysgol Abertawe'n llunio dyfodol Cymru, ac mae geiriau Brenin Siôr V yn y seremoni i osod y garreg sylfaen yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent ar 19 Gorffennaf 1920:

> "Gorchwyl eich Coleg fydd anfon allan i'r byd ddynion a menywod sydd wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer y gwaith ymarferol sydd o'u blaenau, â meddyliau sydd mewn cytgord â delfrydau uchel, yn agored i ddiddordebau cyfoethog ac amrywiol bywyd modern ac yn ymroddedig i wasanaethu eu cyd-ddynion a menywod."

Mae'r Brifysgol, a'i chymuned o dros 20,000 o fyfyrwyr a 4,000 o staff, yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygiad economaidd y rhanbarth. Mae'n darparu llawer o fuddion hefyd, drwy addysgu, ymchwil ac arloesi, yn ogystal ag ymrwymiad hirsefydlog i'w chenhadaeth ddinesig, ac mae'n falch o'r cyfraniadau gwerthfawr a wneir gan ei staff a'i myfyrwyr yn ystod pandemig Covid-19.

### CEFNOGI'R YMATEB I COVID-19

Mae'r Brifysgol yn falch o'r ffyrdd mae ei chymuned o fyfyrwyr a staff wedi cefnogi'r rhanbarth ehangach yn ystod argyfwng y coronafeirws.

Cwblhaodd dros 700 o fyfyrwyr nyrsio eu hyfforddiant ar y rheng flaen, a dewisodd myfyrwyr meddygaeth yn eu blwyddyn olaf gael eu sefydlu'n feddygon drwy gofrestriad cynnar amodol. Bu holl fyfyrwyr bydwreigiaeth y drydedd flwyddyn yn cynorthwyo bydwragedd cymwysedig ledled de Cymru, a gwirfoddolodd dros gant o fyfyrwyr parafeddygaeth i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Arweiniodd prosiect IMPACT y Coleg Peirianneg gydweithrediad sydd â'r gallu i gynhyrchu 600 o amddiffynyddion wyneb y dydd ar gyfer gweithwyr rheng flaen a chynhyrchwyd dros 11,000 hyd yn hyn. Mae SPECIFIC yn parhau i gynhyrchu 5,000 o litrau o hylif diheintio dwylo bob wythnos i'r GIG a grwpiau agored i niwed megis y digartref.

Datblygodd tîm o fyfyrwyr, wedi'u cefnogi gan ymchwilwyr Peirianneg Gemegol, dechneg rhyddhau nwy'n gyflym, sy'n dileu halogiad Covid-19 o arwynebau ac o'r aer mewn ambiwlansys mewn llai nag 20 munud (hanner yr amser arferol). Cafodd y labordai technoleg solar yng Nghanolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC (y Coleg Peirianneg) eu hailwampio i gynhyrchu 5,000 o litrau o hylif diheintio dwylo sy'n bodloni safonau Sefydliad Iechyd y Byd bob wythnos. Bu ymchwilwyr yng Nghanolfan Argraffu a Chaenau Cymru, Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu'r Dyfodol a Chanolfan Technoleg Gofal Iechyd y rhaglen Cyflymu yn cynhyrchu amddiffynyddion wyneb â'r nod CE i ddiogelu staff y GIG. Yn ogystal, dyfeisiodd tîm o feddygon o Abertawe beiriant anadlu newydd y gellir ei adeiladu'n gyflym o gydrannau lleol ac sy'n addas i'w ddefnyddio hyd yn oed gyda chleifion â choronafeirws difrifol.

Mae Discovery, mudiad sy'n cael ei arwain gan fyfyrwyr, yn cydlynu tua 600 o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli ar ryw 30 o brosiectau cymunedol dan arweiniad myfyrwyr. Ei amcan yw mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a thlodi drwy weithio gyda phlant ac oedolion ag anableddau ac anawsterau dysgu, a chynnig cyfeillgarwch a chymorth ymarferol i bobl hŷn. Drwy gydol y pandemig, parhaodd Discovery i gefnogi'r gymuned leol drwy wirfoddoli rhithwir a mesurau pellter cymdeithasol.

Yn ogystal, cynhaliodd y Brifysgol ddosbarthiadau cynenedigol ar-lein, darparodd gymorth seicolegol i gleifion wedi'u hynysu, lansiodd wasanaeth hyfforddiant iaith Saesneg ar-lein am ddim a chreodd amrywiaeth o adnoddau ar-lein i helpu i gadw plant i ddysgu yn ystod y cyfyngiadau symud.

### CEFNOGI MYFYRWYR

Mae'r Brifysgol yn addysgu mwy nag 20,000 o fyfyrwyr ar draws amrywiaeth eang o feysydd pwnc, gan gyfrannu tua £162m y flwyddyn at yr economi leol. Mae'r addysg hon yn datblygu myfyrwyr yn academaidd ac yn cynyddu eu rhinweddau arweinyddiaeth a rhyngbersonol, gan eu paratoi i chwarae rôl lawn ac effeithiol mewn cymdeithas.

Fel rhan o ymdrech y Brifysgol i ddarparu profiad rhagorol yn gyson i'w myfyrwyr, mae'n gweithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr ac yn eu cynnwys yn llawer o'r penderfyniadau allweddol ar draws y Brifysgol. Mae swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o lawer o bwyllgorau a grwpiau strategol, gan helpu i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fyfyrwyr y Brifysgol.

Mae dwy o academïau'r Brifysgol, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA) yn cefnogi'r ymdrech i ddarparu'r profiad gorau posib i fyfyrwyr. Mae SALT yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer gwella asesu ac adborth, addysg a arweinir gan ymchwil, darparu cyrsiau ar-lein ac ymchwil addysgegol. Mae SEA yn bartneriaeth rhwng y Brifysgol, ei myfyrwyr, cyflogwyr lleol, entrepreneuriaid, y cynghorau sgiliau sector a'r llywodraeth i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, arloesi ac entrepreneuraidd a dod yn 'raddedigion byd-eang.'

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod rhaid i'w gweithgarwch ym maes ehangu mynediad i addysg uwch ddarparu'r sgiliau lefel uwch sy'n cynnig gwelliant hirdymor i gyfleoedd bywyd unigolion o gefndiroedd amrywiol. Mae gan y Brifysgol hanes rhagorol o gyflawni yn y maes hwn ac mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn darparu pwyslais ar ehangu mynediad ar draws y campws. Amcan SAILS yw cynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol (megis y rhai o ardaloedd cyfranogiad isel neu ddifreintiedig, plant sydd wedi bod mewn gofal, myfyrwyr anabl) elwa o addysg uwch, gan sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y cymorth academaidd a bugeiliol y mae ei angen arnynt i lwyddo yn eu hastudiaethau. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, datblygodd SAILS adnoddau wedi'u llywio gan dystiolaeth ac arfer gorau i helpu staff i gefnogi myfyrwyr a sicrhau rhagoriaeth ym maes profiad y myfyrwyr yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Roedd y rhain yn cynnwys arweiniad ar fentora academaidd yng nghyd-destun dysgu o bell, canllaw i hygyrchedd wrth ddatblygu adnoddau ar-lein, canllaw i sicrhau cynhwysiant a chadw myfyrwyr yn ystod dysgu o bell a set o egwyddorion allweddol ar gyfer sefydlu o bell.

### CEFNOGI IECHYD A LLES

I ddiogelu iechyd a lles myfyrwyr y Brifysgol yn ystod pandemig Covid-19, penderfynodd yn gyflym newid i addysgu o bell, gan ddarparu cymorth lles ar-lein ym mis Mawrth 2020. Hefyd, penderfynodd y Brifysgol ryddhau ei myfyrwyr o'u cytundebau llety ar y campws yn gynnar heb godi ffioedd arnynt. I gefnogi darpar fyfyrwyr, cynhaliodd y Brifysgol ei Diwrnod Agored Rhithwir cyntaf erioed ym mis Ebrill 2020 a ddenodd dros 5,000 o gyfranogwyr, a chynhaliodd ddiwrnodau ymweld â'r campws gyda mesurau pellter cymdeithasol ar waith ym mis Awst 2020.

Yn ogystal â hyfforddi meddygon, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon ac ymarferwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae Canolfan Sgiliau Clinigol Aneurin Bevan, a sefydlwyd mewn hen ward yn Ysbyty Singleton, yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer myfyrwyr nyrsio, cydymaith meddygol a meddygaeth, a phenodwyd yr Athro Keith Lloyd, Pennaeth ein Hysgol Feddygaeth, yn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ddiweddar.

Mae banc data SAIL yr Ysgol Feddygaeth yn rhan o gonsortiwm gwerth £4.6m sy'n cynnwys sefydliadau ledled y DU, BREATHE – Hyb Ymchwil i Ddata Iechyd ar gyfer Iechyd Anadlol. Bydd BREATHE yn defnyddio data i hyrwyddo datblygiad triniaethau ac arloesi newydd ym maes gofal ar gyfer cyflyrau megis asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a heintiau anadlol, er lles y GIG, cleifion a diwydiant.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cefnogi ymchwil i ofal sylfaenol a brys yng Nghymru, drwy gyllid gwerth £4.85m gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Canolfan Prime Cymru yn ganolfan Cymru gyfan a arweinir ar y cyd gan brifysgolion Abertawe, Caerdydd a Bangor a Phrifysgol De Cymru. Mae wedi addasu ffocws ei hymchwil i helpu i fynd i'r afael â heriau digynsail Covid-19.

### CEFNOGI CYNALIADWYEDD

Mae'r Brifysgol wedi llofnodi Cytundeb Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a thrwy hynny, mae'n

ymrwymo i fynd i'r afael â heriau byd-eang mewn cysylltiad â thlodi, anghydraddoldeb, newid yn yr hinsawdd, dirywio amgylcheddol, heddwch a chyfiawnder. Mae'n parhau i gydweithredu â phartneriaid ledled y byd i ddiogelu a chadw'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy brosiectau sy'n amrywio o ddatblygu 'adeiladau gweithredol', technolegau ynni glân a dulliau arloesol o storio carbon i ddeall hanes yr hinsawdd, symudiad anifeiliaid ac effeithiau argyfwng yr hinsawdd ar hawliau dynol.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag Ocean Rescue Sky ar gynllun mwyaf y DU i adfer morwellt. Mae morwellt yn dal carbon o'r atmosffer hyd at 35 gwaith yn gynt na'r coedwigoedd glaw trofannol. Felly, mae'n rhan bwysig o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond mae hefyd yn gweithredu fel meithrinfa ar gyfer amrywiaeth eang o fywyd y môr, o forfeirch sydd mewn peryg i falwod môr. Y nod yw plannu miliwn o hadau morwellt i adfer 20,000 o fetrau sgwâr o'r planhigyn morol yng ngorllewin Cymru, a fydd yn gynefin i 160,000 o bysgod a 200 miliwn o infertebratau.

Mae myfyrwyr o Brifysgol Abertawe wedi plannu bron 800 o goed newydd ar Fynydd Cilfái yn Abertawe, gyda chymorth preswylwyr, sgowtiaid a swyddogion heddlu lleol, mewn digwyddiad cymunedol wedi'i ariannu gan y Brifysgol a'i drefnu gan Gymdeithas Coed Prifysgol Abertawe, grŵp myfyrwyr a sefydlwyd yn ddiweddar. Plannwyd amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys derwen goesynnog a derwen ddigoes, collen, draenen wen, draenen ddu, bedwen arian a cherddinen. Bydd y coed newydd yn cynyddu bioamrywiaeth, yn gwella ansawdd yr aer ar draws y ddinas ac yn amsugno allyriadau carbon.

Mae staff a myfyrwyr gwirfoddoli hefyd wedi plannu 50 o goed derw ar gampysau Singleton a'r Bae fel rhan o ddathliadau'r Canmlwyddiant, ac mae'r Brifysgol wedi helpu i adfer coedlan hynafol ar dir Clwb Cymdeithasol Glandŵr a gosod gwrychoedd ger Stadiwm Liberty mewn ymdrech ar y cyd â Chyngor Abertawe i adfywio safle Gweithfeydd Copr yr Hafod-Morfa.

Prifysgol Abertawe yw'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i agor siop ddi-wastraff. Mae siop Root Zero, ar Gampws Parc Singleton, yn cael ei rheoli gan Undeb y Myfyrwyr ac mae'n cynnig amrywiaeth o nwyddau i fyw bywyd eco-gyfeillgar a chynaliadwy megis bwydydd cyflawn, ffacbys, pasta, siocled, coffi, ffrwythau, glanedyddion a hylif golchi dwylo.

## CEFNOGI CHWARAEON A DIWYLLIANT

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at fywyd diwylliannol y rhanbarth drwy raglen celfyddydau fywiog a gynhelir drwy Ganolfan Celfyddydau Taliesin a'r Ganolfan Eifftaidd ar Gampws Singleton a'r Neuadd Fawr ar Gampws y Bae. Bob blwyddyn, rydym yn croesawu tua 100,000 o ymwelwyr i'r canolfannau sy'n cynnal ac yn cefnogi digwyddiadau, arddangosfeydd, cynadleddau, seremonïau graddio a digwyddiadau cymunedol.

Mae llawer o archifau'r Brifysgol, gan gynnwys casgliad Richard Burton a Llyfrgell Glowyr De Cymru, ar agor i'r cyhoedd, ac mae casgliad pwysig y Ganolfan Eifftaidd o arteffactau'r Hen Aifft yn parhau i wefreiddio cannoedd o blant ysgol bob blwyddyn.

Mae'r bartneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi a Tafwyl, gŵyl flynyddol sy'n dathlu iaith, celfyddydau a diwylliant Cymraeg, yn parhau, ond symudodd yr ŵyl boblogaidd ar-lein eleni oherwydd pandemig y coronafeirws. Cyfrannodd cydweithwyr o Academi Hywel Teifi sesiynau i raglen rithwir 'Llais' yr ŵyl. Dyma'r pumed flwyddyn o'r bartneriaeth rhwng y Brifysgol â'r ŵyl hon i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a rhannu gwaith ac arbenigedd ysgrifenwyr, ysgolheigion, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion Prifysgol Abertawe.

Ym mis Tachwedd ar ôl 2019 a 2020, daeth y Sefydliad Diwylliannol yn un o chwe hyb cenedlaethol yr ŵyl Being Human. Thema'r digwyddiad oedd Ailddarganfod Abertawe: O Dir i'r Môr, a chynhwysodd raglen lawn o weithgareddau, perfformiadau, gweithdai a thrafodaethau creadigol. Roedd y pynciau'n amrywio o Pinocchio wedi'i ail-ddychmygu mewn cymdeithas orllewinol fodern, athrylith Sherlock Holmes a byd tywyll llofruddiaeth drwy'r oesoedd, i ddiwydianwyr dylanwadol Abertawe, y teulu Vivian. Uchafbwynt y digwyddiad oedd diwrnod hwyl i'r teulu yn canolbwyntio ar arddangosfa leol o arteffactau o long ryfel Harri VIII, y Mary Rose.

Er nad oedd modd cynnal cystadleuaeth flynyddol Varsity yn erbyn Prifysgol Caerdydd eleni, cynhaliwyd digwyddiad rhithwir ar ffurf cwis i gefnogi cronfa ymateb Covid-19 y Brifysgol. Cefnogwyd y digwyddiad gan nifer o sêr adnabyddus, gan gynnwys Michael Sheen ac Eddie Izzard a chewri byd chwaraeon Cymru megis Gareth Edwards, Ryan Jones, Alun Wyn Jones, Liz Johnson a'r Fonesig Tanni Grey-Thompson.

Cyhoeddodd y Brifysgol bartneriaeth tair blynedd newydd â Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe tan ddiwedd tymor 2022-23. Mae'r Brifysgol yn parhau i noddi Eisteddle Gorllewin y stadiwm a bydd ein logo ar flaen crysau cartref ac oddi cartref y tîm am y tair ymgyrch nesaf. Ym mis Mai, coronwyd tîm pêl-droed y myfyrwyr, Clwb Pêl-droed Prifysgol Abertawe, yn bencampwyr cynghrair pêl-droed rhanbarthol de Cymru, sy'n cynnwys clybiau lled-broffesiynol ac yn rhan o ail haen cynghrair pêl-droed Cymru.

Ym mis Tachwedd, croesawodd y Brifysgol Hillary Rodham Clinton yn ôl i'r campws i lansio'r rhaglen Heriau Byd-eang a ariennir gan Sky. Yn ystod ei hymweliad, cymerodd yr Ysgrifennydd Clinton ran mewn digwyddiad panel cyhoeddus o'r enw "Menywod Mentrus Cymru" ger bron cynulleidfa o 600 ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe. Aelodau eraill y panel oedd Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams; yr Athro Laura McAllister (academydd a chyn gapten tîm pêl-droed menywod Cymru); a Phennaeth Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton y Brifysgol, yr Athro Elwen Evans CF. Cadeiriwyd y digwyddiad gan y newyddiadurwr o Sky News, Anna Jones.

## YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i gyflawni ei strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a'i chenhadaeth gyhoeddus, ac i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sy'n cyfoethogi ein rhanbarth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn chwarae rôl weithredol yn y rhanbarth ac mewn cymunedau lleol, gan gynnig gwasanaethau helaeth ym meysydd iechyd, addysg, treftadaeth, cydweithio cymunedol, allgymorth ac ymgysylltu, gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, lleoliadau hanesyddol a gwirfoddoli.

Rydym yn cyflawni rôl weithredol, wedi'i thargedu, wrth ehangu mynediad a chefnogi addysg mewn ysgolion, drwy ein Rhaglen Allgymorth Ysgolion a Cholegau. Mae enghreifftiau'n cynnwys Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, a ariennir ar y cyd gan y Brifysgol a Llywodraeth Cymru. Mae'n ymdrechu i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir yn ne-orllewin Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal.

Mae'r fenter Technocamps, sydd ar y rhestr fer am wobr STEM Cymru, yn cynnal gweithdai ymarferol ar gyfer ysgolion uwchradd er mwyn annog disgyblion i astudio cyfrifiadura a phynciau STEM ar lefel TGAU, Safon Uwch ac ar lefel uwch. Mae Cyfrifiadura'r Maes Chwarae'n gweithio i oresgyn y broblem lle mae grwpiau penodol o bobl ifanc – merched yn benodol – yn colli diddordeb mewn pynciau STEM yn y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae Technoteach yn darparu datblygiad a hyfforddiant proffesiynol i athrawon sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cwricwlwm cyfrifiadura newydd, ac mae'r Sefydliad Codio yng Nghymru yn cynrychioli cangen ddiwydiannol Technocamps.

Mae'r Brifysgol yn cynnal digwyddiadau STEM poblogaidd i ennyn diddordeb y cyhoedd mewn gwyddoniaeth ac ymchwil. Dychwelodd y digwyddiad blynyddol, Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe, unwaith eto yn 2019, wedi'i chynnal gan y Brifysgol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Denodd yr ŵyl dros 9,000 o ymwelwyr o bob oedran, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr, ac roedd ganddi dros 40 o arddangosfeydd a channoedd o weithgareddau rhyngweithiol.

Mae prosiect Gwyddoniaeth yn y Gymuned y Brifysgol hefyd yn elwa o barhad y prosiect Oriel Science sydd â'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i astudio pynciau STEM ar lefel addysg uwch. Fe'i cefnogir gan nifer o arddangoswyr corfforaethol, gan gynnwys Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, Tata Steel a Plantasia, ynghyd ag arddangoswyr elusennol, gan gynnwys Sefydliad y Galon Prydain a Gofal Canser Tenovus.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid gohirio agor lleoliad newydd yng nghanol y ddinas. Mae cynlluniau ar y gweill i'w ail-lansio yn hydref 2020, gan greu arddangosfeydd ysbrydoledig a rhyngweithiol ar sail ymchwil wych ein Prifysgol â'r nod o feithrin chwilfrydedd a hyrwyddo ein hymchwil i'r gymuned.

Ymrwymodd y Brifysgol hefyd i fod yn rhan o Uni4Me, menter ar-lein â'r nod o gefnogi myfyrwyr sydd dan anfantais oherwydd pandemig y coronafeirws i astudio ar lefel addysg uwch. Dan arweiniad y Rhwydwaith Cyfleoedd Addysg Cenedlaethol, bydd yr hyb yn darparu porth canolog lle bydd dysgwyr, rhieni ac athrawon yn gallu dod o hyd i adnoddau mewn amrywiaeth o bynciau i'w helpu i symud ymlaen i addysg uwch.

Ym mis Mai, cynhaliodd gwyddonwyr o Brifysgol Abertawe gyfres o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar-lein ar gyfer plant, fel rhan o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gŵyl gystadleuol fwyaf Ewrop ar gyfer pobl ifanc, ar ei gwedd newydd. Mae'r pafiliwn gwyddoniaeth GwyddonLe, partneriaeth rhwng yr Urdd a Phrifysgol Abertawe a sefydlwyd yn 2010, yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd yr Eisteddfod, lle mae arbenigwyr yn gwneud gwyddoniaeth yn fyw drwy arddangosiadau a gweithdai gwyddonol i'r miloedd o bobl ifanc sy'n ymweld â'r pafiliwn bob dydd. Eleni, cynhaliwyd y gweithgareddau gwyddonol drwy ddarparu fideos a ddangosodd arbrofion gwyddonol y gallai plant a phobl ifanc eu gwneud yn ddiogel gartref.

Mae Clinig y Gyfraith wedi symud yn ddiweddar i gyfleusterau proffesiynol pwrpasol sydd wedi cael eu hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy brosiect Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru. Mae Clinig y Gyfraith wedi lansio clinigau galw heibio a gweithgareddau allgymorth newydd, ac mae wedi cefnogi tuag 80 o bobl a ddaeth i'r Clinig am gyngor a chymorth cyfreithiol cychwynnol am ddim yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cyhoeddwyd mai Bryan Washington oedd enillydd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe am ei gasgliad gwych o straeon byrion yn portreadu amrywiaeth Houston, Tecsas. Mae DylanEd, adran addysgol Gwobr Dylan Thomas, yn gweithio gyda phlant ysgol a myfyrwyr, gan eu cyflwyno i lenyddiaeth ac yn eu hannog i ddatblygu eu lleisiau creadigol. Mae'r rhaglen wedi derbyn cymorth gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies i ddatblygu rhaglen arloesol o weithgareddau dros y tair blynedd nesaf a'i nod yw meithrin ysgrifennu Saesneg yng Nghymru, yn enwedig yng nghymoedd de Cymru.

# Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gyngor Prifysgol Abertawe (y "sefydliad")

## ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### BARN

Yn ein barn, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Abertawe a datganiadau ariannol y sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2020, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y grŵp a'r sefydliad ac o lifoedd arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland", a'r gyfraith gymwys);
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol a gynhwyswyd yn Adolygiad Ariannol 2020 (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys: Datganiad o Sefyllfa Ariannol Gyfunol a Sefydliadol ar 31Gorffennaf 2020; Datganiad o Incwm Cynhwysfawr cyfunol a'r sefydliad, Datganiad o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn cyfunol a'r sefydliad am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, a'r Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol.

### SAIL Y FARN

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

***Annibyniaeth***

Buom yn gweithredu'n annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol e aill, yn unol â'r gofynion hyn.

### CASGLIADAU YNGHYLCH BUSNES GWEITHREDOL

Nid oes gennym ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i ni eich hysbysu amdanynt o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) pan fo:

- defnydd y Cyngor o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a nodwyd a allai beri amheuaeth sylweddol am allu'r grŵp a'r sefydliad i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am o leiaf 12 mis o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r grŵp a'r sefydliad i barhau'n fusnes gweithredol.

### ADRODD AM WYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn golygu'r holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad fel archwilwyr am y rhain. Y Cyngor sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio arni neu, ac eithrio lle y nodir yn benodol fel arall yn yr adroddiad hwn, unrhyw fath o sicrwydd yn ei chylch.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb perthnasol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a ddysgwyd gennym yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth hon. Os ymddengys i ni fod anghysondeb perthnasol neu gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni roi gweithdrefnau ar waith i ganfod a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o ran yr wybodaeth arall. Os deuwn i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, fod camddatganiad perthnasol o ran yr wybodaeth arall hon, mae'n ddyletswydd arnom i adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i adrodd amdano ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Ar sail y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'r gwaith a wnaed gennym wrth gynnal yr archwiliad, mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn rhoi dyletswydd arnom hefyd i adrodd am fathau penodol o farn a materion fel y'i disgrifir isod.

***Adroddiad Blynyddol***

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae dyletswydd arnom i'ch hysbysu os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym yr un eithriad i roi gwybod amdano o ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn.

### CYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL A'R ARCHWILIAD

***Cyfrifoldebau'r Cyngor am y datganiadau ariannol***

Fel sy'n cael ei esbonio'n fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor ar dudalen 42, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn ddarlun cywir a theg. Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am y fath reolaeth fewnol maent yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad i barhau'n fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol a chan ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r sefydliad neu roi terfyn ar weithrediadau, neu oni bai nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

***Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol***

Rydym yn gymwys i weithredu, ac fe'n penodwyd i weithredu'n archwilwyr o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n dod i rym o dani.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol os oes un. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn berthnasol os, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n had oddiad fel archwilwyr.

***Defnyddio'r adroddiad hwn***

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau ynddo, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y sefydliad yn unig, fel corff yn unol ag Adran 4 Statudau'r sefydliad ac adran 151 Deddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac nid at unrhyw ddiben arall. Wrth fynegi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ddiben arall nac ar gyfer person arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a allai gael gafael arno, ac eithrio lle y cytunir yn benodol drwy ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

### ADRODD GOFYNNOL ARALL

Barn ar faterion eraill a bennir yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- bodlonwyd gofynion cyfarwyddyd CCAUC ynghylch cyfrifon;
- mae arian, o ba ffynhonnell bynnag, a weinyddir gan y sefydliad at ddibenion penodol, wedi cael ei ddefnyddio'n briodol i gyflawni'r dibenion hynny a'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- defnyddiwyd arian a ddarparwyd gan CCAUC yn unol â'r Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd, y Côd Rheoli Ariannol ac unrhyw amodau a thelerau eraill sydd ynghlwm wrthynt; a
- defnyddiwyd arian a ddarparwyd gan CCAUC at y dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer.

### DIGONOLRWYDD Y COFNODION CYFRIFYDDU A'R WYBODAETH A'R ESBONIADAU A DDERBYNIWYD

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os ydym o'r farn:

- nad yw'r sefydliad wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfri yddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym eithriadau i adrodd arnynt o ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn.



**PricewaterhouseCoopers LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol**
**Caerdydd**
**22 Chwefror 2021**

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol ac Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig).

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys sicrhau bod system rheoli mewnol effeithiol ar waith a'i bod yn cael ei chynnal, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a ddarperir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ogystal, yn unol ag amodau a thelerau Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei swyddog dynodedig, baratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr gweithgarwch y Brifysgol a'r Grŵp, o'r gwarged neu'r diffyg a'r llifoedd arian parod am y flwyddyn onno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

- polisïau cyfrifyddu addas wedi cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth wedi'u gwneud;
- safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn yn amodol ar unrhyw wiriadau materol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar y sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol rhagdybio y bydd grŵp y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod adnoddau digonol gan grŵp y Brifysgol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy; am y rheswm hwn, mae'r sail busnes gweithredol yn parhau i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau bod arian a dderbynnir gan CCAUC yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i rhoddwyd ar eu cyfer yn unig ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda'r Cyngor Cyllido, ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu rhagnodi o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'r grŵp, atal a chanfod twyll;
- sicrhau rheolaeth economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae elfennau allweddol system rheoli mewnol y Brifysgol a'r grŵp, sydd wedi'i chynllunio i gyflawni r cyfrifoldebau uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid ad annau academaidd a gwasanaethau proffesiynol ac o'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses cynllunio tymor canolig a byr gynhwysfawr, wedi'i hategu gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol;
- adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau ariannol, sy'n cynnwys adrodd am amrywiant a diweddariadau am lefelau alldro a ragwelwyd;
- gofynion ffurfiol, wedi'u diffinio'n glir, i gymeradwyo a rheoli gwariant, a'r angen i benderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf neu refeniw sylweddol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol manwl gan y Pwyllgor Cyllid Strategaeth;
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn manylu ar reolyddion a gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth;
- gwasanaeth Archwiliad Mewnol proffesiynol y mae ei raglen flynyddol yn cael ei chyme adwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ac mae ei bennaeth yn darparu i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, adroddiad am weithgarwch archwilio mewnol yn y Brifysgol a barn am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Brifysgol, gan gynnwys rheoli ariannol mewnol.

Fodd bynnag, gall unrhyw system rheoli mewnol ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, yn hytrach na sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled materol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol a allai effeithio ar y Brifysgol, ynghyd â'r rheolyddion gweithredu, ariannol a chydymffurfio a oddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r Cyngor o'r farn bod proses ffurfiol, barhaus, ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i'r Brifysgol sydd wedi bod ar waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennol 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, proses sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Cyngor.



## AELODAETH Y CYNGOR

| RÔL | AELOD | DECHRAU TYMOR | DIWEDD TYMOR | PRESENOLDEB AR GYFER 2019/20[1] |
|---|---|---|---|---|
| **Canghellor** | Yr Athro y Fonesig Jean Thomas | 1 Ionawr 2018 | 31 Rhagfyr 2021 | 5/7 |
| **Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor** | Syr Roger Jones<br>Mr Bleddyn Phillips [2] | 10 Medi 2015<br>13 Rhagfyr 2019 | 10 Medi 2019<br>12 Rhagfyr 2023 | 0/0<br>5/5 |
| **Dirprwy Ganghellor** | Syr Roderick Evans | Mis Ebrill 2017 | Mis Mawrth 2021 | 5/7 |
| **Trysorydd** | Mr Goi Ashmore | 1 Awst 2020 | 31 Gorffennaf 2024 | 0/0 |
| **Is-ganghellor** | Yr Athro Paul Boyle | 26 Gorffennaf 2019 | 25 Gorffennaf 2024 | 7/7 |
| **Dirprwy Is-gangellorion (uchafswm o dri)** | Y Profost yr Athro Steve Wilks<br>Yr Athro Martin Stringer<br>Yr Athro Iwan Davies<br>Yr Athro Hilary Lappin-Scott | Mis Rhagfyr 2018<br>1 Medi 2019<br>Mis Tachwedd 2015<br>Mis Rhagfyr 2018 | 31 Rhagfyr 2022<br>31 Awst 2023<br>31 Awst 2019<br>31 Awst 2019 | 7/7<br>7/7<br>0/0<br>0/0 |
| **Chwe aelod a benodir gan ac o blith Llys Prifysgol Abertawe** | Mr Gordon Anderson<br>Dr Kerry Beynon[3]<br>Mrs Jill Burgess<br>Yr Athro Edward David<br>Yr Athro Kathryn Monk<br>Ms Elin Rhys<br>Mrs Gaynor Richards | Mis Ionawr 2017<br>Mis Ionawr 2016<br>Mis Ionawr 2018<br>4 Chwefror 2020<br>Mis Ionawr 2018<br>4 Chwefror 2020<br>Mis Ionawr 2018 | Mis Ionawr 2021<br>3 Chwefror 2020<br>Mis Ionawr 2022<br>3 Chwefror 2024<br>26 Ionawr 2022<br>3 Chwefror 2024<br>29 Mai 2020 | 7/7<br>3/4<br>6/7<br>3/3<br>6/7<br>7/7<br>2/5 |
| **Pedwar aelod o'r staff academaidd a benodir gan ac o blith y Senedd (dau athro a dau aelod o'r staff nad ydynt yn athrawon)** | Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus<br>Yr Athro Joy Merrell<br>Dr Ryan Murphy<br>Dr Siân Rees | 1 Rhagfyr 2018<br>19 Hydref 2016<br>4 Gorffennaf 2019<br>4 Gorffennaf 2019 | 30 Tachwedd 2022<br>18 Mawrth 2021<br>3 Gorffennaf 2023<br>3 Gorffennaf 2023 | 5/7<br>4/7<br>7/7<br>7/7 |
| **Chwe aelod a gyfetholir gan Gyngor Prifysgol Abertawe** | Dr Kerry Beynon[3]<br>Mrs Rosemary Morgan<br>Dr Angus Muirhead<br>Mr Bleddyn Phillips[2]<br>Mrs Marcia Sinfield<br>Yr Athro Keshav Singhal<br>Ms Anne Tutt | 4 Chwefror 2020<br>10 Medi 2015<br>21 Mawrth 2020<br>Mis Mai 2016<br>1 Rhagfyr 2020<br>1 Rhagfyr 2020<br>6 Gorffennaf 2020 | 3 Chwefror 2024<br>10 Medi 2020<br>20 Mawrth 2024<br>13 Rhagfyr 2019<br>30 Tachwedd 2024<br>30 Tachwedd 2024<br>5 Gorffennaf 2024 | 2/3<br>6/7<br>7/7<br>2/2<br>0/0<br>0/0<br>0/0 |
| **Dau o aelodau staff Prifysgol Abertawe a enwebir gan yr Undebau Llafur a gydnabyddir gan y Brifysgol** | Dr Simon Hoffman<br>Mr Adrian Jenkins<br>Yr Athro Sue Jordan | 11 Medi 2015<br>27 Medi 2019<br>11 Medi 2019 | 10 Medi 2019<br>26 Medi 2023<br>10 Medi 2023 | 0/0<br>7/7<br>7/7 |
| **Llywydd Undeb y Myfyrwyr** | Ms Grace Hannaford<br>Ms Ffion Davie | 1 Gorffennaf 2019<br>1 Gorffennaf 2020 | 30 Mehefin 2020<br>30 Mehefin 2021 | 6/6<br>6/6 |
| **Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr** | Ms Ffion Davie | 1 Gorffennaf 2019 | 30 Mehefin 2020 | 1/1 |

[1] Darperir gwybodaeth am bresenoldeb yr aelodau hynny o'r Cyngor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020, wedi'i mynegi fel nifer o gyfarfodydd y Cyngor a fynychwyd o gyfanswm y cyfarfodydd y disgwyliwyd i'r aelod eu mynychu.

[2] Roedd Mr Bleddyn Phillips yn aelod cyfetholedig nes iddo gael ei benodi'n Ddirprwy Ganghellor ac yn Gadeirydd y Cyngor

[3] Roedd Dr Kerry Beynon yn Aelod o'r Cyngor a benodwyd gan y Llys nes iddi gael ei phenodi'n aelod cyfetholedig



**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**
**22 Chwefror 2021**

# Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

## 1. GWYBODAETH GYFFREDINOL
Mae Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw: **Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP**

## 2. DATGANIAD O GYDYMFFURFIAETH
Mae datganiadau ariannol Cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â phwerau a dyletswyddau deddfwriaeth flaeno ol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosiannol tan 31 Gorffennaf 2019, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r amodau a thelerau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso'r gofyniad perthnasol o ran budd cyhoeddus o gyfreithiau a safonau cyfrifyddu perthnasol y DU.

## 3. SAIL PARATOI
Caiff y datganiadau ariannol Cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Mae gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u hamlinellu yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian parod, ei hylifedd a'i chyfleuste au benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod y Brifysgol yn meddu ar adnoddau ariannol digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol. Mae Aelodau'r Cyngor yn teimlo bod hyn yn briodol oherwydd bod gan y Brifysgol adnoddau ariannol sylweddol, ynghyd â gwerth sylweddol mewn incwm o gontractau yn y tymor canolig. Mae Aelodau'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon ac yn rhagweld cydymffurfiaeth â chyfamodau d wy gydol y flwyddyn. Felly, cred Aelodau'r Cyngor eu bod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes, er gwaethaf y newidiadau parhaus mewn cyllid ar gyfer y sector.

Mae penderfyniadau a wnaed gan reolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith bwysig ar y datganiadau ac amcangyfrifon ariannol lle ceir risg sylweddol o addasiad materol yn y flwyddyn nesaf yn cael eu trafod yn nodyn polisi cyfrifyddu 23.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2020. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr oherwydd nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am fent au ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a'u talgrynnu i'r £'000 agosaf.

## 4. EITHRIADAU O DAN FRS 102
Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 y SORP (1.12(b) FRS 102) i beidio â pharatoi datganiad o lif arian parod ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

## 5. SAIL CYFUNO
Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran canlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2020.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas ag ymrwymiadau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd wedi'u dileu. Mae trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae enillion neu golledion yn cael eu cynnwys yn symiau cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; mae'r rhan sy'n gysylltiedig â chyfran y Brifysgol yn cael ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr oherwydd nad oes gan y Brifysgol reolaeth neu ddylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

## 6. CYDNABOD INCWM
Caiff incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) ei gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan ellir mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, pan ellir mesur y cam cwblhau ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ddibynadwy, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau'r gwasanaethau a ddarparwyd neu y disgwylir eu darparu'n ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd d sgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi ddysgu wedi'i leihau gan ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, le bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff yr arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei dalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle bo'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Caiff incwm o fuddsoddi ei gredydu i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

### CYLLID GRANT
Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil o ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau eraill o ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil o ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y brifysgol hawl i'r incwm a phan fodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad. Caiff incwm sy'n cael ei dderbyn cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Caiff grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fodlonir yr amodau mewn perthynas â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau mewn perthynas â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fodlonir amodau o'r fath.

### GRANTIAU CYFALAF
Caiff grantiau cyfalaf am dir eu cydnabod fel incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian, yn amodol ar fodloni amodau mewn perthynas â pherfformiad. Cyfrifir am grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth yn unol â'r model perfformiad ac yn unol â'r polisi ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth uchod.

### RHODDION A GWADDOLION
Trafodion nad ydynt yn cynnwys cyfnewid nac amodau mewn perthynas â pherfformiad yw rhoddion a gwaddolion. Caiff rhoddion a gwaddolion sy'n destun cyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir incwm yn y gronfa wrth gefn gyfyngedig nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â'r cyfyngiadau hynny. Yr adeg honno, caiff yr incwm ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad o'r cronfeydd wrth gefn.

Caiff incwm o fuddsoddi ac arbrisiant gwaddolion ei gofnodi fel incwm yn y flwyddyn mae'n codi, a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Cofnodir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o roddion a gwaddolion â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd i gyflawni amcan penodol
2. Gwaddolion anghyfyngedig parhaol – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol
3. Gwaddolion cyfyngedig y gellir eu gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau diriaethol sefydlog, a chaiff y Brifysgol droi'r swm a roddwyd yn incwm
4. Gwaddolion cyfyngedig parhaol – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff yr incwm a gydnabyddir ei brisio gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'r gwerth gros neu'r cyfanswm sy'n cael ei wireddu mewn gwirionedd. Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

## 7. CYFRIFYDDU AM FUDDION YMDDEOL
Y tri phrif gynllun ar gyfer staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaet Cenedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012 pan wahoddwyd staff newydd i ymaelodi â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwarïaid cymwysedig annibynnol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r USS yn gynllun aml-gyflogwr felly nid yw'n bosib nodi asedau a rhwymedigaethau pob Prifysgol, oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth yn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol o fewn y cynllun USS.

### CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG
Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ar ôl cyflogaeth lle mae r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd ganddo rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau ychwanegol. Cydnabyddir rhwymedigaethau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnodau pan gyflogir y gweithwyr.

### CYNLLUNIAU AML-GYFLOGWR
Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n tanategu cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y traul canlyniadol mewn gwariant.

### CYNLLUN BUDDION DIFFINIEDIG
Mae cynllun buddion diffinie ig yn gynllun buddion ar ôl cyflogaeth heblaw am gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i aelodau staff presennol a chyn aelodau staff, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am effeithiau risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl).

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd namyn gwerth teg asedau'r cynlluniau ar y dyddiad adrodd.

Dylai'r grŵp gydnabod atebolrwydd am ei rwymedigaethau o dan gynlluniau buddion diffiniedig ac eithrio asedau'r cynlluniau. Mesurir y rhwymedigaeth i dalu buddion net ar sail amcangyfrif o'r buddion mae gweithwyr wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, ar ôl cymhwyso disgownt i bennu gwerth cyfredol, namyn gwerth teg (ar sail y cynnig uchaf) asedau'r cynllun. Mae actiwari cymwysedig yn gwneud y cyfrifiad gan ddefnyddio'r dull uned credyd arfaethedig. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, cyfyngir cydnabyddiaeth am yr ased i'r graddau y mae'r Brifysgol yn gallu adennill y gwarged, naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn penodi actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol, ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel wedi'u mynegi yn Sterling ar delerau sy'n seiliedig ar gyfnod amcangyfrifedig taliadau yn y dyfodol.

Mesurir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau a ddelir ar delerau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel cost neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau'r cynllun, namyn symiau a gynhwyswyd mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio lle caiff ei chynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost yn y gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 30 i'r cyfrifon.

## 8. BUDDION CYFLOGAETH
Caiff buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau â thâl, eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn pan gyflogir y gweithwyr gan y Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur i gyfrifo'r swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliad heb ei ddefnyddio. Cydnabyddir gwyliau blynyddol nad ydynt wedi'u defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr ar gyfer staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio yn achos academyddion, oherwydd nad oes rhwymedigaeth o'r fath.

## 9. PRYDLESI CYLLID
Caiff prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo'r holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased ar brydles eu cofnodi fel prydlesi cyllid. Caiff asedau wedi'u prydlesu sy'n cael eu caffael drwy brydles gyllid eu datgan fel yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm y taliadau prydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiant cronedig a namyn colledion cronedig oherwydd amhariad. Cyfrifir am daliadau p ydles fel y disgrifir isod

Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor prydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

## 10. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH
Caiff asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth eu cydnabod ar y fantolen ar werth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaeth, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth ariannol i sero dros gyfnod y trefniant.

Cydnabyddir preswylfeydd Campws y Bae a Champws Singleton fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

## 11. PRYDLESI GWEITHREDU
Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.

## 12. ARIAN CYFRED TRAMOR
Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i Bunnoedd Sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegwyd mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol, gan ddefnyddio'r gyfradd cyfnewid arian tramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid o ganlyniad i drosi yn y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau a fynegwyd mewn arian cyfred tramor a'u datgan ar werth teg eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid a oedd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

## 13. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR
Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu datgan ar sail cost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

### TIR AC ADEILADAU
Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost ar gydnabyddiaeth gychwynnol. Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff tir ac adeiladau eu mesur wedi hynny ar sail cost namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.
Cafodd tir ac adeiladau a oedd yn bodoli adeg newid i FRS102 a'r SORP newydd ar gyfer addysg uwch yn 2015, eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm cyfwerth â'r dibrisiant sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig yn flynyddol.

Caiff costau sy'n codi o ran tir ac adeiladau ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau yn amrywio, cyfrifir amdanynt fel pe baent yn eitemau asedau se ydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir nad oes terfyn ar ei oes ddefnyddiol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth eu hadeiladu a chaiff dibrisiant ei gyflymu pan fo dyddiad dymchwel hysbys.

Caiff tir ac adeiladau lesddaliol eu dibrisio dros dymor y brydles, hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

### CYFARPAR
Caiff gwerth cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 fesul eitem unigol ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu cyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar gost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw 3-5 mlynedd heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol pan dybir bod yr oes ddefnyddiol yn hirach neu'n fyrrach.

Adolygir dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

### LLONGAU
Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Adolygir dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

### COSTAU BENTHYCA
Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn codi.

### AMHARIAD
Cynhelir adolygiad o amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

## 14. ASEDAU TREFTADAETH
Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bod modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio oherwydd na fyddai

unrhyw ddibrisiant yn berthnasol o ganlyniad i'w hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

### 15. EIDDO BUDDSODDIAD

Eiddo buddsoddiad yw tir ac adeiladau a ddelir i greu incwm o renti neu adbrisiant cyfalaf, yn hytrach nag at ddiben darparu gwasanaethau.

Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur i ddechrau ar sail cost, ac wedyn ar sail gwerth teg, a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond cânt eu hailbrisio neu eu hadolygu'n flynyddol ar sail amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

### 16. BUDDSODDIADAU

Delir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Cofnodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiol ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 17. STOC

Delir stoc ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

### 18. ARIAN PAROD AC ASEDAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon ad-daladwy ar gais a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb. Asedau cyfwerth ag arian parod yw buddsoddiadau tymor byr, hylif iawn, y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau arian parod hysbys heb risg neu newid gwerth sylweddol.

### 19. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth; a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau penodol i'r rhwymedigaeth i'r llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol – neu absenoldeb digwyddiadau penodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid oes ffordd resymol o fesur y rhwymedigaeth.

Mae ased digwyddiadol yn codi o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol – neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

### 20. CYFRIFYDDU AR GYFER GWEITHREDIADAU AR Y CYD, ASEDAU A REOLIR AR Y CYD A GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 21. TRETHIANT

Mae'r Brifysgol yn elusen yn unol ag ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly, gall y Brifysgol gael ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir mewn categorïau wedi'u cynnwys yn adran 478-488 Deddf Treth ar Gorfforaethau 2010 (CTA 2010) neu adran 256 Deddf Trethu Elwau Priodol 1992, i'r graddau y defnyddir incwm neu enillion o'r fath at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn elwa o eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW nad oes modd ei hadennill ar fewnbynnau'n cael ei chynnwys yng nghostau'r mewnbynnau dan sylw. Caiff TAW nad oes modd ei hadennill sy'n cael ei dyrannu i asedau sefydlog ei chynnwys yn eu cost.

Mae'n rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un ffordd â phob sefydliad masnachol arall.

### 22. CRONFEYDD WRTH GEFN

Rhennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig wrth gefn a chronfeydd anghyfyngedig wrth gefn. Mae cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys symiau a roddwyd drwy waddol i'r Brifysgol ac sy'n cael eu dal fel cronfa gyfyngedig wrth gefn barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol ddal y gronfa'n barhaol.

Mae cronfeydd gwaddolion cyfyngedig wrth gefn eraill yn cynnwys symiau a ddynodwyd at ddiben penodol gan y rhoddwr, felly mae'r Brifysgol yn gyfyngedig yn y ffordd mae'n gallu defnyddio'r cronfeydd hyn.

### 23. AMCANGYFRIFON A BARNAU CYFRIFYDDU ALLWEDDOL

Defnyddiwyd yr amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol canlynol wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon:

#### ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio adeg mabwysiadu FRS102. Cafodd yr ailbrisiad ei gynnal gan syrfewyr meintiau cymwysedig yn seiliedig ar eu hadolygiad annibynnol o'r ystâd a gwybodaeth ategol gan y Brifysgol.

Yn ystod yr ailbrisiad tir ac adeiladau, cafodd oesau defnyddiol adeiladau eu hadolygu a'u diweddaru gan y syrfewyr annibynnol yn seiliedig ar asesiad o oedran a chyflwr yr ystâd.

#### GALLU I ADENNILL DYLEDION

Mae'r polisi o ran darparu ar gyfer dyledion drwg neu ansicr yn benodol i bob dosbarth o ddyled ac yn seiliedig ar amgylchiadau a dyledion a adenillwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Tybir bod modd adennill dyledion na ddarparwyd ar eu cyfer.

#### RHWYMEDIGAETHAU MEWN PERTHYNAS Â BUDDION YMDDEOL

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd). Cynhelir prisiadau actiwaraidd o'r cynllun, yn unol â phenderfyniad yr Ymddiriedolwyr, ac o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch ac FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol, yn seiliedig ar y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir i'r actiwarïaid gan y Brifysgol, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 31.

Mae'r rheolwyr yn fodlon bod Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflog, felly cydnabyddir gwerth teg disgownt y cyfraniadau contractiol o dan y cynllun ariannol a oedd ar waith ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Mae rhwymedigaeth dan gontract ar y Brifysgol i wneud taliadau i'r USS i adennill diffyg, felly cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adennill diffyg yr USS, y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2017, ac sy'n diffinio'r taliad gofynnol i ariannu'r diffyg fel canran o gyflogau'r dyfodol. Caiff y cyfraniadau hyn eu hailasesu pan gynhelir prisiadau teirblwydd y cynllun.

Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiant cyflogau yn y dyfodol, newidiadau mewn niferoedd staff a'r gyfradd ddisgownt ar y pryd. Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 31.

# Datganiadau Ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020

**DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020

| | NODIADAU | CYFUNOL<br>Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 GORFF. 2020<br>£000 | PRIFYSGOL<br>Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 GORFF. 2020<br>£000 | CYFUNOL<br>Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 GORFF. 2019<br>£000 | PRIFYSGOL<br>Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 GORFF. 2019<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **171,197** | **171,197** | 170,443 | 170,443 |
| Grantiau cyrff ariannu | 2 | **27,310** | **27,310** | 25,041 | 25,041 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **56,184** | **56,184** | 94,597 | 94,597 |
| Incwm arall | 4 | **61,934** | **61,047** | 61,276 | 60,944 |
| Incwm o fuddsoddi | 5 | **631** | **631** | 665 | 665 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | **249** | **249** | 311 | 311 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **317,505** | **316,618** | 352,333 | 352,001 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau Staff | 7 | **184,508** | **184,149** | 177,832 | 177,432 |
| Tâl/(credyd) am ddiffyg Cynllun Pensiwn USS | 7 | **(41,141)** | **(41,141)** | 56,935 | 56,935 |
| Costau ailstrwythuro | 7 | **5,612** | **5,612** | - | - |
| Treuliau gweithredu eraill | | **103,303** | **102,820** | 130,854 | 131,115 |
| Dibrisiant | 11 | **23,871** | **23,738** | 22,031 | 21,898 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 8 | **8,936** | **8,934** | 7,309 | 7,309 |
| **Cyfanswm gwariant** | 9 | **285,089** | **284,112** | 394,961 | 394,689 |
| **Gwarged / (Diffyg) cyn enillion a cholledion eraill a chyfran (diffyg) gweithredol cyd-fentrau a mentrau cysylltiol** | | **32,416** | **32,506** | (42,628) | (42,688) |
| (Colled) / enillion ar waredu asedau diriaethol | | **(530)** | **(530)** | 99 | 99 |
| Enillion / (Colled) ar fuddsoddiadau | | **82** | **181** | (885) | 121 |
| Cyfran o (ddiffyg) gweithredu mewn cyd-fentrau | 15 | **-** | **-** | (264) | (264) |
| Cyfran o (ddiffyg) gweithredu mewn cwmnïau cysylltiol | | **(254)** | **(254)** | - | - |
| **Gwarged / (Diffyg) cyn treth** | | **31,714** | **31,903** | (43,678) | (42,732) |
| Trethiant | 10 | **(14)** | **-** | (15) | - |
| **Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn** | | **31,700** | **31,903** | (43,693) | (42,732) |
| **Incwm Cynhwysfawr arall** | | | | | |
| (Colled) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 31 | **(10,800)** | **(10,800)** | (13,000) | (13,000) |
| **Cyfanswm incwm/(treuliau) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **20,900** | **21,103** | (56,693) | (55,732) |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr gwaddolion ar gyfer y flwyddyn | 22 | **207** | **207** | 338 | 338 |
| Incwm/(treuliau) cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | | **21,725** | **21,928** | (55,954) | (54,993) |
| Ailbrisiant incwm / (treuliau) cynhwysfawr wrth gefn ar gyfer y flwyddyn | | **(1,032)** | **(1,032)** | (1,077) | (1,077) |
| | | **20,900** | **21,103** | (56,693) | (55,732) |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 50 - 77 gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw.



**DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020

| | CRONFA INCWM A GWARIANT WRTH GEFN<br>GWADDOLION<br>£000 | <br>ANGHYFYNGEDIG<br>£000 | CRONFA AILBRISO WRTH GEFN<br>£000 | CYFANSWM<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **CYFUNOL** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 6,436 | 161,859 | 46,795 | **215,090** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 338 | (44,031) | - | **(43,693)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | (13,000) | - | **(13,000)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1,077 | (1,077) | **-** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfalaf cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | 6,774 | 105,905 | 45,718 | **158,397** |
| **Ar 1 Awst 2019** | **6,774** | **105,905** | **45,718** | **158,397** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 207 | 31,493 | - | **31,700** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | (10,800) | - | **(10,800)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1,032 | (1,032) | **-** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | - | - | - | **-** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | 207 | 21,725 | (1,032) | **20,900** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **6,981** | **127,630** | **44,686** | **179,297** |
| **PRIFYSGOL** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 6,436 | 161,287 | 46,795 | **214,518** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 338 | (43,070) | - | **(42,732)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | (13,000) | - | **(13,000)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1,077 | (1,077) | **-** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfalaf cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | - | - | - | **-** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | 6,774 | 106,294 | 45,718 | **158,786** |
| **Ar 1 Awst 2019** | **6,774** | **106,294** | **45,718** | **158,786** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 207 | 31,696 | - | **31,903** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | (10,800) | - | **(10,800)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1,032 | (1,032) | **-** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | - | - | - | **-** |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 207 | 21,928 | (1,032) | **21,103** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **6,981** | **128,222** | **44,686** | **179,889** |

## **DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL A SEFYDLIADOL** AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020

| | NODIADAU | **CYFUNOL 31 GORFF. 2020 £000** | **PRIFYSGOL 31 GORFF. 2020 £000** | CYFUNOL 31 GORFF. 2019 £000 | PRIFYSGOL 31 GORFF. 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 11 | **451,902** | **450,834** | 458,570 | 457,568 |
| Asedau treftadaeth | 12 | **945** | **945** | 945 | 945 |
| Buddsoddiadau | 14 | **452** | **-** | 591 | - |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 14 | **-** | **2,389** | - | 2,389 |
| Buddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd | 15 | **-** | **-** | 2,270 | 2,270 |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 15 | **2,016** | **2,016** | - | - |
| | | **455,315** | **456,184** | 462,376 | 463,172 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stociau | 16 | **158** | **13** | 126 | 38 |
| Masnach ac arian arall i'w dderbyn | 18 | **39,551** | **39,127** | 63,030 | 62,892 |
| Buddsoddiadau | 17 | **4,855** | **4,855** | 4,899 | 4,899 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | **97,389** | **97,117** | 89,490 | 86,943 |
| | | **141,953** | **141,112** | 157,545 | 154,772 |
| Llai credydwyr i'w talu o fewn blwyddyn | 19 | **(70,640)** | **(70,076)** | (191,446) | (189,088) |
| **ASEDAU / (RHWYMEDIGAETHAU) CYFREDOL NET** | | **71,313** | **71,036** | (33,901) | (34,316) |
| **Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **526,628** | **527,220** | 428,475 | 428,856 |
| Credydwyr: symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 20 | **(226,657)** | **(226,657)** | (121,492) | (121,492) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiynau | 21 | **(120,674)** | **(120,674)** | (148,578) | (148,578) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **179,297** | **179,889** | 158,405 | 158,786 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn | 22 | **6,981** | **6,981** | 6,774 | 6,774 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | **127,630** | **128,222** | 105,913 | 106,294 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | **44,686** | **44,686** | 45,718 | 45,718 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **179,297** | **179,889** | 158,405 | 158,786 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)

B. Phillips (Cadeirydd y Cyngor)

## **DATGANIAD CYFUNOL O LIFOEDD ARIAN PAROD** AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020

| | NODIADAU | **2020 £000** | 2019 £000 |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| Gwarged / (diffyg) am y flwyddyn cyn trethiant | | **31,714** | (43,678) |
| **Addasiad ar gyfer eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 11 | **23,871** | 22,031 |
| Incwm Consesiwn Gwasanaeth | | **(9,466)** | (9,466) |
| Llog Consesiwn Gwasanaeth | | **3,221** | 3,297 |
| Enillion / (Colled) ar fuddsoddiadau | | **(82)** | 885 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn stoc | | **(32)** | 29 |
| Gostyngiad / (cynnydd) mewn dyledwyr | | **12,838** | (17,325) |
| (Gostyngiad) mewn credydwyr | | **(10,559)** | (1,336) |
| (Gostyngiad) / cynnydd mewn darpariaethau pensiwn | | **(38,704)** | 58,521 |
| Cyfran o (warged) / diffyg mewn mentrau ar y cyd | | **-** | 264 |
| Cyfran o (warged) / diffyg gweithredu mewn cwmnïau cysylltiol | | **254** | - |
| **ADDASIAD AR GYFER GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU** | | | |
| Incwm o fuddsoddi | | **(631)** | (665) |
| Incwm o grantiau cyfalaf | | **(3,538)** | (36,365) |
| Llog taladwy | | **6,299** | 5,423 |
| Incwm o waddolion | | **(4)** | (130) |
| (Enillion) / Colled ar werthu asedau diriaethol | | **530** | (99) |
| | | **15,711** | (18,614) |
| Trethiant | | **(14)** | (15) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **15,697** | (18,629) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **16,296** | 24,170 |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | | **-** | 99 |
| Taliadau i gaffael asedau diriaethol | | **(14,308)** | (32,811) |
| Enillion o waredu buddsoddiadau anghyfredol | | **40** | - |
| Gwaredu buddsoddiadau cyfredol | | **-** | - |
| Incwm o fuddsoddi | | **631** | 665 |
| Caffaeliadau anghyfredol drwy fuddsoddi | | **-** | - |
| | | **2,659** | (7,877) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU CYLLIDO** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(3,078)** | (2,126) |
| Elfen llog prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(3,221)** | (3,297) |
| Gwaddolion newydd | | **4** | 130 |
| Diddymu gwaddolion | | **225** | - |
| Benthyciadau anwarantedig newydd | | **-** | 60,000 |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | **(2,093)** | (3,326) |
| | | **(8,163)** | 51,381 |
| **Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn** | | **10,193** | 24,875 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | **86,943** | 62,068 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | **97,136** | 86,943 |

| | | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| | Myfyrwyr amser llawn cartref a'r UE | **116,697** | **116,697** | 115,644 | 115,644 |
| | Myfyrwyr amser llawn rhyngwladol | **36,027** | **36,027** | 37,264 | 37,264 |
| | Myfyrwyr rhan-amser | **3,719** | **3,719** | 3,824 | 3,824 |
| | Contractau addysg gyda'r GIG | **14,439** | **14,439** | 13,587 | 13,587 |
| | Ffioedd cyrsiau heb eu hachredu | **315** | **315** | 124 | 124 |
| | | **171,197** | **171,197** | 170,443 | 170,443 |

I gynhyrchu'r ffi dysgu amser llawn cartref a'r UE mae'r Brifysgol wedi gwario £5.4 miliwn (2019: £5.6 miliwn) mewn perthynas â bwrsariaethau yn unol â'r cynllun ffioedd.

| | | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **GRANTIAU CYRFF ARIANNU** | | | | |
| | Grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn - cylchol | **21,294** | **21,294** | 17,783 | 17,783 |
| | | **21,294** | **21,294** | 17,783 | 17,783 |
| | **Grantiau penodol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| | Ehangu Mynediad / Ymgyrraedd yn Ehangach | **286** | **286** | 415 | 415 |
| | Prosiect Cyfrwng Cymraeg | **371** | **371** | 437 | 437 |
| | Arall | **1,611** | **1,611** | 2,434 | 2,434 |
| | Cyfalaf | **3,748** | **3,748** | 3,972 | 3,972 |
| | | **6,016** | **6,016** | 7,258 | 7,258 |
| | | **27,310** | **27,310** | 25,041 | 25,041 |

| | | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| | Cynghorau Ymchwil | **16,071** | **16,071** | 17,872 | 17,872 |
| | Elusennau yn y DU | **2,644** | **2,644** | 2,621 | 2,621 |
| | Llywodraeth y DU, awdurdodau iechyd ac ysbytai | **12,534** | **12,534** | 15,133 | 15,133 |
| | Corfforaethau cyhoeddus, masnach a diwydiant y DU | **3,293** | **3,293** | 4,860 | 4,860 |
| | Cyrff llywodraethol yr UE | **19,880** | **19,880** | 51,884 | 51,884 |
| | Ffynonellau eraill yr UE | **580** | **580** | 371 | 371 |
| | Tramor arall | **620** | **620** | 1,020 | 1,020 |
| | Ffynonellau eraill | **562** | **562** | 836 | 836 |
| | | **56,184** | **56,184** | 94,597 | 94,597 |

Nid oes incwm o grantiau cyfalaf mewn perthynas ag adeiladau o dan Grantiau a Chontractau Ymchwil yn 2020. Yn 2019, cafodd £32,393 ei gynnwys o dan Gyrff Llywodraethol yr UE, sef dau grant adeiladu cyfalaf a ryddhawyd.

| | | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **INCWM ARALL** | | | | |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **23,746** | **23,746** | 27,515 | 27,515 |
| | Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | **3,957** | **3,957** | 2,631 | 2,631 |
| | Grantiau cyfalaf eraill | **1,353** | **1,353** | - | - |
| | Incwm o gytundebau consesiwn gwasanaeth | **9,466** | **9,466** | 9,466 | 9,466 |
| | Incwm arall | **14,639** | **13,752** | 12,610 | 12,278 |
| | Incwm o'r GIG o ran y Coleg Meddygaeth | **8,279** | **8,279** | 8,826 | 8,826 |
| | Dyfarniadau Hyfforddiant Doethurol/Cydweithredol amser llawn y Cyngor Ymchwil | **494** | **494** | 228 | 228 |
| | | **61,934** | **61,047** | 61,276 | 60,944 |



| | | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **INCWM O FUDDSODDI** | | | | |
| | Incwm o fuddsoddi gwaddolion | **141** | **141** | 202 | 202 |
| | Llog o fuddsoddiadau tymor byr | **490** | **490** | 463 | 463 |
| | | **631** | **631** | 665 | 665 |
| 6 | **RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| | Gwaddolion newydd | **4** | **4** | 130 | 130 |
| | Rhoddion anghyfyngedig | **245** | **245** | 181 | 181 |
| | | **249** | **249** | 311 | 311 |
| 7 | **COSTAU STAFF** | | | | |
| | **Costau staff ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd:** | | | | |
| | Cyflogau | **134,131** | **133,772** | 131,873 | 131,473 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | **14,035** | **14,035** | 13,780 | 13,780 |
| | Costau pensiwn eraill | **36,342** | **36,342** | 32,179 | 32,179 |
| | **Cyfanswm costau staff** | **184,508** | **184,149** | 177,832 | 177,432 |
| | **Tâl (credyd)/diffyg cynllun pensiwn USS** | **(41,141)** | **(41,141)** | 56,935 | 56,935 |
| | **Costau ailstrwythuro** | **5,612** | **5,612** | - | - |

Sefydlwyd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn 2019/20, a oedd yn cynnig taliadau digolledu uwch i staff a oedd am adael y Brifysgol yn wirfoddol. Y nod oedd ailstrwythuro sylfaen gostau gyffredinol y Brifysgol i gyd-fynd yn fwy priodol â rhagamcanion o lefelau incwm a sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae'r gost, sef £5,612k yn cynnwys pob cais a gymeradwywyd gan y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ac a dderbyniwyd gan yr aelod staff unigol ar 31 Gorffennaf 2020.

**Cydnabyddiaeth Ariannol yr Is-ganghellor**

Gwneir penderfyniadau ar gydnabyddiaeth yr Is-ganghellor gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Brifysgol gan ystyried:

- Cyflawniad nodau strategol y Brifysgol
- Ehangder arweinyddiaeth a chyfrifoldebau ariannol ar gyfer y Brifysgol
- Atebolrwydd am gynnal profiad addysgol Arian y FfRhA ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol
- Atebolrwydd am gynnal ac adeiladu ar lwyddiant REF2014, gan wella enw da ac effaith ymchwil y Brifysgol
- Meincnodi'r cyflog yn erbyn prifysgolion cymharol

Penodwyd yr Is-ganghellor presennol ym mis Gorffennaf 2019 a chytunwyd ar ei becyn cydnabyddiaeth ariannol ar y pryd. Adlewyrchodd ddyfnder ei brofiad arweinyddiaeth, rheoli ac academaidd yn y Sector Addysg Uwch.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol eleni, nododd yr Uwch-dîm Rheoli, gan gynnwys yr Is-ganghellor, nad oeddent am gael eu hystyried ar gyfer tâl mewn perthynas â pherfformiad ar gyfer blwyddyn 2019/20.

**Taliadau i'r Is-ganghellor:**

| | 2020 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|
| Cyflog | **293** | 257 |
| Buddion Trethadwy | | |
| Llety cymorthdaledig a chostau cysylltiedig | **19** | 9 |
| Car y Brifysgol a chostau cysylltiedig | **24** | - |
| Buddion eraill | **9** | - |
| | **52** | 9 |

## 7 COSTAU STAFF - PARHAD

Roedd costau llety'n sylweddol uwch yn 2020 oherwydd newid yn rheolau trethiant HMRC ym mis Ebrill 2019 mewn perthynas â phreswylfa'r Is-ganghellor, pan ddaeth llety'n drethadwy am y tro cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd llety wedi'i rentu i'r Is-ganghellor yn lle tŷ'r Brifysgol yr oedd angen atgyweirio sylweddol arno. Roedd car a gyrrwr ar gael i'r Is-ganghellor eu defnyddio yn ystod 2019/20. Mae'r budd i'r Is-ganghellor, a ddatganwyd o ran y car a chostau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, yn seiliedig ar y gost i'r Brifysgol, ac mae'n cynnwys teithiau at ddiben gwaith yn ogystal â defnydd preifat. Mae hyn yn wahanol i'r budd a gyflwynwyd i HMRC at ddibenion trethiant. Nid yw'r car yn cael ei ddefnyddio gan yr Is-ganghellor bellach.

Mae cyflog sylfaenol pennaeth y darparwr 8.3 gwaith cyflog canolrifol y staff (2019: 7.5 gwaith), lle cyfrifir y cyflog canolrifol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cydnabyddiaeth ariannol gyfan pennaeth y darparwr 9.9 gwaith cydnabyddiaeth ariannol ganolrifol y staff (2019: 7.8 gwaith), lle cyfrifir y gydnabyddiaeth ariannol ganolrifol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gydnabyddiaeth ariannol gyfan gan y Brifysgol i'w staff.

Cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch (ac eithrio'r Is-ganghellor), ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond yn cynnwys taliadau a wnaed ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau dan gontract i staff y Brifysgol â chontractau cyflogaeth y GIG ar wahân ac sy'n cael eu had-dalu i'r Brifysgol gan y GIG:

| | **PRIFYSGOL 2020 NIFER** | PRIFYSGOL 2019 NIFER |
|---|---|---|
| **Yn 2020 roedd 61 o aelodau staff ar gyflogau uwch (2019: 51)** | | |
| £100,000 - £104,999 | **13** | 10 |
| £105,000 - £109,999 | **9** | 7 |
| £110,000 - £114,999 | **4** | 5 |
| £115,000 - £119,999 | **7** | 7 |
| £120,000 - £124,999 | **3** | 3 |
| £125,000 - £129,999 | **4** | 3 |
| £130,000 - £134,999 | **2** | 2 |
| £135,000 - £139,999 | **7** | 2 |
| £140,000 - £144,999 | **-** | 1 |
| £145,000 - £149,999 | **2** | 1 |
| £150,000 - £154,999 | **1** | 2 |
| £155,000 - £159,999 | **1** | - |
| £160,000 - £164,999 | **1** | 2 |
| £165,000 - £169,999 | **1** | 1 |
| £170,000 - £174,999 | **-** | 1 |
| £175,000 - £179,999 | **1** | 1 |
| £180,000 - £184,999 | **2** | 1 |
| £185,000 - £189,999 | **-** | - |
| £190,000 - £194,999 | **1** | 1 |
| £195,000 - £199,999 | **2** | - |
| £200,000 - £204,999 | **-** | - |
| £205,000 - £209,999 | **-** | 1 |

| | **2020 NIFER (CALL)** | 2019 NIFER (CALL) |
|---|---|---|
| **Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn , wedi'i fynegi ar sail CALl (cyfwerth ag amser llawn):** | | |
| Academaidd | **1,111** | 1,112 |
| Ymchwil | **452** | 419 |
| Rheolwyr ac arbenigwyr | **972** | 982 |
| Technegol | **159** | 156 |
| Eraill | **949** | 983 |
| | **3,643** | 3,652 |

**Ni thalwyd taliadau am golli swydd i ddeiliad uwch swydd yn ystod y flwyddyn (2019: dim)**

## 7 COSTAU STAFF - PARHAD

| | **2020 £000** | 2019 £000 |
|---|---|---|
| **PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL** | **954** | 1,259 |

Bu newid sylweddol yn y Rheolwyr Allweddol yn ystod 2018/19 a 2019/20 a gostyngodd nifer y swyddi rheoli uwch o saith i bump yn ystod 2019/20. Gadawodd y ddau Uwch-ddirprwy Is-ganghellor ym mis Rhagfyr 2018 a mis Awst 2019, gan adael dau Ddirprwy Is-ganghellor, y penodwyd un ohonynt yn Brofost ym mis Tachwedd 2019. Penodwyd Dirprwy Is-ganghellor arall i fod yn weithredol o 1 Awst 2020. Penodwyd y Cyfarwyddwr Cyllid newydd ym mis Chwefror 2020, gan ddisodli'r Cyfarwyddwr Cyllid dros dro.

### YMDDIRIEDOLWYR

Oherwydd natur gweithrediadau'r Sefydliad ac aelodaeth y Cyngor (a dynnir o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol) mae'n anochel y cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Caiff yr holl drafodion sy'n cynnwys sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt eu cynnal ar sail hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Sefydliad a'r gweithdrefnau caffael.

Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr gydnabyddiaeth neu daliadau a ildiwyd yn ystod y flwyddyn (2019: £0).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran yr ymddiriedolwyr oedd £5,000 (2019: £5,000) wedi'i rannu rhwng Aelodau'r Cyngor. Cynrychiola hyn dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhinwedd eu rôl swyddogol fel Aelodau'r Cyngor.

| | NODYN | **CYFUNOL DIWEDD Y FLWYDDYN 2020 £000** | **PRIFYSGOL DIWEDD Y FLWYDDYN 2020 £000** | CYFUNOL DIWEDD Y FLWYDDYN 2019 £000 | PRIFYSGOL DIWEDD Y FLWYDDYN 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **8 LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL** | | | | | |
| Llog ar fenthyciadau | | **3,078** | **3,076** | 2,126 | 2,126 |
| Prydlesi cyllid gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | **3,221** | **3,221** | 3,297 | 3,297 |
| Dad-ddirwyn ffactor disgownt cynllun USS | | **1,437** | **1,437** | 686 | 686 |
| Cost llog pensiynau net | 31 | **1,200** | **1,200** | 1,200 | 1,200 |
| | | **8,936** | **8,934** | 7,309 | 7,309 |

## 9 DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH

| | CYFUNOL 2020 | | | | | PRIFYSGOL 2020 | | | | | CYFUNOL 2019 | | | | | PRIFYSGOL 2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Cyflogau | Arall | Llog | Dibrisiant | Cyfanswm | Cyflogau | Arall | Llog | Dibrisiant | Cyfanswm | Cyflogau | Arall | Llog | Dibrisiant | Cyfanswm | Cyflogau | Arall | Llog | Dibrisiant | Cyfanswm |
| Adrannau Academaidd | 97,238 | 20,757 | 3 | 2,600 | 120,598 | 97,238 | 20,757 | 4 | 2,600 | 120,599 | 91,665 | 34,457 | - | 10 | 126,132 | 91,665 | 34,457 | - | 10 | 126,132 |
| Gwasanaethau Academaidd | 13,057 | 11,960 | - | - | 25,017 | 13,057 | 11,960 | - | - | 25,017 | 12,181 | 11,454 | - | 1,626 | 25,261 | 12,181 | 11,454 | - | 1,626 | 25,261 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 32,004 | 13,993 | - | 6,995 | 52,992 | 32,004 | 13,993 | - | 6,995 | 52,992 | 31,053 | 19,674 | - | 7,071 | 57,798 | 31,053 | 19,674 | - | 7,071 | 57,798 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 2,895 | 23,349 | - | - | 26,244 | 2,895 | 23,349 | - | - | 26,244 | 3,179 | 24,262 | - | 8 | 27,449 | 3,179 | 24,262 | - | 8 | 27,449 |
| Mangreoedd | 5,159 | 15,047 | 3,071 | 7,079 | 30,356 | 5,159 | 15,047 | 3,071 | 7,079 | 30,356 | 6,427 | 18,835 | 2,092 | 6,120 | 33,474 | 6,427 | 18,835 | 2,092 | 6,120 | 33,474 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | 30,055 | 17,420 | - | - | 47,475 | 30,055 | 17,420 | - | - | 47,475 | 28,324 | 22,342 | 30 | - | 50,696 | 28,324 | 22,342 | 30 | - | 50,696 |
| Tâl diffyg cynllun pensiwn USS | (41,141) | - | 1,437 | - | (39,704) | (41,141) | - | 1,437 | - | (39,704) | 56,935 | - | 686 | - | 57,621 | 56,935 | - | 686 | - | 57,621 |
| Treuliau gweithredu eraill | 9,712 | 777 | 4,425 | 7,197 | 22,111 | 9,353 | 294 | 4,422 | 7,064 | 21,133 | 5,003 | (170) | 4,501 | 7,196 | 16,530 | 4,603 | 91 | 4,501 | 7,063 | 16,258 |
| **Cyfanswm gwariant** | **148,979** | **103,303** | **8,936** | **23,871** | **285,089** | **148,620** | **102,820** | **8,934** | **23,738** | **284,112** | 234,767 | 130,854 | 7,309 | 22,031 | 394,961 | 234,367 | 131,115 | 7,309 | 21,898 | 394,689 |

| MAE TREULIAU GWEITHREDU ERAILL YN CYNNWYS: | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 10,283 | 10,360 |
| Costau ailstrwythuro | 5,612 | 459 |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith ailstrwythuro sylweddol yn y sefydliad a arweiniodd at dalu £5,612k am golli swyddi (gweler nodyn 7)

| TÂL ARCHWILWYR ALLANOL | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Archwiliad o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau | **83** | 266 |
| Gwasanaethau sicrwydd sy'n ymwneud â'r archwiliad | **52** | 342 |
| Gwasanaethau Trethiant | **27** | 56 |

Mae ffioedd yr archwilwyr allanol yn 2019 yn cynnwys costau mewn perthynas â'r ymchwiliad yn 2018 a gwaith archwilio ychwanegol o ganlyniad i'r ymchwiliad.

| | NODIADAU | CYFUNOL | PRIFYSGOL | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **DIWEDD Y FLWYDDYN 2020** | **DIWEDD Y FLWYDDYN 2020** | DIWEDD Y FLWYDDYN 2019 | DIWEDD Y FLWYDDYN 2019 |
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **10 TRETHIANT** | | | | | |
| **Cydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** | | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **TRETH GYFREDOL** | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Treuliau treth cyfredol | | **14** | **-** | 15 | - |
| **Treuliau treth cyfredol** | | **14** | **-** | 15 | - |
| **Cyfanswm treuliau treth** | | **14** | **-** | 15 | - |

## 11 ASEDAU ANGHYFREDOL - ASEDAU SEFYDLOG - CYFUNOL

| | TIR AC ADEILADAU RHYDD-DDALIAD | TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH | GOSODIADAU, FFITIADAU A CHYFARPAR | LLONGAU | ASEDAU YNG NGHWRS ADEILADU | ASEDAU TREFTADAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 358,313 | 150,777 | 37,718 | 1,566 | 8,682 | 945 | 558,001 |
| Ychwanegiadau | - | 3,425 | 6,313 | - | 7,995 | - | 17,733 |
| Trosglwyddiadau | 12,375 | - | - | - | (12,375) | - | - |
| Gwarediadau | (1,327) | - | - | - | - | - | (1,327) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **369,361** | **154,202** | **44,031** | **1,566** | **4,302** | **945** | **574,407** |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 44,686 | - | - | - | - | - | 44,686 |
| Cost | 324,675 | 154,202 | 44,031 | 1,566 | 4,302 | 945 | 529,721 |
| | **369,361** | **154,202** | **44,031** | **1,566** | **4,302** | **945** | **574,407** |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 42,087 | 31,660 | 24,729 | 10 | - | - | 98,486 |
| Tâl am y flwyddyn | 11,456 | 7,062 | 5,290 | 63 | - | - | 23,871 |
| Gwarediadau | (797) | - | | - | - | - | (797) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **52,746** | **38,722** | **30,019** | **73** | **-** | **-** | **121,560** |
| **SWM CARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | **316,615** | **115,480** | **14,012** | **1,493** | **4,302** | **945** | **452,847** |
| Ar 1 Awst 2019 | **316,226** | **119,117** | **12,989** | **1,556** | **8,682** | **945** | **459,515** |

### ASEDAU ANGHYFREDOL - ASEDAU SEFYDLOG - Y BRIFYSGOL

| | TIR AC ADEILADAU RHYDD-DDALIAD | TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH | GOSODIADAU, FFITIADAU A CHYFARPAR | LLONGAU | ASEDAU YNG NGHWRS ADEILADU | ASEDAU TREFTADAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 358,313 | 150,777 | 35,921 | 1,566 | 8,682 | 945 | 556,204 |
| Ychwanegiadau | | 3,425 | 6,114 | - | 7,995 | | 17,534 |
| Trosglwyddiadau | 12,375 | | | | (12,375) | | |
| Gwarediadau | (1,327) | | | | | | (1,327) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | **369,361** | **154,202** | **42,035** | **1,566** | **4,302** | **945** | **572,411** |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 44,686 | - | - | - | - | - | 44,686 |
| Cost | 324,675 | 154,202 | 42,035 | 1,566 | 4,302 | 945 | 527,725 |
| | **369,361** | **154,202** | **42,035** | **1,566** | **4,302** | **945** | **572,411** |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 42,087 | 31,660 | 23,934 | 10 | - | - | 97,691 |
| Tâl am y flwyddyn | 11,456 | 7,062 | 5,157 | 63 | - | - | 23,738 |
| Gwarediadau | (797) | - | | - | - | - | (797) |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | **52,746** | **38,722** | **29,091** | **73** | **-** | **-** | **120,632** |
| **SWM CARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | **316,615** | **115,480** | **12,944** | **1,493** | **4,302** | **945** | **451,779** |
| Ar 1 Awst 2019 | **316,226** | **119,117** | **11,987** | **1,556** | **8,682** | **945** | **458,513** |

Prisiwyd tir ac eiddo'r Brifysgol yn llawn ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig, yn unol â Safonau Prisio Proffesiynol RICS 2014 (y Llyfr Coch). Yn unol â FRS 102, Paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad pontio, 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw. Mae'r eiddo yn cael eu dibrisio o'r dyddiad prisio. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa dibrisiant wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn.

Ar 31 Gorffennaf 2020, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £16.5 miliwn (2019: £16.5 miliwn) o ran tir rhydd-ddaliad nad yw wedi ei ddibrisio.

## 12 ASEDAU ANGHYFREDOL - ASEDAU TREFTADAETH

Mae asedau treftadaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Yn ogystal, ceir asedau treftadaeth eraill sy'n amhrisiadwy oherwydd eu natur, felly ni chawsant eu cynnwys.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn cadw'r Casgliad Wellcome, sy'n cynnwys hynafiaethau ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae'n bartner ACCES cydnabyddedig. Nod y Ganolfan Eifftaidd yw casglu, dehongli a gofalu am ddeunyddiau a dogfennau archeolegol Eifftaidd, ac mae cadwraeth yn rhan hollbwysig o'i gwaith. Caiff yr holl bolisïau eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae'r Casgliad Wellcome ar gael i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd ei weld.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Asedau Treftadaeth (gweler Nodyn 12). Prisiwyd y casgliad hwn yn 2008 gan brisiwr annibynnol a chymerwyd yr ailbrisiad hwn fel y gost dybiedig adeg pontio. Gellir gweld y mwyafrif o'r casgliad celf ledled y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd, sy'n cynnwys powlenni, fasau a chwpanau cystadlaethau yn dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir prisio'r casgliad hwn, felly nid ydynt yn ymddangos ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cedwir y casgliad yn ddiogel, ond mae ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae'r Brifysgol hefyd yn berchen ar lawysgrifau gan Dylan Thomas a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd y Brifysgol.

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Nid oedd caffaeliadau yn y flwyddyn (2019: £20,000)** | | |
| Caffaeliadau a brynwyd drwy roddion penodol | | - |
| Caffaeliadau a brynwyd drwy gronfeydd y Brifysgol | | 20 |
| Cyfanswm cost y caffaeliadau a brynwyd | | 20 |
| Gwerth caffaeliadau drwy roddion | | - |
| Cyfanswm y caffaeliadau a gyfalafwyd | - | 20 |

## 13 TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe threfniant consesiwn gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol

### NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Gwerth asedau'r trefniadau consesiwn gwasanaeth a gynhwyswyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2020 yw £115,480 (1 Awst 2019 £119,117K).

Mae'r gostyngiad o £3,639k o ganlyniad i ddibrisiant o £7,063k namyn ychwanegiad o £3,424 yn sgil y warant ychwanegol a roddwyd ar dair preswylfa ar Gampws y Bae, a gynyddodd y warant feddiannaeth o 50% i 100% am un flwyddyn academaidd yn unig.

### NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Cyfanswm y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â threfniadau consesiwn gwasanaeth a gynhwyswyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2020 oedd £124,916k (1 Awst 2019 £127,737k). Cafwyd gostyngiad o £6,245k yn y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn yn dilyn ad-daliad ac addasiadau cyfrifyddu. Rhoddwyd gwarantau meddiannaeth ychwanegol yn y flwyddyn mewn perthynas â'r tair preswylfa ar Gampws y Bae, gan ychwanegu £3,424k at y rhwymedigaeth a lleihau'r gostyngiad cyffredinol yn y rhwymedigaeth i £2,821k.

### YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â'r trefniadau consesiwn gwasanaeth.

| £'000 | TALADWY MEWN 1 FLWYDDYN | TALADWY MEWN 2-5 MLYNEDD | TALADWY MEWN >5 MLYNEDD | CYFAN-SWM |
|---|---|---|---|---|
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6,325 | 12,469 | 106,122 | 124,916 |
| Tâl cyllid | 3,141 | 11,698 | 42,859 | 57,698 |
| | **9,466** | **24,167** | **148,981** | **182,614** |

Cyn diweddaru'r Datganiadau Ariannol i adlewyrchu FRS102, roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn y gorffennol. Mae'r prydlesi hyn bellach wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y trefniadau hyn.

## 13 TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH - PARHAD

### PRESWYLFEYDD GWALIA

Cam 1 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd yr ymrwymwyd iddi yn 2004 i adeiladu tri bloc newydd o lety yn cynnwys 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%.

Cam 2 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd yr ymrwymwyd iddi yn 2010 yn cynnwys 351 o unedau, gan gadw'r lloriau isaf ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol. Y warant feddiannaeth yw 100%.

### PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A

Ym mis Medi 2015, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1a llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 899 o ystafelloedd ar gyfer 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, ymrwymodd y trydydd parti - â chydsyniad y Brifysgol - i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn ôl telerau'r cytundeb newydd, estynnwyd y brydles i 2062.

Cydnabyddir yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol o £1,485k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol yr hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

### PRESWYLFEYDD Y BAE - CAM 1B

Ym mis Ionawr 2016, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1b llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn wedi eu cydnabod yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol ymrwymedig o £823k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

### PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C

Ar 15 Rhagfyr 2015, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1c llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 538 o ystafelloedd sengl.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn wedi eu cydnabod yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol o £1,056k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

### ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG

Ar 8 Medi 2017, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 20 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Adeilad Academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi gwarantu 35% o'r adeilad sy'n golygu taliadau gros blynyddol ymrwymedig o £357,000.

Mae gan y Brifysgol hawliau unigryw dros y 35% o'r adeilad a ddynodwyd iddi ac mae'n rheoli defnydd yn yr ardal hon.

## 14 BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

| | IS-GWMNÏAU | BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG ERAILL | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | **£000** |
| **CYFUNOL** | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | - | 591 | **591** |
| Ychwanegiadau | | - | **-** |
| Ailbrisiadau | | (183) | **(183)** |
| Gwarediadau | | (25) | **(25)** |
| Amhariad | | 69 | **69** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **-** | **452** | **452** |
| **PRIFYSGOL** | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 2,389 | - | **2,389** |
| Ychwanegiadau | | | **-** |
| Gwarediadau | | | **-** |
| Amhariad | | | **-** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **2,389** | **-** | **2,389** |

Dangosir isod fanylion buddsoddiadau lle mae'r grŵp cyfunol a'r Brifysgol yn meddu ar 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddosbarth o gyfranddaliadau:

| CWMNI | CYFEIRIAD COFRESTREDIG | PRIF WEITHGAREDD | CYFRANDDALIAD |
|---|---|---|---|
| HPC Wales | Cae Derwen, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, Cymru, LL57 2DG | Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhywle arall | 25% |
| ProGnomics Ltd | D/O Baldwins,Tŷ Caer, Charter Court, Ffordd y Ffenics, Parc Menter, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA7 9FS | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 20% |
| Teclyn Ltd | 456 Ffordd Gŵyr, Cilâ, Abertawe, Cymru, SA2 7AL | Segur | 20% |
| Gower Innovations Ltd | Yr Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe, Ffordd Fabian, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA1 8EN | Gweithgareddau gweithgynhyrchu eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhywle arall | 20% |
| SPMicrotech Ltd | Mha Broomfield Alexander, Charter Court, Ffordd y Ffenics, Parc Menter, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Trovinos Ltd | D/O Baldwins, Charter Court, Parc Menter Abertawe, Abertawe, Cymru, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Grove Nanomaterials Ltd | D/O Baldwins, Charter Court, Parc Menter Abertawe, Abertawe, Cymru, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Reflex Ltd | D/O Baldwins,Tŷ Caer, Charter Court, Ffordd y Ffenics, Parc Menter, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Procoll Ltd | D/O Baldwins,Tŷ Caer, Charter Court, Ffordd y Ffenics, Parc Menter, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA7 9FS | Segur | 20% |
| PulmonIR Ltd | Y Sefydliad Gwyddor Bywyd, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, Cymru, SA2 8PP | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 24% |
| Trameto Ltd | D/O Baldwins,Tŷ Caer, Charter Court, Ffordd y Ffenics, Parc Menter, Abertawe, y Deyrnas Unedig, SA7 9FS | Gweithgynhyrchu cydrannau electronig | 25% |
| Bay Campus Developments LLP | Yr Adran Gyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, Cymru SA2 8PP | Segur | 50% |
| WNPS | Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe, Lôn Sgeti, Abertawe, SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | 50% |
| Swan Global Education | Littlemore Park, Armstrong Road, Rhydychen, Swydd Rydychen, OX4 4FY | Addysgol | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Yr Adeilad Cyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 100% |
| Swansea Innovations | Yr Adeilad Cyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP | Gweithgareddau ymgynghori rheoli ac eithrio rheolaeth ariannol | 100% |

## 14 BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL - PARHAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| SU Developments | Yr Adran Gyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, Cymru SA2 8PP | Segur | 100% |
| SU Pathway College Ltd | Yr Adeilad Cyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP | Gweithgareddau cefnogi cyfleusterau cyfunol | 100% |
| The Dylan Thomas Prize | Yr Adran Gyllid, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, Cymru SA2 8PP | Addysg Ddiwylliannol | 100% |

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu mesur ar sail pris trafodion (gan gynnwys costau trafodion) a chânt eu hystyried yn flynyddol am amhariad. Mae nodyn 30 yn cynnwys rhestr lawn o is-gwmnïau.

Nid oes dyletswydd ar y Brifysgol i ddatgelu trafodion eraill mewn perthynas â thrydydd partïon am eu bod yn gwmnïau y perchnogir arnynt yn gyfan gwbl o fewn y grŵp.

## 15 BUDDSODDIAD MEWN CYD-FENTRAU

Mae gan y Brifysgol y cyd-fentrau canlynol:

Mae'r Brifysgol yn cydreoli **High Performance Computing Wales Ltd (HPC)** sy'n gwmni cyfyngedig trwy warant. Mae hwn yn gwmni menter ar y cyd y mae'r Brifysgol yn berchen arno'n gydradd gyda Phrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, a chyfrifir amdano gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol y fenter ar y cyd ganlynol sy'n segur ar hyn o bryd:

Cyfran 50% o **Bay Campus Developments LLP**, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n segur ar hyn o bryd. Mae hon yn bartneriaeth menter ar y cyd y mae'r Brifysgol (drwy is-gwmni y mae'n berchen arno'n llwyr, SU Developments Limited) a St Modwen Developments Limited yn berchen arni'n gydradd.

Am fod y cwmni hwn yn segur, heb asedau na rhwymedigaethau, nid oes unrhyw gofnodion cyfrifyddu eleni.

| | **DIWEDD Y FLWYDDYN 2020** | DIWEDD Y FLWYDDYN 2019 | | |
|---|---|---|---|---|
| | **HPC** | WNPS | SWAN GLOBAL EDUCATION | HPC |
| | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| **INCWM A GWARIANT** | | | | |
| Incwm | - | 661 | 2,870 | |
| Elw / (cyllid) | - | (254) | (10) | |
| **MANTOLEN** | | | | |
| Asedau sefydlog | - | 2,309 | 212 | - |
| Asedau cyfredol | **29** | 389 | 2,099 | 36 |
| | **29** | 2,698 | 2,311 | 36 |
| Credydwyr <1 flwyddyn | **(29)** | (182) | (2,321) | (36) |
| Credydwyr >1 flwyddyn | - | - | - | - |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | - | (236) | - | - |
| | **(29)** | (418) | (2,321) | (36) |
| Cyfran asedau net | - | 2,280 | (10) | - |

### GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn rhan o nifer o gontractau ymchwil ar y cyd â phrifysgolion eraill a chontractau ar y cyd â phartneriaid eraill. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn cydweithredu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddarparu cyrsiau yn y gwyddorau meddygol ac iechyd o safon uchel. Mae'r cydweithrediadau hyn yn galluogi ymarferwyr iechyd proffesiynol i addysgu myfyrwyr y Brifysgol, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd ym maes ymchwil barhaus. Mae cydweithrediadau â phrifysgolion partner ar brosiectau ymchwil amrywiol yn cynnwys, er enghraifft, ASTUTE 2020, Uwchgyfrifiadura Cymru a'r Rhwydwaith Arloesi Celtaidd ar gyfer Gwyddorau Bywyd Uwch. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydweithredu â phartneriaid diwydiannol, llywodraethol ac elusennol i ymgymryd ag ymchwil bellach. Yr incwm o drefniadau o'r fath yn 2020 oedd £31.7miliwn (2019: £35.9 miliwn).

### BUDDSODDIADAU MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL

Drwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiad y Fantolen, roedd gan y Brifysgol fuddsoddiadau 50% yn y cwmnïau cysylltiol, Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2019: Sero) a Swan Global Education LLP (2019: Sero). Cyfrifwyd am y berthynas â'r ddau gwmni gan ddefnyddio'r dull ecwiti, i'r perwyl y cafodd 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmnïau eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a chofnodwyd 50% o'r incwm net yng nghyfrif incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol. Cyfrifwyd am y cwmnïau o'r blaen fel mentrau ar y cyd. Mae dosbarthiad y ddau fuddsoddiad wedi cael ei ailystyried, bellach, ystyrir bod y buddsoddiadau'n fuddsoddiadau mewn Cwmnïau Cysylltiol yn hytrach nag mewn Mentrau ar y Cyd.



## 15 BUDDSODDIAD MEWN CYD-FENTRAU - PARHAD

| | **Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2020** | |
|---|---|---|
| | **WNPS** | **SWAN GLOBAL EDUCATION** |
| | **£000** | **£000** |
| **INCWM A GWARIANT** | | |
| Incwm | **547** | **3,133** |
| Elw / (colled) | **(254)** | **-** |
| **MANTOLEN** | | |
| Asedau sefydlog | **2,044** | **273** |
| Asedau cyfredol | **518** | **1,805** |
| | **2,562** | **2,078** |
| Credydwyr <1 flwyddyn | **(322)** | **(2,088)** |
| Credydwyr >1 flwyddyn | **-** | **-** |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | **(214)** | **-** |
| | **(536)** | **(2,088)** |
| Cyfran asedau net | **2,026** | **(10)** |

## 16 STOC

| | **CYFUNOL** | **PRIFYSGOL** | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Stoc | **13** | **13** | 38 | 38 |
| Gwaith ar y gweill | **145** | **-** | 88 | - |
| | **158** | **13** | 126 | 38 |

## 17 BUDDSODDIADAU CYFREDOL

| | **CYFUNOL** | **PRIFYSGOL** | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Buddsoddiadau tymor byr mewn cyfranddaliadau | **1,832** | **1,832** | 3,184 | 3,184 |
| Bondiau tymor byr | **2,295** | **2,295** | 1,308 | 1,308 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | **472** | **472** | 271 | 271 |
| Adneuon tymor byr eraill | **256** | **256** | 137 | 137 |
| | **4,855** | **4,855** | 4,899 | 4,899 |

Y gostyngiad yng ngwerth teg adneuon tymor byr yn y flwyddyn oedd £44,000 (2019: cynnydd o £121,000)

Cedwir adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n gweithredu ym marchnad Llundain a thrwyddedau gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol â thros dri mis o aeddfedrwydd ar ddyddiad y fantolen. Mae'r cyfraddau llog ar gyfer yr adneuon hynny'n sefydlog am gyfnod yr adneuon adeg eu gosod.

Ar 31 Gorffennaf 2020, cyfradd llog gyfartalog bwysol yr adneuon sefydlog hyn oedd 1% (2019: 3.70%). Nid oedd gwerth teg yr adneuon hyn yn sylweddol wahanol i'w gwerth llyfr. Gostyngodd yr arenillion yn y flwyddyn oherwydd pandemig Covid-19 wrth i gwmnïau dorri eu taliadau difidend. Felly, nid yw'r arenillion yn adlewyrchiad cywir o'r arenillion disgwyliedig pe na bai'r pandemig wedi digwydd.

## 18 MASNACH AC ARIAN TALADWY ARALL

| | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn: | | | | |
| Dyledwyr Masnach | **6,965** | **6,799** | 11,078 | 10,546 |
| Llai darpariaeth am amhariad dyledwyr masnach | **(987)** | **(987)** | (900) | (900) |
| Dyledwyr masnach net | **5,978** | **5,812** | 10,178 | 9,646 |
| Hawliadau grant ymchwil dyledus | **6,827** | **6,827** | 11,723 | 11,723 |
| Incwm cronedig - Grantiau ymchwil | **12,831** | **12,831** | 15,265 | 15,265 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig arall | **13,915** | **13,656** | 25,864 | 26,262 |
| Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp | **-** | **1** | - | (4) |
| | **39,551** | **39,127** | 63,030 | 62,892 |

## 19 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN UN FLWYDDYN

| | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gorddrafft banc | **253** | **-** | 2,547 | - |
| Benthyciadau anwarantedig | **2,976** | **2,976** | 111,323 | 111,323 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | **6,325** | **6,325** | 6,245 | 6,245 |
| Symiau masnach sy'n daladwy | **7,122** | **7,122** | 8,000 | 8,000 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall i'w talu | **5,833** | **5,827** | 4,062 | 4,063 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **48,131** | **47,692** | 59,269 | 59,457 |
| Symiau sy'n ddyledus o fentrau grŵp | **-** | **134** | - | - |
| | **70,640** | **70,076** | 191,446 | 189,088 |

### CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG

Mae r eitemau canlynol sydd wedi u gohirio wedi u cynnwys o fewn croniadau ac incwm gohiriedig:

| | 2020 £000 | 2020 £000 | 2019 £000 | 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ymlaen llaw | **13,590** | **13,590** | 10,270 | 10,270 |
| Gwasanaethau eraill a dderbyniwyd ymlaen llaw | **927** | **927** | 809 | 809 |
| Grantiau'r Cyngor Cyllido a dderbyniwyd ymlaen llaw | **3,405** | **3,405** | 633 | 633 |
| Grantiau eraill a dderbyniwyd ymlaen llaw | **2,647** | **2,647** | 8,700 | 8,700 |
| Croniadau eraill | **27,562** | **27,123** | 38,857 | 39,045 |
| | **48,131** | **47,692** | 59,269 | 59,457 |

## 20 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | CYFUNOL 2020 £000 | PRIFYSGOL 2020 £000 | CYFUNOL 2019 £000 | PRIFYSGOL 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | **118,591** | **118,591** | 121,492 | 121,492 |
| Incwm ymlaen llaw | **1,812** | **1,812** | - | - |
| **DADANSODDIAD O FENTHYCIADAU ANWARANTEDIG:** | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar alwad | **2,976** | **2,976** | 111,323 | 111,323 |
| Yn ddyledus o fewn un i ddwy flynedd | **5,001** | **5,001** | - | - |
| Yn ddyledus o fewn dwy i bum mlynedd | **15,621** | **15,621** | - | - |
| Yn ddyledus mewn pum mlynedd neu fwy | **85,632** | **85,632** | - | - |
| **Cyfanswm benthyciadau anwarantedig sy'n daladwy erbyn 2044** | **109,230** | **109,230** | 111,323 | 111,323 |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar alwad | **2,976** | **2,976** | 111,323 | 111,323 |
| Credydwyr sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | **226,657** | **226,657** | 121,492 | 121,492 |

Mae r canlynol wedi u cynnwys yn y benthyciadau:

| | SWM £000 | CYFRADD LLOG | CYFNOD | BENTHYCIWR |
|---|---|---|---|---|
| **BENTHYCIWR** | | | | |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 10,833 | Sefydlog 2.46600% | Mehefin 2033 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 11,667 | Sefydlog 2.31300% | Ionawr 2034 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 8,756 | Sefydlog 3.7330% | Awst 2034 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 8,768 | Sefydlog 3.8540% | Ionawr 2035 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 9,206 | Sefydlog 4.0220% | Awst 2035 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 60,000 | Sefydlog 2.4480% | Ebrill 2044 | Prifysgol |
| **Cyfanswm** | **109,230** | | | |

## 21 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| | RHWYMEDIGAETH I ARIANNU DIFFYG USS | DARPARIAETH CYNLLUN PENSIWN SUPS | CYFANSWM DARPARIAETHAU PENSIWN |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Ar 1 Awst 2019** | 88,678 | 59,900 | 148,578 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (1,772) | 1,000 | (772) |
| Ailbrisiad y cynllun pensiwn | (39,368) | - | (39,368) |
| Ychwanegiadau yn y flwyddyn | 1,436 | 10,800 | 12,236 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **48,974** | **71,700** | **120,674** |

Mae'r rhwymedigaeth i ariannu'r diffyg hanesyddol yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) yn deillio o'r rhwymedigaeth dan gontract â'r USS i ariannu taliadau diffyg yn unol â'r cynllun adennill diffyg. Wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon, mae'r rheolwyr wedi amcangyfrif niferoedd staff yng nghynllun yr USS yn y dyfodol ar gyfer cyfnod y rhwymedigaeth dan gontract a chwyddiant cyflogau. Nodir tybiaethau allweddol isod a darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 31.

Ar ôl cwblhau prisiad actiwaraidd 2018, cytunwyd ar gynllun newydd i adennill y diffyg a cheir rhagor o fanylion am hwn yn nodyn 31. Mae'r cynllun newydd hwn yn gofyn am daliadau diffyg cyfwerth â 2% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 ac wedi hynny daliadau cyfwerth â 6% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2028. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer diffyg wedi lleihau'n sylweddol o'r flwyddyn flaenorol ac mae £39,368k o hyn o ganlyniad i'r newid yn yr ymrwymiad dan gontract i dalu cyfraniadau at y diffyg.

Y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaeth i'r USS yw:

| | **2020** | **2019** |
|---|---|---|
| Cyfradd Ddisgownt | 0.74% | 1.62% |
| Twf mewn cyflogau pensiynadwy | 3.20% | 4.17% |

**Dadansoddiad Sensitifrwydd - USS**

| | Amcangyfrif o'r effaith ar ddarpariaeth |
|---|---|
| | £000 |
| Gostyngiad 0.5% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgownt | 1,191 |
| Cynnydd 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau dros gyfnod y cynllun | 1,149 |
| Cynnydd 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau am flwyddyn 1 yn unig | 237 |
| Cynnydd 0.5% mewn newidiadau staff dros gyfnod y cynllun | 1,202 |
| Cynnydd 0.5% mewn newidiadau staff am flwyddyn 1 yn unig | 235 |
| Cynnydd 1% mewn cyfraniadau at y diffyg | 9,036 |

## 22 CRONFEYDD GWADDOL

Mae'r asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn:

| | GWADDOLION PARHAOL CYFYNGEDIG | GWADDOLION PARHAOL ANGHYFYNGEDIG | GWADDOLION I'W GWARIO | CYFANSWM 2020 | CYFANSWM 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balansau** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| **Ar 1 Awst 2019** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,083 | 1,540 | 364 | **5,987** | 5,736 |
| Incwm cronedig | 657 | 62 | 68 | **787** | 700 |
| | 4,740 | 1,602 | 432 | **6,774** | 6,436 |
| Rhoddion a gwaddolion newydd | - | - | 4 | **4** | 130 |
| Trosglwyddo gwaddolion | (159) | - | 159 | **-** | - |
| Incwm o fuddsoddiadau | 60 | - | 4 | **64** | 199 |
| Gwariant | (39) | - | (3) | **(42)** | (112) |
| Cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 112 | 66 | 3 | **181** | 121 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **4,714** | **1,668** | **599** | **6.981** | 6,774 |
| Cynrychiolwyd gan: | | | | | |
| Cyfalaf | 4,036 | 1,606 | 530 | **6,172** | 5,987 |
| Incwm cronedig | 678 | 62 | 69 | **809** | 787 |
| | **4,714** | **1,668** | **599** | **6,981** | 6,774 |

| | CYFANSWM 2020 | CYFANSWM 2020 |
|---|---|---|
| **Balansau** | **£000** | £000 |
| **Dadansoddiad fesul math o ddiben:** | | |
| Swyddi Darlithio | **21** | 23 |
| Ysgoloriaethau a bwrsariaethau | **2,935** | 2,870 |
| Cymorth ymchwil | **290** | 280 |
| Cronfeydd gwobrau | **862** | 795 |
| Cyffredinol | **2,873** | 2,806 |
| | **6,981** | 6,774 |
| **Dadansoddiad fesul Ased** | | |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol | **4,855** | 4,898 |
| Balans banc – y Brifysgol | **2,126** | 1,876 |
| | **6,981** | 6,774 |

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 55 o waddolion gwahanol, sef cyfanswm o £159,000 eu datod a daethant ar gael i'w gwario. Mae'r gwaddolion hyn yn cael eu dal yn y gronfa gwaddolion i'w gwario wrth gefn â'r un diben a chyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr gwreiddiol, heblaw am barhauster. Prisiwyd bod pob gwaddol unigol yn werth llai na £10,000 ac nid oedd yn cynhyrchu incwm digonol bellach i ddefnyddio'r gwaddol i gyflawni'r dibenion gwreiddiol.

## 23 CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG

Nid oedd unrhyw gronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn ystod y flwyddyn (2019: DIM).

## 24 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | AR 1 AWST 2019 | LLIFOEDD ARIAN PAROD | AR 31 GORFFENNAF 2020 |
|---|---|---|---|
| **CYFUNOL** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod | 89,641 | 8,001 | 97,642 |
| Gorddrafft Banc | (151) | (102) | (253) |
| | **89,490** | **7,899** | **97,389** |

| | 31 GORFFENNAF 2020 |
|---|---|
| **Cysoniad cyfunol dyled net** | **£000** |
| **Dyled net 1 Awst 2019** | **149,570** |
| Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | 8,001 |
| Prydlesi cyllid newydd | (3,424) |
| Newidiadau anariannol eraill | (17,390) |
| Dyled net 31 Gorffennaf 2020 | **136,757** |
| **Newid mewn dyled net** | (12,813) |

| | 31 GORFFENNAF 2020 | 31 GORFFENNAF 2019 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o ddyled net:** | **£000** | **£000** |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod** | **97,642** | **89,641** |
| **Benthyciadau: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn** | | |
| Benthyciadau anwarantedig | 2,976 | 111,323 |
| Gorddrafft banc | 253 | 151 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 6,325 | 6,245 |
| | **9,554** | **117,719** |
| **Benthyciadau: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | 118,591 | 121,492 |
| Benthyciadau anwarantedig | 106,254 | - |
| | **224,845** | **121,492** |
| | | |
| **Dyled net** | **136,757** | **149,570** |

## 25 OFFERYNNAU ARIANNOL

Ni wnaed darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2020:

| | NODIADAU | CYFUNOL | PRIFYSGOL | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| **ASEDAU ARIANNOL** | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Asedau ariannol ar werth teg trwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | | 354 | | 510 | |
| Asedau ariannol sy n offerynnau ecwiti wedi u mesur ar gost llai amhariad | | | | | |
| Buddsoddiadau eraill | | 98 | - | 81 | - |
| | 14 | **452** | **-** | **591** | **-** |
| Asedau ariannol sy'n offerynnau dyled wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig | | | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 97,389 | 97,117 | 89,490 | 86,943 |
| Buddsoddiadau eraill | 17 | 4,855 | 4,855 | 4,899 | 4,899 |
| Derbyniadau masnach | 18 | 6,965 | 6,799 | 11,078 | 10,546 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 18 | 6,827 | 6,827 | 11,723 | 11,723 |
| | | **116,036** | **115,598** | **117,190** | **114,111** |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | | | | |
| Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost amorteiddiedig | | | | | |
| Gorddrafft banc | 19 | 253 | - | 2,547 | - |
| Benthyciadau | 20 | 109,230 | 109,230 | 111,323 | 111,323 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 19/20 | 124,916 | 124,916 | 127,737 | 127,737 |
| Symiau masnach sy'n daladwy | 19 | 7,122 | 7,122 | 8,000 | 8,000 |
| | | **241,521** | **241,268** | **249,607** | **247,060** |

## 26 CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL

Ni wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2020:

| | CYFUNOL | PRIFYSGOL | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau cyfalaf: | **1,256** | **1,256** | 7,729 | 7,729 |
| | **1,256** | **1,256** | 7,729 | 7,729 |

Mae'r gostyngiad yn yr ymrwymiadau cyfalaf o ganlyniad i ostyngiad yn y gwaith cyfalaf cynlluniedig ar gyfer y 12 mis nesaf.

## 27 RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

Ni wnaed darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2020:

| | CYFUNOL | PRIFYSGOL | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| Gwarantau | | | | |
| I Lloyds ar gyfer SMaRT Ltd | **-** | **500** | - | 500 |
| | **-** | **500** | - | 500 |

## 27 RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL - PARHAD

Mae'r Brifysgol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Limited mewn perthynas â'r gorddrafft o £500,000 yn unig. Cred y Brifysgol fod posibilrwydd bach yn unig y bydd angen talu'r warant oherwydd bod Swansea Materials Research & Testing Limited yn is-gwmni y mae'n berchen yn llwyr arno ac a reolir gan uwch staff y Brifysgol. Mae'r graddau y bydd angen y warant yn dibynnu ar y gorddrafft cyfredol yn yr is-gwmni. Os caiff ei thalu, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ad-daliad ar gyfer y rhwymedigaeth ddigwyddiadol hon.

Mae'r Brifysgol yn aelod o UMAL, cwmni cyfyngedig drwy warant, a sefydlwyd i ddarparu cydgymdeithas ar gyfer risgiau yswiriant. O dan delerau ei aelodaeth, mae pob aelod yn gweithredu fel yswiriwr ac yswiriedig. Os bydd y gymdeithas gyfan yn dioddef diffyg mewn unrhyw flwyddyn warantu, mae'r aelodau'n atebol am eu cyfran sydd wedi'i dosbarthu'n gymesur, a ledaenir gan ddefnyddio cyfleuster benthyg mewnol dros saith mlynedd. Mae'r potensial ar gyfer diffyg a gwerth y diffyg mewn unrhyw flwyddyn benodol yn anhysbys. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw bosibilrwydd o ad-daliad os gelwir ar y warant hon.

Mae'r Brifysgol yn un o bedwar sefydliad sy'n gweithredu fel gwarantwyr yn High Performance Computing Wales (HPC Wales) ac sy'n cyd-reoli'r cwmni (cyfran 25% o'r rheolaeth). Mae HPC Wales wedi'i ariannu'n rhannol gan gronfeydd a dynnir i lawr o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cwmni'n destun archwiliadau rheolaidd am gydymffurfiaeth ac, o ganlyniad, mae perygl y cymerir cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn ôl, os na fodlonir meini prawf penodol. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'r Brifysgol yn gyfrifol am gyfran o'r swm i'w ad-dalu. Mae gwerth unrhyw symiau i'w had-dalu a'r tebygolrwydd y cymerir unrhyw arian yn ôl yn anhysbys. Mae'n annhebygol y bydd ad-daliad os gelwir ar y warant hon.

Mae'r sefydliad wedi rhoi ymrwymiadau ysgrifenedig i gefnogi'r is-gwmnïau a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i Gynllun Ymadael yn Wirfoddol lle telir taliadau digolledu uwch i aelodau staff sy'n dymuno gadael y Brifysgol yn wirfoddol. Sefydlwyd y cynllun yn 2019/20 a gwnaed darpariaeth briodol ar gyfer y flwyddyn honno. Parhaodd y cynllun i weithredu ar ôl diwedd y flwyddyn ac mae'n debygol y bydd ymrwymiadau pellach, ond nid yw'n bosib mesur y rhain yn ddigon manwl gywir, felly nid oes ffigur wedi'i ddatgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

## 28 RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Cyfanswm rhenti i'w talu o dan brydlesi gweithredu:

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| **CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** | **TIR AC ADEILADAU** | TIR AC ADEILADAU |
| | **£'000** | £'000 |
| **Taladwy yn ystod y flwyddyn** | **1,011** | 832 |
| **Isafswm taliadau prydlesi dyledus yn y dyfodol** | | |
| O fewn blwyddyn | **694** | 918 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | **1,697** | 2,177 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | **5,072** | 5,575 |
| **Cyfanswm taliadau prydlesi dyledus** | **8,474** | 9,502 |

Nid ymrwymwyd i brydlesi newydd yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd costau prydlesi yn ystod y flwyddyn oherwydd y taliadau prydles blwyddyn lawn ar brydlesi yr ymrwymwyd iddynt hanner ffordd drwy'r flwyddyn flaenorol. Ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd Ward 10 yn Ysbyty Singleton yn ôl i'r ysbyty oherwydd pandemig Covid. Nid yw'n hysbys pryd bydd y brydles hon yn ailgychwyn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Brifysgol yn denant mewn tair prydles sylweddol a'r landlordiaid oedd Dinas a Sir Abertawe (y Ganolfan Ddinesig), y GIG (Ysbyty Singleton) a'r Coleg, cwmni cyd-fenter y Brifysgol. Daeth y brydles gyda Dinas a Sir Abertawe i ben ym mis Mehefin 2020 ac ni chafodd ei hadnewyddu. Mae'r brydles gyda'r GIG ar gyfer Ysbyty Singleton wedi cael ei hatal dros dro. Mae'r Brydles gyda'r Coleg, sydd mewn adeilad ar Gampws y Bae, yn para tan 2038.

**Cyfanswm rhenti dyledus o dan brydlesi gweithredu:**

Mae'r Brifysgol yn prydlesu ardaloedd bach ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Mae'r prydlesi'n cynnwys deintyddfa, meddygfa, uned fanwerthu ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, labordy ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Ltd, is-gwmni y mae'r Brifysgol yn berchen yn llwyr arno, a labordy ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae telerau a chyfnodau terfynu pob prydles yn amrywio. Nid oes gan y Brifysgol eiddo buddsoddiad yn rhan o'i phortffolio gan fod lleoedd sy'n cael eu rhentu'n lleoedd bach o fewn adeiladau mwy.

Yn ystod y flwyddyn, caniataodd y Brifysgol seibiannau rhent o dan 18 prydles wahanol, sef cyfanswm o £28,000 o ganlyniad i bandemig Covid.

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| **CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** | **TIR AC ADEILADAU** | TIR AC ADEILADAU |
| | **£'000** | £'000 |
| **Isafswm taliadau prydlesi dyledus yn y dyfodol** | | |
| O fewn blwyddyn | **360** | 344 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | **1,032** | 1,003 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | **1,826** | 1,993 |
| **Cyfanswm taliadau prydlesi dyledus** | **3,218** | 3,340 |

Nid oedd rhenti wrth gefn yn ddyledus yn ystod 2019/20 (2018/19: £0).

## 29 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Ar 12 Awst 2020, bu tân mewn adeilad Peirianneg ar Gampws y Bae. Llwyddwyd i ddiffodd y tân ac agorwyd y campws eto'r diwrnod canlynol. Mae rhan o'r adeilad ar gau o hyd a bydd angen atgyweiriadau sylweddol. Dinistriwyd cyfarpar gwerth swm sylweddol hefyd. Mae'r atgyweiriadau a'r gwaith o gaffael cyfarpar newydd yn cael eu rheoli gan UMAL, cwmni yswiriant y Brifysgol.

Ar 13 Hydref 2020, cytunwyd ar brisiad Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe dyddiedig 1 Awst 2019. Fel rhan o'r prisiad, mae'r Brifysgol wedi cytuno i dalu'r canlynol:

- 23.0% o Gyflogau Pensiynadwy o 1 Awst 2021 mewn perthynas â chynnydd o 0.2% y flwyddyn mewn buddion a gronnwyd o Gyflogau Pensiynadwy yn y dyfodol, bob 1 Awst gyda'r cynnydd cyntaf o 1 Awst 2022;
- £0.5m y flwyddyn, i'w dalu mewn rhandaliadau misol cyfartal o 1 Awst 2021, mewn perthynas â threuliau (gan gynnwys premiymau marwolaeth mewn gwasanaeth); a
- £2.3m y flwyddyn mewn rhandaliadau misol cyfartal, i gynyddu 3% bob 1 Awst, gyda'r cynnydd cyntaf o 1 Awst 2022. Cytunodd y Brifysgol hefyd i ddileu'r £1.2m a oedd yn ddyledus i'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020 mewn perthynas â gordaliadau cyflogres i bensiynwyr a'i gyfrif fel cyfraniad at y diffyg yn 2021

## 30 IS-FENTRAU

Mae'r is-fentrau (sydd i gyd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr) sy'n eiddo i'r Brifysgol yn llwyr neu a reolir yn effeithiol ganddi fel a ganlyn:

| **CWMNI** | **PRIF WEITHGAREDD** | **GWLAD COFRESTRU** | **STATWS** |
|---|---|---|---|
| Swansea Materials Research & Testing Limited | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| Swansea Innovations Limited | Masnacheiddio gwybodaeth, ymchwil a datblygu sy'n deillio o Brifysgol Abertawe | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| The Dylan Thomas Prize Limited | Addysg ddiwylliannol | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| SU Developments Limited | Segur | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| SU Pathway College Limited | Rheoli buddsoddiad mewn Cyd-fenter a darparu Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau | Y DU | Perchnogaeth 100% |

Mae gan bob is-gwmni r un diwedd blwyddyn â Phrifysgol Abertawe.

## 31 CYNLLUNIAU PENSIWN

Roedd gwahanol gategorïau o staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau canlynol:

Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS)

Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) – Caewyd i aelodau newydd ar 31 Rhagfyr 2011

Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) – o 1 Ionawr 2012

Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG ar gyfer nifer o'i gweithwyr.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig. Cedwir asedau'r ddau gynllun mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

| | **CYFUNOL** | **PRIFYSGOL** | CYFUNOL | PRIFYSGOL |
|---|---|---|---|---|
| | **2020** | **2020** | 2019 | 2019 |
| | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Datganiad o incwm cynhwysfawr - cost pensiynau net** | | | | |
| USS | **22,149** | **22,149** | 18,929 | 18,929 |
| Tâl diffyg cynllun pensiwn USS | **(41,141)** | **(41,141)** | 56,935 | 56,935 |
| SUPS | **13,038** | **13,038** | 12,121 | 12,121 |
| Arall | **1,155** | **1,155** | 1,129 | 1,129 |
| | **(4,799)** | **(4,799)** | 89,114 | 89,114 |
| **Incwm cynhwysfawr arall - enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn** | | | | |
| SUPS | **(10,800)** | **(10,800)** | (13,000) | (13,000) |
| | **(10,800)** | **(10,800)** | (13,000) | (13,000) |
| **Datganiad o Sefyllfa Ariannol - rhwymedigaeth cynlluniau pensiwn (nodyn 21)** | | | | |
| USS | **48,974** | **48,974** | 88,678 | 88,678 |
| SUPS | **71,700** | **71,700** | 59,900 | 59,900 |
| | **120,674** | **120,674** | 148,578 | 148,578 |

## 31 CYNLLUNIAU PENSIWN - PARHAD

### (i) Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion

Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), sef y prif gynllun sy'n cynnwys y rhan fwyaf o staff academaidd ac academaidd berthynol. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn hybrid sy'n darparu buddion diffiniedig (ar gyfer yr holl aelodau), yn ogystal â buddion cyfraniad diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Oherwydd natur gilyddol y cynllun, ni chaiff asedau'r cynllun eu neilltuo i sefydliadau unigol, a phennir cyfradd gyfrannu ar gyfer y cynllun cyfan. Mae'r Brifysgol yn agored i risgiau actiwaraidd, felly, sy'n gysylltiedig â gweithwyr sefydliadau eraill, ac nid yw'n gallu nodi ei chyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Yn unol â'r gofyniad yn Adran 28 FRS 102,"Buddion Cyflogeion", mae'r Brifysgol yn cyfrifo am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig yn gyfan gwbl. O ganlyniad, mae'r swm a nodir ar y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun. Gan fod y Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb (y Cynllun Adennill) sy'n pennu'r swm y bydd pob cyflogwr yn y cynllun yn ei dalu i ariannu'r diffyg cyffredinol, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy o ganlyniad i'r cytundeb (i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg) a chydnabyddir treuliau cysylltiedig drwy'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr.

Cyfanswm y gost a nodir ar y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yw £22,149k (2019: £18,929) gan gynnwys PensionChoice, ond ac eithrio effaith y newid yn y cynllun i adennill y diffyg, fel y dangosir yn nodyn 7.

Cyfraniadau adennill y diffyg sy'n ddyledus ar gyfer y sefydliad o fewn un flwyddyn yw £1,772k (2019: £1,415)

Prisiad actiwaraidd diweddaraf llawn adran Adeiladwr Incwm Ymddeol y Cynllun sydd ar gael yw'r un a wnaed ar 31 Mawrth 2018 ("dyddiad y prisiad"), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Mae prisiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 wedi'i ddechrau ond nid yw wedi'i gwblhau eto.

Am na all y sefydliad adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r Adeiladwr Incwm Ymddeol (budd diffiniedig), mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

Prisiad 2018 oedd pumed prisiad y cynllun USS o dan y drefn ariannu cynllun penodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004, sy'n gofyn bod cynlluniau'n mabwysiadu amcan ariannu statudol, sef cadw asedau digonol a phriodol i dalu eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £63.7 biliwn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £67.3 biliwn, gan nodi diffyg o £3.6 biliwn a chymhareb ariannu o 95%

Disgrifir y prif dybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2018 isod. Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu.

| | |
|---|---|
| Cyfradd ddisgownt (cyfraddau arfaethedig) | Blynyddoedd 1-10: CPI + 0.14% yn gostwng yn llinol i CPI - 0.73% |
| | Blynyddoedd 11-20: CPI + 2.52% yn gostwng yn llinol i CPI + 1.55% erbyn blwyddyn 21 |
| | Blynyddoedd 21 +: CPI + 1.55% |
| Cynnydd pensiwn (CPI) | Cyfraddau yn ddibynnol ar dymor yn unol â'r gwahaniaeth rhwng y gromlin arenillion Llog Sefydlog a'r gromlin arenillion sy'n Gysylltiedig â'r Mynegai, namyn 1.3% y flwyddyn. |

Mae'r brif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddiwyd yn ymwneud â thybiaethau ynghylch marwolaeth. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gwblhawyd fel rhan o brisiad actiwaraidd 2018. Mae'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddiwyd yn y ffigurau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Tabl sylfaen marwolaethau** | **PRISIAD 2018** |
| | **Cyn ymddeol:** |
| | 71% o AMC00 (hyd 0) ar gyfer gwrywod a 112% o AFC00 (hyd 0) ar gyfer benywod. |
| | |
| | **Ar ôl ymddeol:** |
| | 97.6% o SAPS S1NMA "ysgafn" ar gyfer gwrywod a 102.7% o RFV00 ar gyfer benywod. |
| **Gwelliannau i'r gyfradd marwolaethau yn y dyfodol** | CMI_2017 gyda pharamedr llyfnhau o 8.5 a chyfradd welliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn ar gyfer gwrywod ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer benywod. |

| | PRISIAD 2018 | PRISIAD 2017 |
|---|---|---|
| **Y disgwyliadau oes cyfredol ar gyfer gweithwyr sy'n ymddeol yn 65 oed yw:** | | |
| Gwrywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd | 24.4 | 24.6 |
| Benywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd | 25.9 | 26.1 |
| Gwrywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd | 26.3 | 26.6 |
| Benywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd | 27.7 | 27.9 |

Rhoddwyd cynllun newydd i adennill y diffyg ar waith fel rhan o brisiad 2018. Mae hwn yn gofyn am daliadau cyfwerth â 2% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 pan fydd y gyfradd yn cynyddu i 6%, tan 31 Mawrth 2028. Mae rhwymedigaeth 2020 i adennill y diffyg yn adlewyrchu'r cynllun hwn. Cynhyrchwyd ffigurau'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 0.74% | 1.62% |
| Twf mewn cyflogau pensiynadwy | 3.20% | 4.17% |





Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019, roedd y rhwymedigaeth yn seiliedig ar y cynllun blaenorol i adennill y diffyg, a oedd yn gofyn am daliadau cyfwerth â 5% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2034.

Mae gostyngiad yng nghyfnod y cynllun adennill y diffyg wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer y diffyg sydd wedi gostwng o £88,678k i £48,974k fel y nodwyd yn nodyn 21. Mae £1,772k o'r gostyngiad hwn o ganlyniad i newid yn yr ymrwymiad dan gontract i dalu cyfraniadau at y diffyg. Gweler hefyd nodyn 7 ynghylch Costau staff mewn perthynas â chostau / enillion sylweddol untro ar gyfer pensiynau.

Mae prisiad llawn pellach o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 ar y gweill ar hyn o bryd. Gan fod y prisiad newydd ddechrau, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gytuno ar y tybiaethau o ran darpariaethau technegol, hyd a lled risg buddsoddiadau yn y dyfodol, hyd cyfnod y diffyg a lefel y cyfraniadau at y diffyg. Mae newidiadau i reolau ynghylch cryfhau cyfamod y cyflogwr ar y gweill hefyd, gan gynnwys cyfyngiadau ar gyflogwyr yn gadael cynlluniau, monitro dyled a threfniadau pari passu. Rhaid cwblhau'r prisiad erbyn 30 Mehefin 2021. Fodd bynnag, rhagwelir yn gyffredinol y bydd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer y diffyg erbyn 31 Gorffennaf 2021 (gan ragdybio y bydd y prisiad wedi'i gwblhau erbyn hynny).

### (ii) Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe

**(Buddion Ymddeol) datgeliad ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben 31 Gorffennaf 2020**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig ar sail cyflog terfynol y gall aelodau staff anacademaidd y Brifysgol fod yn aelodau ohono, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Caiff y cynllun ei ariannu'n allanol ac mae wedi'i gontractio allan o ddarpariaeth pensiwn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd ffurfiol diwethaf y cynllun ar 1 Awst 2016 gan actwari cymwysedig proffesiynol. Mae'r canlynol yn seiliedig ar ganlyniadau cychwynnol y prisiad teirblwydd a gynhaliwyd ar 1 Awst 2019.

Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, talodd y Brifysgol gyfraniadau i'r cynllun pensiwn ar gyfradd o 21.5% o gyflogau pensiynadwy.

### TYBIAETHAU

**Dyma'r tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun yn unol â FRS102:**

| | AR 31 GORFFENNAF 2020 | AR 1 AWST 2019 |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau (RPI) | 3.0% | 3.3% |
| Chwyddiant prisiau (CPI) | 2.2% | 2.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyfloga | 2.9% | 3.2% |
| (Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy n cael eu talu i aelodau SUPS) | 3.0% | 3.3% |
| Cynnydd mewn pensiynau a ohiriwyd cyn ymddeol | 2.2% | 2.5% |
| Cyfradd ddisgownt | 1.4% | 2.0% |

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifyddu ar sail disgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd sy n 65 oed ac aelodau nad ydynt yn bensiynwyr sy n 45 oed ar hyn o bryd.

| | | |
|---|---|---|
| Pensiynwr - gwrywaidd | 20.0 | 19.7 |
| Pensiynwr - benywaidd | 22.3 | 21.5 |
| Gwrywod (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | 21.1 | 20.7 |
| Benywod (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | 23.4 | 22.7 |

**Asedau'r cynllun a chyfraddau adenillion disgwyliedig SUPS**

Cyfrifwyd yr adenillion disgwyliedig ar asedau ar sail cyfartaledd wedi'i bwysoli'r adenillion disgwyliedig o bob un o'r prif ddosbarthiadau asedau (h.y. ecwitïau a bondiau). Mae adenillion disgwyliedig pob dosbarth ased yn adlewyrchu cyfuniad o ddadansoddi perfformiad hanesyddol, rhagolygon o'r marchnadoedd ariannol (fel yr awgrymir gan yr arenillion sydd ar gael) a barnau sefydliadau buddsoddi.

**Yr asedau yn y cynllun oedd:**

| | GWERTH TEG AR 31 GORFFENNAF | | |
|---|---|---|---|
| | **2020** | **2019** | **2018** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Ecwitïau | 41.2 | 43.0 | 40.5 |
| Bondiau'r Llywodraeth | - | - | - |
| Bondiau Corfforaethol | 7.3 | 9.2 | 7.5 |
| Eiddo | 9.8 | 10.5 | 10.3 |
| Cronfa GARS | 14.1 | 13.6 | 13.1 |
| Arall | 36.1 | 30.4 | 27.8 |
| Cyfanswm | 108.5 | 106.7 | 99.2 |

## 31 CYNLLUNIAU PENSIWN - PARHAD

Mae'r tablau isod yn cynnwys y datgeliadau ar gyfer Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe.

| | AR 31 GORFFENNAF 2020 | AR 31 GORFFENNAF 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O'R SWM A DDANGOSIR YN Y FANTOLEN AR GYFER SUPS** | | |
| Asedau'r cynllun | 108,500 | 106,700 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | 180,200 | 166,600 |
| **Diffyg yn y cynllun – rhwymedigaeth bensiwn net a gofnodwyd o dan incwm cynhwysfawr arall** | (71,700) | (59,900) |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (2,800) | (2,300) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | - | - |
| **Cyfanswm y tâl gweithredu:** | (2,800) | (2,300) |
| **Dadansoddiad o'r swm a godir ar gyfer llog i'w dalu/a gredydir i incwm cyllid arall ar gyfer SUPS** | | |
| Asedau'r cynllun | | |
| Cost llog | (3,300) | (4,000) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 2,100 | 2,800 |
| Llog ar ddiffyg net | | |
| **Cost net i incwm cyllid arall** | (1,200) | (1,200) |
| **Dadansoddiad o incwm cynhwysfawr arall ar gyfer SUPS** | | |
| Enillion ar asedau | 1,000 | 6,200 |
| Enillion / colled profiad ar rwymedigaethau | | |
| Colled ar rwymedigaethau | (11,800) | (19,200) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall cyn didyniad ar gyfer treth** | **(10,800)** | **(13,000)** |

| **Hanes o enillion a cholledion profiad - SUPS** | **BLWYDDYN I** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 GORFF 2020 | 31 GORFF 2019 | 31 GORFF 2018 | 31 GORFF 2017 |
| **Y gwahaniaeth rhwng adenillion gwirioneddol a disgwyliedig ar asedau'r cynllun:** | | | | |
| Swm (£000) | 1,000 | 6,200 | 1,300 | 4,600 |
| % o asedau ar ddiwedd y flwyddyn | 0.9% | 5.8% | 1.3% | 4.8% |
| **Profiad (Enillion) / Colledion ar rwymedigaethau'r cynllun:** | | | | |
| Swm (£000) | - | - | - | (8,900) |
| % o rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn | 0.0% | 0.0% | 0.0% | -6.2% |



## 31 CYNLLUNIAU PENSIWN - PARHAD

| | 31 GORFF 2020 | 31 GORFF 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall ar gyfer SUPS** | | |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddechrau'r flwyddyn | (39,200) | (26,200) |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddiwedd y flwyddyn | (50,000) | (39,200) |
| **Dadansoddiad o'r newid mewn gwarged/(diffyg) ar gyfer SUPS** | | |
| **Diffyg ar ddechrau'r flwyddyn** | **(59.900)** | **(46,000)** |
| Cyfraniadau neu fuddion a dalwyd gan y Brifysgol | 3,500 | 3,500 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (2,800) | (2,300) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | - | (500) |
| Costau gweinyddol | (500) | (400) |
| Taliadau cyllid eraill | (1,200) | (1,200) |
| Colled / enillion a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall | (10,800) | (13,000) |
| **Diffyg ar ddiwedd y flwyddyn** | **(71,700)** | **(59,900)** |
| **Dadansoddiad o newid yng ngwerth presennol SUPS** | | |
| **Gwerth presennol SUPS ar ddechrau'r flwyddyn** | **167,500** | **146,100** |
| Costau gwasanaeth cyfredol (net o gyfraniadau aelodau) | 2,800 | 2,300 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | | 500 |
| Cost llog | 3,300 | 4,000 |
| Colled / (enillion) actiwaraidd | 11,800 | 19,200 |
| Taliadau buddion gwirioneddol | (5,200) | (4,600) |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau SUPS ar ddiwedd y flwyddyn** | **180,200** | **167,500** |
| **Dadansoddiad o'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun** | | |
| **Gwerth teg asedau ar ddechrau'r flwyddyn** | **107,600** | **100,100** |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 2,100 | 2,800 |
| Adenillion actiwaraidd ar asedau | 1,000 | 6,200 |
| Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Brifysgol | 3,500 | 3,500 |
| Cyfraniadau gwirioneddol gan aelodau (gan gynnwys cyfraniadau tybiannol) | | - |
| Treuliau ac eithrio buddsoddiadau | (500) | (400) |
| Taliadau buddion gwirioneddol | (5,200) | (4,600) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **108,500** | **107,600** |

Nid yw asedau SUPS yn cynnwys unrhyw un o offerynnau ariannol y Brifysgol ei hun, nac unrhyw eiddo y mae'r Brifysgol yn ei feddiannu

| | | |
|---|---|---|
| **Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun** | 2,100 | 2,800 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 1,000 | 6,200 |
| Enillion/(colledion) asedau | **3,100** | **9,000** |

Amcangyfrifir mai £1,700k fydd cyfraniadau at SUPS ym mlwyddyn ariannol 2020-21 (2019-20 £1,700k) gan ragdybio cyfradd gyfrannu o 21.7% ynghyd â chyfraniad blynyddol sefydlog o £1,312k (2019-20 21.5% a £1,273k y flwyddyn).